Ymateb y GOC i'n hymgynghoriad ar ddiwygio Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Tachwedd 2026

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol 4

Cefndir 4

Crynodeb o ymateb y GOC i'r adborth o'r ymgynghoriad 5

Y camau nesaf 6

2. Rhagarweiniad 7

Cefndir y polisi 7

Y broses ymgynghori 8

Dull o gynhyrchu'r ymateb hwn 8

Ymgysylltu â rhanddeiliaid 9

3. Canfyddiadau'n ymwneud ag achub ar gyfleoedd i gofrestreion ddylunio eu dull CPD eu hunain 10

Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid 10

Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad 10

Newidiadau sydd angen diwygio deddfwriaeth 10

Cytuno â'n hamcanion ar gyfer yr adolygiad (Cwestiwn 1) 11

Symud i ffwrdd o system bwyntiau (Cwestiwn 2) 14

Cyflwyno canllawiau ar faint, meysydd a mathau o ddysgu yn lle gosod gofynion penodol (Cwestiwn 3) 18

Canllawiau'n nodi y dylai cofrestreion gwblhau digon o CPD (neu eiriau i'r perwyl) neu ddarparu lleiafswm tybiannol o weithgaredd a fyddai'n berthnasol i'r rhan fwyaf o gofrestreion, e.e. nifer oriau (Cwestiwn 4) 21

Ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion wneud cynllun datblygu personol (PDP) a myfyrio ar gynnydd fel rhan o arfarnu a dulliau tebyg (Cwestiwn 5) 23

Gofyniad bod cofrestreion yn gwneud datganiad blynyddol, wrth adnewyddu eu cofrestriad, eu bod wedi cyflawni digon o ddysgu i gynnal eu cymhwysedd ac wedi cadw cofnodion digonol i bwrpas adolygu (Cwestiwn 6) 26

Ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion gadw cofnodion o'u CPD ar systemau TG y GOC neu gadw eu cofnodion eu hunain (Cwestiwn 7) 28

Y GOC i adolygu sampl o gofnodion CPD ar ôl adnewyddu cofrestriad blynyddol (Cwestiwn 8) 30

Y gall y Cofrestrydd dynnu cofrestreion oddi ar y gofrestr os aseswyd bod eu cofnodion CPD yn anfoddhaol ac nid oeddent wedi cywiro'r sefyllfa, ond gyda hawl i apelio (Cwestiwn 9) 32

Newid y cymwyseddau (y pedwar maes) y mae'n rhaid i ddigwyddiadau CPD fod yn berthnasol iddynt (Cwestiwn 10) 34

Addasu'r pwyntiau a roddir i wahanol weithgareddau i'w gwneud yn haws cyrraedd y cyfanswm pwyntiau sydd ei angen o dan Reolau CPD 2021 (Cwestiwn 11) 37

Cael gwared ar yr isafswm o bwyntiau CPD sy'n rhaid eu casglu o weithgareddau drwy ddarparwr (Cwestiwn 12) 39

Cael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig (Cwestiwn 13) 41

4. Canfyddiadau'n ymwneud â chofrestreion busnes 45

Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid. 45

Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad 45

Defnyddio rôl busnesau yn y system CPD i gefnogi system sy'n rhagnodi llai o ofynion ar gyfer cofrestreion unigol (Cwestiwn 14) 46

Bod gan gofrestreion busnes gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod gan gofrestreion unigol gynllun datblygu personol diweddar (Cwestiwn 15) 48

Cryfhau'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol (Cwestiwn 16) 50

Ymgorffori adborth cleifion yn y system CPD (Cwestiwn 17) 51
5. Canfyddiadau ar roi'r gorau i gymeradwyo ac archwilio darparwyr CPD 54
Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid 54
Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad 54
Ystyried rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD (Cwestiwn 18) 55
Lleihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwr symud o gymeradwyaeth dros dro i statws cymeradwy llawn (Cwestiwn 19) 58
Rhoi'r gorau'n raddol i archwilio darparwyr CPD dros gylch 2028-30 (Cwestiwn 20) 60
Tynnu'n ôl o Safonau'r GOC ar gyfer Darparwyr CPD (Cwestiwn 21) 61
6. Meysydd eraill 63
Pryd ddylem ni gyflwyno newidiadau'n gofyn diwygio Rheolau CPD 2021 (Cwestiwn 22) 63
Asesiad effaith 65
Yr iaith Gymraeg 68

1. Crynodeb gweithredol

Cefndir

1. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn rheoleiddio gwasanaethau gofal llygad yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru tua 35,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr-optometryddion, myfyrwyr-optegwyr cyflenwi a busnesau optegol.

2. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) yn gyfreithiol ofynnol i bob optometrydd ac optegydd cyflenwi cymwysedig ac a gofrestrodd gyda'r GOC, ac un o'n cyfrifoldebau yw gweinyddu'r cynllun CPD. Mae CPD yn sicrhau bod cofrestreion yn cynnal a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i helpu i sicrhau diogelwch ac ansawdd y gofal a roddir i'w cleifion.

3. Mae strategaeth gorfforaethol 2025-30 yn cynnwys ymrwymiad i *"Ddiwygio ein system CPD i roi ffocws ar ansawdd yn lle faint o ddatblygiad proffesiynol a gyflawnir a chefnogi'r rolau clinigol ehangach a gyflawnir gan gofrestreion wrth ail-ddylunio gwasanaeth".* Mae'r ddogfen ymgynghori'n disgrifio beth sy'n gyrru newid gan gynnwys bod cynllun 10 mlynedd NHS Plan for England yn disgwyl i reoleiddwyr proffesiynol 'adnewyddu' eu systemau CPD.[1] Mae'r meddylfryd polisi wrth wraidd system bresennol y GOC yn dyddio i 2018, felly roedd yn amserol ei hadolygu i sicrhau dull sy'n cwrdd â disgwyliadau'r llywodraeth, cefnogi ailddylunio gwasanaethau ac sy'n gyson ag ymarfer da ar draws rheoleiddio gwasanaethau proffesiynol.

4. Ein gweledigaeth ddiwygio, a ddisgrifiwn yn yr ymgynghoriad, yw moderneiddio a symleiddio ein gofynion CPD i fod yn system fwy hyblyg ac yn rhagnodi llai o ofynion. Yn fras, roedd ein cynigion yn disgyn i dri grŵp sef:
   - Sicrhau bod gan gofrestreion bob cyfle i ddylunio eu dull CPD
   - Rhoi mwy o rôl i gofrestreion busnes i gefnogi cofrestreion gyda CPD
   - Dod â chymeradwyo ac archwilio darparwyr CPD i ben

5. Gyda rhai o'r cynigion mwyaf sylweddol, fel dod â'r system bwyntiau i ben, byddai angen newidiadau i Reolau CPD 2021, sydd angen amser seneddol. Gellid gweithredu cynigion eraill heb newid y ddeddfwriaeth a'u cyflwyno ar gyfer dechrau cylch CPD 2028-30.

6. Rhedodd yr ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos o 19 Ionawr 2026 tan 19 Ebrill 2026. Derbyniwyd 165 o ymatebion ysgrifenedig gan ddarparwyr CPD, cofrestreion, cyflogwyr, y sector addysg, cyrff cynrychiadol, a rhanddeiliaid eraill.

7. Cynhaliom hefyd sawl digwyddiad i randdeiliaid dros gyfnod yr ymgynghoriad. Crynhoir adborth a dderbyniwyd yn y digwyddiadau ar ddechrau pob pennod.

[1] UK Government and NHS England, Fit for the Future: The 10 Year Health Plan for England, July 2025.

Crynodeb o ymateb y GOC i'r adborth o'r ymgynghoriad

Newidiadau sydd angen diwygio Rheolau CPD 2021 – targed Ionawr 2031

Sicrhau bod gan gofrestreion bob cyfle i ddylunio eu dull CPD

- Dod â'r system bwyntiau a chylchoedd tair blynedd i ben
- Canllawiau dangosol GOC ar feysydd dysgu, mathau o weithgaredd a faint o CPD, gydag eglurder ar ein dull o adolygu cofnodion CPD a dileu cofrestriad
- Angen i gofrestreion gynnal cynllun datblygu personol
- Cofrestreion i wneud datganiad cydymffurfio wrth adnewyddu eu cofrestriad
- Cofrestreion i gadw cofnodion dysgu er mwyn eu hadolygu gyda'r dull o gadw, ar systemau'r GOC neu TG personol, i'w benderfynu nes ymlaen
- Aseswyd annibynnol i adolygu sampl o gofnodion yn erbyn y canllawiau
- Yn y pen draw gellid dileu cofrestriad pe bai cofnodion CPD yn cael eu hasesu i fod yn anfoddhaol, a'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan y Cofrestrydd, a hawl i apelio i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru:

Rhoi mwy o rôl i gofrestreion busnes i gefnogi cofrestreion gyda CPD

- Dim angen

Darparwyr CPD

- Dod â chymeradwyo darparwyr CPD i ben, i gyd-fynd â diwedd y system bwyntiau

Newidiadau ar gyfer cylch 2028-30 – y cwbl yn bosib o fewn Rheolau CPD 2021

Sicrhau bod gan gofrestreion bob cyfle i ddylunio eu dull CPD

- Ystyried ail-ddyrannu pwyntiau am wahanol weithgareddau gyda ffocws ar y baich gweithgareddau a chymhellion i gefnogi blaenoriaethau sectorau allweddol, fel cynyddu nifer y goruchwylwyr a chymwysterau addysgu ac ôl-gofrestru
- Newid o bedwar i ddau barth dysgu gorfodol gyda ffocws ar ymarfer clinigol ac ymddygiad proffesiynol.
- Dileu unrhyw ofynion a allai fod yn dal CPD hunangyfeiriedig yn ôl, gan gynnwys y CPD drwy ddarparwr lleiaf sy'n ofynnol, a bod angen ysgrifennu datganiad myfyriol ar gyfer pob digwyddiad CPD hunangyfeiriedig

Rhoi mwy o rôl i gofrestreion busnes i gefnogi cofrestreion gyda CPD

- Adolygu'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol
- Ymgorffori adborth gan gleifion yn y canllawiau CPD
- Cynnig i roi cyfrifoldeb penodol i gofrestreion busnes i sicrhau bod gan gofrestreion unigol gynllun datblygu personol diweddar yn cael ei dynnu'n ôl

Darparwyr CPD

- Lleihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwyr CPD droi o statws cymeradwy dros dro i statws cymeradwy llawn
- Cynnal safonau ar gyfer darparwyr CPD
- Lleihau nifer yr archwiliadau o ddarparwyr CPD yng nghylch 2028-30

Y camau nesaf

8. Er y gallwn wneud rhai newidiadau i'r system CPD cyn dechrau cylch 2028-30, byddai angen newid Rheolau CPD 2021 i wneud unrhyw newidiadau mawr – is-ddeddfwriaeth yw hyn. Er ein bod yn arwain ar ymgysylltu â'r sector drwy'r ymgynghoriad hwn, nid yw cyfrifoldeb am gytuno i newidiadau deddfwriaeth yn gorwedd gyda ni ond gyda'r Senedd, a Llywodraeth y DU fydd yn penderfynu ar ba mor sydyn y gwneir, a chanlyniad, unrhyw newidiadau. Bydd ymgynghori pellach felly ar unrhyw newid deddfwriaeth, wedi'i arwain naill ai gan y GOC a / neu Lywodraeth y DU.

9. Mae cyrff proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr CPD ac eraill yn bartneriaid allweddol mewn darparu'r system CPD ac mae'n bwysig bod gan y sector hyder yn ein newidiadau. Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth i ddiwygio a datblygu mwy ar ein cynigion, ac yn ehangach i gefnogi'r broses o newid diwylliant a phroses bontio reoledig. Byddwn yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda ffocws i ddechrau ar newidiadau sydd angen eu cyflwyno yn Ionawr 2028.

10. Isod rhoddir amlinelliad o amserlen ar gyfer y gwaith cyn cylch CPD 2028-30.

Tasg	**Amserlen**
Grŵp Gorchwyl a Gorffen	Tachwedd 2026 tan fis Mawrth 2027
Cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf	October 2027
Cylch CPD 2025-27 yn dod i ben	31 Rhagfyr 2027
Cyngor i ystyried gwerthuso cylch CPD 2025-27	Mehefin 2028

2. Rhagarweiniad

Cefndir y polisi

11. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn holi barn am foderneiddio a symleiddio ein gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) i fod yn system fwy hyblyg ac yn rhagnodi llai o ofynion. Rhoddir y manylion a'r rhesymu ar gyfer y cynigion yn y papur ymgynghori Diwygiadau i CPD.

12. Disgynnodd ein cynigion i dri grŵp (testun wedi'i atgynhyrchu o'r papur ymgynghori):
    - **Sicrhau bod gan gofrestreion bob cyfle i ddylunio eu dull CPD.** Symud i ffwrdd o system lleiafswm pwyntiau a fformatau dysgu rhagnodedig tuag at ddull ar sail canlyniadau sy'n gosod disgwyliadau ehangach ar gyfer cofrestreion. Byddai'r GOC yn rhoi canllawiau ar feysydd dysgu, mathau o weithgaredd a faint o CPD i'w gyflawni, ond cofrestreion yn penderfynu'r union weithgareddau. Byddai cofrestreion dal yn cwblhau Cynllun Datblygu Personol a myfyrio ar eu cynnydd. Byddent yn cadw cofnodion o'u CPD a byddem yn adolygu sampl o'r cofnodion yn flynyddol yn erbyn ein canllawiau. Gellid dileu cofrestriad pe bai cofnodion CPD yn cael eu hasesu i fod yn anfoddhaol, gyda chyfle i gywiro ac apelio. Byddai pob cofrestrai'n gwneud datganiad cydymffurfio blynyddol wrth adnewyddu eu cofrestriad i helpu i ategu'r system hon.
    - **Cryfhau rôl cofrestreion busnes.** Mae gan gyflogwyr berthynas agosach â chofrestreion na'r GOC ac felly mewn lle gwell i'w cefnogi i adnabod a hyrwyddo eu hanghenion dysgu a datblygu. Byddem yn adolygu Safonau'r GOC ar gyfer Busnesau Optegol i ategu'r rôl hon. Gellid rhoi cyfrifoldebau penodol i fusnesau am rai nodweddion allweddol o gynllun diwygiedig, fel gwirio bod Cynlluniau Datblygu Personol yn eu lle. Byddai busnesau'n cael eu hannog i ymgorffori adborth gan gleifion fel rhan o arfarnu a systemau tebyg.
    - **Dod â chymeradwyo ac archwilio darparwyr CPD i ben** Y GOC yw'r unig reoleiddiwr gofal iechyd sy'n cymeradwyo ac archwilio darparwyr CPD a chredwn nad oes angen gwneud hyn mwyach am resymau gwarchod y cyhoedd. Mae boddhad cofrestreion â'r ddarpariaeth CPD yn uchel a chredwn y dylai grymoedd marchnad fod yn ddigon i sicrhau ansawdd heb unrhyw drosolwg gan y GOC.

13. Mae rhai agweddau ar y system CPD yn cael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth – Rheolau CPD 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion a fyddai'n golygu diwygio'r Rheolau hyn, ac roeddem yn holi barn am amserlen unrhyw newidiadau o'r fath. Eglurwyd ein bod wedi hysbysu'r llywodraeth y byddai efallai angen newid i ddeddfwriaeth ond gan weithio ar y

sail na fyddai amser seneddol ar gael cyn dechrau cylch 2028-30. Fodd bynnag, eglurom fod sgôp i wneud gwelliannau a fyddai'n gyson â'n gweledigaeth i ddiwygio Rheolau CPD 2021 cyn y cylch 2028-30 a heb newid deddfwriaeth.

Y broses ymgynghori

14. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos o'r 19 Ionawr tan 19 Ebrill 2026.

15. Derbyniwyd 165 o ymatebion ysgrifenedig gan ystod o randdeiliaid. Roeddent yn cynnwys:

    - 41 gan optegwyr cyflenwi
    - 1 gan fyfyriwr-optegydd cyflenwi
    - 68 gan optometryddion
    - 9 gan optegydd cyflenwi lensys cyswllt
    - 10 gan optometryddion rhagnodi therapiwtig
    - 8 gan gyrff proffesiynol
    - 11 gan ddarparwyr CPD
    - 2 gan ddarparwyr addysg
    - 2 gan gofrestreion busnes GOC, a
    - 4 gan unigolion "eraill"

16. Y sefydliadau oedd yn fodlon cael eu hadnabod oedd:

    - Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO)
    - Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)
    - Pwyllgor Optegol Lleol Bexley, Bromley a Greenwich
    - Coleg yr Optometryddion
    - FODO – Cymdeithas y Darparwyr Gofal Llygad
    - Optometry Scotland
    - Optometreg Cymru

17. Cyflwynodd ABDO, yr AOP, Coleg yr Optometryddion a FODO hefyd ymateb ar y cyd yn nodi'r meysydd yr oeddent yn gytûn arnynt.

18. Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a gawsom ac wedi ei ystyried wrth benderfynu ein camau nesaf.

Dull o gynhyrchu'r ymateb hwn

19. Dadansoddwyd yr ymatebion yn unol â'n polisi ymgynghori, sy'n cynnwys y paragraff canlynol:

    "Byddwn yn parhau i gael ein tywys gan ein hegwyddorion llywodraethu, yn enwedig yr egwyddor o warchod y cyhoedd. Mae ein ffocws ar y dystiolaeth a'r rhesymu a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, gan ddadansoddi ansawdd yr ymatebion yn bennaf. Ni wneir penderfyniadau ar sail rhifau'n unig. Yn hytrach, mae ein penderfyniadau'n seiliedig ar gryfder y dadleuon a gyflwynir i ni a'n

hasesiad o'r dystiolaeth o effaith ein cynigion. Nid pleidlais yw ymgynghori ac ni roddwn unrhyw bwysau artiffisial i'r grwpiau optometryddion, optegwyr cyflenwi, cleifion neu unrhyw grŵp arall o randdeiliaid. Lle bo'n briodol, rydym yn debygol o roi mwy o bwysau i adborth cyrff y sector optegol sy'n cynrychioli nifer sylweddol o'n cofrestreion, yn hytrach nag i unigolion."

20. Anogwyd ymatebwyr i gyflwyno sylwadau drwy gydol yr ymgynghoriad ac fe wnaethom adolygu pob sylw a dderbyniwyd. Cynhyrchir pob sylw sydd wedi'i gynnwys air am air, er ein bod wedi cywiro mân-wallau sillafu a / neu ramadegol lle'r oeddent yn amlwg.

21. Dim ond sylwadau y rhoddodd yr ymatebwr ganiatâd i'w cyhoeddi sydd wedi eu cynnwys (naill ai ochr yn ochr ag enw eu sefydliad neu'n ddi-enw). Nid yw'n arfer gennym gynnwys enwau ymatebwyr unigol, hyd yn oed lle y rhoesant eu caniatâd i ni gyhoeddi eu hymateb.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

22. Fel rhan o'n dull o ymgynghori, cynhaliwyd digwyddiadau gyda rhanddeiliaid dros 12 wythnos y cyfnod ymgynghori. Mae adborth o'r digwyddiadau hyn wedi'i gynnwys mewn rhannau perthnasol o'r adroddiad isod. Cawsom hefyd drafodaethau gyda grwpiau sy'n cynrychioli cleifion.

Panel Cynghori

23. Fe wnaethom drafod y cynigion gyda'n Panel Cynghori, sy'n cynnwys pedwar pwyllgor statudol: Y Pwyllgor Cwmnïau, Pwyllgor Addysg, Pwyllgor Cofrestru a'r Pwyllgor Safonau. Eu rôl yw rhoi cyngor a chymorth i'n Cyngor.

3. Canfyddiadau'n ymwneud ag achub ar gyfleoedd i gofrestreion ddylunio eu dull CPD eu hunain

Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid

Ar draws y digwyddiadau ymgynghori, roedd cyfranogwyr ar y cyfan o blaid y bwriad i symud i ffwrdd o fodel CPD ar sail pwyntiau, gan weld manteision posib mewn dull datblygiad proffesiynol mwy hyblyg a myfyriol.

Teimlai llawer y gall y system bresennol annog meddylfryd "ticio bocsys" lle y mae cofrestreion yn canolbwyntio ar hel pwyntiau'n lle adnabod a chwrdd ag anghenion dysgu diffuant. Ar yr un pryd, roedd y neges yn gryf na ddylai hyblygrwydd ddod ar draul eglurder. Pwysleisiodd randdeiliaid fod angen disgwyliadau a chanllawiau clir ar gofrestreion, a fframwaith gweladwy fel bo'r gofynion yn aros yn ddealladwy a chyson ar draws gwahanol rolau a lleoliadau.

25. Pryder cyson oedd y gallai cael gwared ar y system bwyntiau'n llwyr wanhau atebolrwydd a lleihau ymgysylltu, yn enwedig i gofrestreion sy'n llai hyderus mewn cynllunio eu datblygiad neu a allai fel arall adael y dysgu tan ddiwedd y cylch. Roedd llawer o randdeiliaid felly o blaid cadw rhyw fath o ofynion gofynnol neu ddisgwyliad sylfaenol, p'un ai drwy oriau, disgwyliadau gweithgareddau blynyddol neu drothwy mesuradwy arall. Dywedodd gyfranogwyr hefyd y dylai unrhyw fodel i'r dyfodol er hynny sicrhau tegwch a chysondeb, gyda ffyrdd clir o ddangos tystiolaeth o ddysgu, cefnogi prosesau archwilio a chynnal hyder bod pob cofrestrai'n cwrdd â safonau proffesiynol priodol.

26. Pwysleisiodd randdeiliaid y dylai CPD gael ei yrru gan amcanion dysgu unigol a chael ei deilwrio i gwmpas ymarfer, gan gydnabod y bydd datblygiad ystyrlon yn amrywio ar draws gwahanol leoliadau proffesiynol. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn nodi'r heriau ymarferol i weithredu hyn, gan gynnwys argaeledd cyfleoedd dysgu addas, ansicrwydd am beth fyddai'n cyfrif fel dysgu hunangyfeiriedig, a phryderon y byddai'r newidiadau arfaethedig ond yn disodli un math o gofnodi gweinyddol ag un arall. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn awgrymu cefnogaeth bwyllog i ddiwygio ond gyda disgwyliad clir y dylai unrhyw newid fod yn raddol, wedi'i gyfathrebu'n dda a chynnwys canllawiau cryf i helpu cofrestreion i addasu i system newydd yn hyderus ac effeithiol.

Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad

27. I ddilyn, rhoddir crynodeb o'r adborth ysgrifenedig gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar bob cwestiwn a ofynnwyd am sut y gellid creu pob cyfle i gofrestreion fod yn gallu dylunio eu dull CPD eu hunain.

Newidiadau sydd angen diwygio deddfwriaeth

28. Roedd cwestiynau 1-9 yn holi barn am gynigion a fyddai'n golygu bod angen diwygio Rheolau CPD 2021 ac na fyddent felly'n bosib i'w gweithredu cyn dechrau cylch CPD 2028-20.

Cytuno â'n hamcanion ar gyfer yr adolygiad (Cwestiwn 1)

C1 Ydych chi'n cytuno â'n hamcanion ar gyfer yr adolygiad?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Ydym	51.2%	45.2%	84.0%
Nac ydym	20.0%	20.7%	16.0%
Ddim yn siŵr	28.8%	34.1%	0.0%

29. Roedd yr ymatebion ar y cyfan o blaid bwriad y GOC i foderneiddio CPD a symud y pwyslais i ffwrdd o faint o CPD a gyflawnir a thuag at ansawdd, perthnasedd a chanlyniadau. Fodd bynnag, rhybuddiodd rai ymatebwyr fod yn rhaid i ddiwygiadau gadw digon o strwythur a sicrwydd i ddiogelu cleifion, cynnal safonau cyson, ac osgoi canlyniadau anfwriadol fel annhegwch neu drosglwyddo costau. Yn eu hymateb, roedd Coleg yr Optometryddion yn galw am esblygiad o'r fframwaith presennol yn lle ailstrwythuro llwyr.

30. Mewn ymateb ar y cyd, awgrymodd bedwar corff sector y DU y dylid gwreiddio'r egwyddorion canlynol yn y system CPD newydd arfaethedig: parhau i warchod y cyhoedd; fframwaith digon eglur i gofrestreion; seiliedig ar dystiolaeth; seiliedig ar asesiad llawn o'r effeithiau; ac a allai gael ei gymhwyso'n gyson ar draws y sector. Er yn deall a chefnogi'r uchelgais i symud tuag at ddull CPD mwy seiliedig ar ganlyniadau sy'n grymuso cofrestreion, roeddent yn pwysleisio y bydd angen newid sylweddol dros gyfnod maith, gan gynnwys newid diwylliant eang, i bontio'n llwyddiannus at unrhyw system newydd. Roeddent felly'n annog y GOC i weithio'n agos gyda nhw, fel y prif gyrff sector, dros y cyfnod newid hwn ac i sefydlu dulliau effeithiol o gefnogi'r cydweithrediad hwn.

31. Roedd pryder bod y diwygiadau arfaethedig yn rhy amwys a heb ddigon o fanylder ynghylch beth fyddai'n disodli'r system bwyntiau. Teimlai rai ymatebwyr fod y diwygiadau'n ymddangos i ganolbwyntio ar leihau costau a baich rheoleiddio yn lle gwella safonau proffesiynol neu warchod y cyhoedd.

32. Dywedodd randdeiliaid eu bod o blaid:

- CPD mwy hyblyg yn rhagnodi llai o ofynion a chefnogi dysgu wedi'i deilwrio i anghenion datblygu a chwmpas ymarfer gweithwyr optegol.
- Dysgu seiliedig ar ganlyniadau i leihau ymddygiad "ticio bocsys" a chydymffurfio ac annog dysgu a datblygu mwy ystyrlon.
- Cydnabod gwahanol lwybrau gyrfaol, gan gynnwys rolau anghlinigol (er enghraifft mewn addysg, arweinyddiaeth, ymchwil, diwydiant / gweithgynhyrchu ayyb)
- Cefnogaeth i drawsnewid y gweithlu a modelau gofal esblygol ar draws y pedair gwlad, gan gynnwys uwch-sgiliau clinigol i ehangu gofal llygad yn y gymuned, llwybrau gofal llygad brys, llwybrau integredig, gofal digidol / o bell, a dulliau AI newydd

- Lleihau cost a baich rheoliadau diangen, er yn rhybuddio y dylai hyn gynnwys cofrestreion busnes a darparwyr CPD yn benodol.

33. Thema gyson oedd cefnogaeth amodol i'r cynigion. Roedd pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid yn cynnwys:

    - Bod angen i warchod y cyhoedd fod yn glir – teimlai rai nad oedd amcanion yr ymgynghoriad yn ddigon eglur o ran sut y bydd y diwygiadau arfaethedig yn parhau i warchod y cyhoedd a chynnal safonau uchel wrth i rolau clinigol ehangu
    - Colli strwythur a llai o ymgysylltu – y gallai symud gormod tuag at ddysgu hunangyfeiriedig penagored arwain at lai'n mynychu cyrsiau CPD strwythuredig, gwanhau cydweithrediad ac erydu safonau cyffredin sy'n ategu gofal diogel
    - Colli ffocws ar gymwyseddau craidd – er yn cydnabod bod cefnogi gwahanol lwybrau gyrfaol yn bwysig, y dylai CPD ganolbwyntio ar gynnal a gwella cymhwysedd cofrestreion
    - Effeithiau ar degwch – gallai system lai ffurfiol gynyddu anghydraddoldeb gan effeithio ar ymarferwyr mewn lleoliadau gwledig ac anghysbell a busnesau optegol bach gyda diffyg seilwaith. Roedd ymatebwyr yn galw am ddyluniad cynhwysol a theg fel bod y fframwaith yn gweithio ar draws gwahanol fodelau a lleoliadau cyflogaeth
    - Risg trosglwyddo a chyfrifoldeb costau – gallai costau trosolwg drosglwyddo o'r GOC i gyflogwyr, gyda chais am eglurder am bwy a fyddai'n gyfrifol am system ddiwygiedig, newydd
    - Seiliedig ar dystiolaeth ac asesiad effaith – roedd galw am asesiad effaith mwy cynhwysfawr a thryloyw
    - Blinder newid ac ymarferoldeb y gweithredu – cyfeiriodd rai ymatebwyr at newidiadau diweddar sylweddol heb lawer o amser i systemau wreiddio, aflonyddwch posib ac y dylai diwygiadau i'r system CPD aros yn ymarferol, rhwydd a dealladwy ac yn haws i'w gweithredu na'r dull presennol.

34. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod.

"Cytunwn â'r newid ffocws arfaethedig o faint o CPD a gyflawnir gan gofrestreion, at ansawdd y CPD. Cytunwn hefyd y dylai'r system fod yn fwy hyblyg a rhagnodi llai o ofynion, yn unol â phroffesiynau iechyd eraill." (AOP)

"Rydym yn croesawu'r ffocws y dylai cofrestreion fod yn gyfrifol am eu CPD eu hunain, fydd yn berthnasol i gwmpas eu hymarfer a'u hanghenion dysgu a datblygu. Rydym wedi dadlau ers tro byd bod dull presennol y GOC yn anghyson â dulliau rheoleiddwyr proffesiynol eraill gan greu risg o danseilio'r proffesiynau drwy or-reoleiddio. Fel gweithwyr iechyd, optometryddion ac optegwyr cyflenwi proffesiynol atebol, rheoledig a hunanreolaethol, nhw sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am ba CPD sy'n ateb eu hanghenion orau, a dylai system CPD ddiwygiedig gefnogi hyn." (FODO)

"Mae angen i ni wybod mwy am gostau cydymffurfio – gallai fod ffyrdd llawer gwell a rhatach o wneud hyn nag ailstrwythuro'r system gyfan. Credwn y bydd

y cynigion presennol hyn yn arwain at fwy o achosion addas i ymarfer ac felly'n gwneud dim ond trosglwyddo costau, yn lle arbed arian." (Coleg yr Optometryddion)

"Cytunwn y dylai gofynion CPD ganiatáu ar gyfer gwahanol lwybrau gyrfaol. Fodd bynnag, mae angen diffinio ffiniau lle y mae gyrfaoedd y cofrestreion yn croesi drosodd i wahanol broffesiynau neu feysydd nad yw'r GOC yn eu rheoleiddio. Er enghraifft, bydd dal angen i gofrestrai GOC a ddewisodd yrfa mewn addysg gwblhau CPD i gwrdd â gofynion y GOC a chael eu hystyried i fod yn ddiogel i aros ar y gofrestr." (ABDO)

"Cefnogwn fwriad y GOC i foderneiddio CPD a lleihau baich gweinyddol diangen. Fodd bynnag, mae symud yn llwyr tuag at ddysgu hunangyfeiriedig penagored yn creu risg o ymgysylltu llai ag addysg strwythuredig. Mae angen disgwyliadau clir i sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i elwa o ddysgu cyson, o ansawdd uchel." (Darparwr CPD)

"Credwn y byddai'r amcanion dywededig yn elwa o bwyslais cliriach a mwy penodol ar warchod y cyhoedd. Wrth i gofrestreion ysgwyddo cyfrifoldebau clinigol mwyfwy gymhleth, bydd CPD yn parhau i fod yn ddull rheoleiddio craidd i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ddiogel i ymarfer. Rhaid felly gwreiddio unrhyw ddiwygiadau mewn cynnal safonau gofal cyson a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn." (Optometry Scotland)

Ymateb y GOC - Cytuno â'n hamcanion ar gyfer yr adolygiad

35. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang i amcanion yr adolygiad o greu system fwy hyblyg, seiliedig ar ganlyniadau sy'n cydnabod gwahanol lwybrau gyrfaol a chefnogi trawsnewid y gweithlu ochr yn ochr ag ailddylunio gwasanaethau.

36. Yn unol â'n deddfwriaeth, gallwn sicrhau rhanddeiliaid bod ein hadolygiad wedi'i wreiddio yn ein hamcan trosfwaol statudol o warchod y cyhoedd. Cytunwn â'r pedwar prif gorff sector yn y DU y dylai unrhyw system newydd hefyd fod yn ddigon eglur i gofrestreion, bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar asesiad llawn o'r effeithiau, a gallu cael ei chymhwyso'n gyson ar draws y sector.

37. Gwerthfawrogwn pam fod rhai rhanddeiliaid yn galw am fwy o fanylder ar sut allai cynllun newydd weithio ond roedd yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar adolygu egwyddorion cyntaf y system CPD, ffocws ar egwyddorion dylunio allweddol a seilwaith lefel uchel. Pan fydd gennym eglurder gan lywodraeth ar amserlen y newidiadau i Reolau CPD 2021, gallwn ddechrau'r cynllunio manwl. Ni ddiystyriwn o gwbl y newid diwylliant fyddai ei angen ac rydym yn ymrwymedig i weithio'n gydweithredol â'r pedwar prif gorff sector yn y DU, ac eraill, i gyd-greu cynigion a chefnogi proses bontio reoledig. Bwriadwn greu grŵp gorchwyl a gorffen fel y prif gyfrwng i wneud hyn, fydd yn canolbwyntio i

ddechrau ar newidiadau i gylch 2028-30. Bydd angen ymgynghori'n gyhoeddus ar newid Rheolau CPD 2021.

38. Cytunwn fod angen i'r system CPD sicrhau bod cofrestreion yn cadw'r gofynion craidd o barhau i fod yn ddiogel i ymarfer. Dylai fod yn bosib gwneud hyn gan hefyd gefnogi gwahanol lwybrau gyrfaol a chwmpasau ymarfer sy'n ehangu.

39. Rydym yn croesawu adborth am adlewyrchu dylunio ar gyfer cynhwysiant a thegwch yn gryfach yn amcanion yr adolygiad. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi manteision ac anfanteision amrywiol opsiynau'r cofrestreion yn glir, gan ddibynnu ar anghenion ac amgylchedd gwaith y cofrestreion. Mae'r ymatebion wedi goleuo asesiad effaith diwygiedig ond, ar y cyfan, credwn fod dull CPD mwy hyblyg yn decach a mwy cynhwysol oherwydd y gallai addasu i wahanol anghenion ac amgylchiadau'r cofrestreion.

40. Defnyddiodd rai rhanddeiliaid y rhan yma o'r ymgynghoriad i wneud sylw ar haeddiannau'r cynigion newid penodol. Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu dewisiadau ar draws ein cynigion lle'r oedd gan randdeiliaid farn wahanol, fel cydbwyso hyblygrwydd a rhagnodi gofynion. Thema gyson oedd natur amodol y gefnogaeth i'n cynigion. Felly, yn hytrach nag ymateb i'r pwyntiau penodol hyn yma, ystyriwn y rhain o dan y cwestiynau perthnasol isod.

Symud i ffwrdd o system bwyntiau (Cwestiwn 2)

C2 Ydych chi'n cytuno y dylem symud i ffwrdd o system bwyntiau?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Ydym	37.7%	35.3%	50.0%
Nac ydym	44.0%	47.4%	26.9%
Ddim yn siŵr	18.2%	17.3%	23.1%

41. Awgryma'r data farn ranedig, gyda sefydliadau'n fwy o blaid symud i ffwrdd o system bwyntiau na'r ymatebion gan unigolion.

42. Yn ôl ein polisi ymgynghori *"lle bo'n briodol, rydym yn debygol o roi mwy o bwysau i adborth gan gyrff sector optegol yn cynrychioli nifer helaeth o'n cofrestreion yn hytrach nag unigolion".* O'r cyrff sector traws-DU, roedd ABDO, AOP a FODO o blaid symud i ffwrdd o system bwyntiau. Dyma oedd safiad Optometry Scotland ac Optometreg Cymru hefyd. Roedd safiad yr AOP wedi'i oleuo gan arolwg aelodau a dderbyniodd 752 o ymatebion.

43. Coleg yr Optometryddion oedd yr unig gorff sector a atebodd 'nac ydym' i'r cwestiwn hwn ar y sail bod *"yn rhaid i fframwaith CPD strwythuredig, gwrthrychol ac atebol aros yn ei le nes i newid diwylliant traws-broffesiwn ddigwydd".* Roeddent yn amcangyfrif y gallai hynny gymryd pum i saith mlynedd.

44. Roedd y rhai o blaid symud i ffwrdd o system bwyntiau'n cefnogi dull mwy seiliedig ar ganlyniadau ac anghenion sy'n lleihau ymddygiad "ticio bocsys". Roedd y gefnogaeth yma'n amodol ar dderbyn canllawiau clir a meincnodau gyda rhagofalon er mwyn cynnal cysondeb, dysgu rhyngweithiol a sicrwydd o gymhwysedd. Heb y rhain, roedd llawer yn rhagweld y byddai llai o ymgysylltu a mwy o amrywioldeb, gyda chanlyniadau posib i warchod y cyhoedd.

45. Cyfeiriodd ymatebwyr o blaid cadw'r system bwyntiau at ei heglurder, strwythur a'i rhwyddineb deall. Teimlai lawer ei bod yn cynnig fframwaith clir a mesuradwy i olrhain cynnydd a sicrhau bod pob cofrestrai'n cwrdd â safonau gofynnol o ran datblygiad proffesiynol. Pryder mynych oedd y byddai cael gwared ar y system bwyntiau'n arwain at anghysondeb, llai o atebolrwydd a risg y byddai rhai cofrestreion yn gwneud dim neu fawr ddim CPD heb eu cymell.

Roedd pryderon am symud i ffwrdd o system bwyntiau'n cynnwys:

- Byddai cael gwared ar bwyntiau heb feincnod arall yn creu ansicrwydd o ran beth fyddai "digon o CPD" yn ei olygu i gofrestreion, cyflogwyr, darparwyr ac archwilwyr.
- Gallai gor-ddibynnu ar ddysgu hunangyfeiriedig arwain at lai o ddysgu rhyngweithiol, llai o gyfle i ddysgu gan gymhariaid (e.e. adolygu gan gymhariaid, trafodaeth ar sail achosion) a phortffolios mwy anghyson.
- Risg o lai o ymgysylltu a CPD o ansawdd is – cyfeiriodd yr adborth at brofiad proffesiynau eraill lle'r oedd llacio'r gofynion wedi arwain at fynychu llai o CPD ffurfiol, llai o ddysgu gan gymhariaid, a rhwydweithio proffesiynol.
- Parodrwydd a newid diwylliant – barn gyson oedd nad yw'r proffesiwn yn gwbl barod eto am fodel sy'n rhagnodi llai o ofynion; gyda rhai'n dadlau bod angen proses bontio dros sawl blwyddyn (gyda buddsoddiad a chanllawiau).
- Gallai newid y baich gweinyddol i sefydliadau sy'n gwreiddio CPD mewn arfarnu a llywodraethu effeithio'n anghymesur ar optegwyr llai.

46. Cyfeiriodd yr ymatebion at nifer o amodau i gefnogi symud i ffwrdd o system bwyntiau, gan gynnwys:

- Cyhoeddi canllawiau clir ar faint o CPD fyddai'n ddisgwyliedig, mathau derbyniol o weithgareddau, a chofnodi gofynion i gefnogi cysondeb mewn archwiliadau ac adolygiadau.
- Cadw dangosydd ansawdd yn niffyg system bwyntiau, er mwyn cadw meincnod sylfaenol.
- Gosod disgwyliadau gofynnol ar gyfer dysgu rhyngweithiol (e.e. adolygu gan gymhariaid, gweithdai, dysgu ar sail achosion) i warchod rhag portffolios rhy hunangyfeiriedig / annibynnol.
- Amrywiaeth a chydbwysedd ar draws gwahanol fathau o ddysgu (strwythuredig a hunangyfeiriedig), wedi'i gysylltu i gwmpas ymarfer ac amcanion PDP.
- Cyflwyno dulliau sicrwydd cymesur i gynnal safonau a hyder y cyhoedd.
- Gweithredu'n raddol gyda chymorth i bontio, gan gydnabod bod hyn yn newid system a diwylliant sylweddol.

47. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod.

"Cytunwn fod system bwyntiau'n creu diwylliant diangen o dicio bocsys sy'n mynd yn groes i bwrpas datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr gofal iechyd ac yn mygu ehangu cwmpas eu hymarfer a datblygu arbenigedd clinigol. Drwy symud i ffwrdd o system bwyntiau, bydd dysgu gydol oes y cofrestreion yn fwy seiliedig ar ganlyniadau, sy'n unol â CPD ymarfer gorau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Hefyd, bydd hyn yn helpu cofrestreion i ddatblygu a chyflawni cynlluniau datblygu proffesiynol ystyrlon.

Fodd bynnag, credwn y bydd yn cymryd peth amser i'r sector cyfan newid y diwylliant yn ddigon i'r mwyafrif o gofrestreion fod yn gallu cyflawni eu gofynion CPD angenrheidiol yn hunanreolaethol, fel eu bod yna'n ymarferwyr gofal iechyd diogel a datblygol, y tu allan i'r system bwyntiau gyfarwydd." (ABDO)

"Cytunwn y dylid cael gwared ar y system bwyntiau. Byddai gwneud hynny'n gyson â chefnogi diwylliant lle y mae cofrestreion unigol, fel gweithwyr iechyd rheoledig, yn bersonol atebol am eu datblygiad proffesiynol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n adnabod, yn gywir, yr heriau a gyflwynir gan system bwyntiau gan gynnwys natur eithaf mympwyol y cyfanswm pwyntiau, risg dull ticio bocsys o gydymffurfio a chymhellion croes i gwblhau CPD na fyddai efallai'n briodol i anghenion a dyheadau gyrfa'r unigolyn. Mae'r ffactorau hyn yn ddigon o reswm dros symud at ddull mwy seiliedig ar ganlyniadau." (FODO)

"Gall y system bwyntiau greu cymhellion croes lle y mae cofrestreion yn blaenoriaethu gweithgareddau sy'n ennill y mwyaf o bwyntiau yn lle'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'w PDP, cwmpas ymarfer neu anghenion gwasanaeth. Er enghraifft, mae gweithgareddau sy'n denu mwy o bwyntiau'n aml yn cynhyrchu mwy o alw, beth bynnag yw eu perthnasedd ymarferol, tra bod dysgu mwy cynhwysfawr neu dymor hirach – fel cymwysterau ôl-gofrestru neu ddatblygiad arbenigol – yn gallu cael eu tanbrisio er eu manteision mwy i gymhwysedd a gofal cleifion...

Cefnogwn felly gasgliad yr ymgynghoriad fod system bwyntiau'n brocsi gwael am gymhwysedd a ddim yn ffordd ddibynadwy o ddangos bod cofrestreion yn cynnal a datblygu eu sgiliau mewn ffordd sydd o fudd i gleifion neu wasanaethau." (Darparwr CPD)

"Er bod dull seiliedig ar ganlyniadau i'w groesawu, ar hyn o bryd mae'r system bwyntiau'n darparu meincnod clir a chyson ar gyfer faint o CPD sy'n ddisgwyliedig. Byddai cael gwared arni'n llwyr yn creu risg o ddysgu amrywiol ac ansicrwydd ynghylch beth yw digon o ddysgu. Pe bai cael gwared ar system bwyntiau'n cael ei ystyried, mae'n debygol y byddai angen defnyddio mesur gwahanol, e.e. oriau dysgu. Pa bynnag fesur a ddefnyddir i fesur CPD, mae cyfyngiadau annatod iddo." (Darparwr addysg)

“Ni chytunaf y dylid cael gwared ar y system bwyntiau. Er nad yw efallai’n berffaith, mae’n darparu fframwaith clir a mesuradwy sy’n sicrhau bod cofrestreion yn cwblhau’r lefel leiaf o ddatblygiad proffesiynol sy’n angenrheidiol. Byddai cael gwared arni’n creu risg o anghysondeb o ran faint o CPD fyddai’n digwydd, ac efallai’n lleihau atebolrwydd.” (Optometrydd Rhagnodi Therapiwtig)

“Mae’r dystiolaeth bresennol yn adrodd y stori’n glir: mae cyfran helaeth o gofrestreion yn cwblhau’r rhan fwyaf o’u gweithgareddau CPD yn yr wythnosau cyn y terfyn amser. Nid methiant ar ran y system bwyntiau yw hyn ond arwydd nad yw’r proffesiwn eto wedi datblygu’r sgiliau hunan-asesu, hyder proffesiynol neu’r berthynas ddiwylliannol â CPD y byddai ei angen ar fframwaith llai strwythuredig.

Mae cael gwared ar y fframwaith cyn bo’r sylfaen honno yn ei lle’n creu risg o ddirywiad mesuradwy yn ansawdd ac ymgysylltu â CPD, gyda goblygiadau clir i ddiogelwch cleifion ac addasrwydd i ymarfer.” (Coleg yr Optometryddion)

Ymateb y GOC – Symud i ffwrdd o system bwyntiau

48. Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn rihyrsio llawer o’r dadleuon dros ac yn erbyn system bwyntiau a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori. Dywedodd y rhai o blaid symud i ffwrdd o bwyntiau ei fod yn hyrwyddo diwylliant o dicio bocsys sy’n sylfaenol groes i fod yn weithiwr gofal iechyd ymddiriedol ac yn creu cymhellion croes, ynghyd â manteision dull seiliedig ar ganlyniadau o ystyried y gwahanol yrfaoedd proffesiynol a chwmpasau ymarfer sy’n ehangu. Ar y llaw arall, pwysleisiodd rai oedd am gadw system bwyntiau fanteision eglurder a gwarantu bod pawb yn cwblhau’r lefel leiaf o CPD angenrheidiol.

49. Er bod yr ymatebion ar y cyfan yn eithaf cyfartal, roedd pump o’r chwe chorff sector a atebodd y cwestiwn hwn ac yn cynrychioli optegwyr cyflenwi, optometryddion a busnesau yn amodol gefnogol i symud i ffwrdd o system bwyntiau. Er bod Coleg yr Optometryddion yn anghytuno, roedd hyn yn rhannol ar y sail bod angen newid diwylliant yn gyntaf, gan amcangyfrif y gallai gymryd rhwng pum a saith mlynedd. Roedd y farn nad yw’r sector yn barod eto, ond y byddai’n uchelgais i’w ddymuno i’r dyfodol, yn thema mewn nifer o’r ymatebion.

50. Mae’r Llywodraeth wedi awgrymu na fydd newid yn neddfwriaeth y GOC yn digwydd yn y senedd bresennol. O gofio amseru’r cylchoedd CPD tair blynedd, bydd yn 2031 ar y cynharaf cyn y gallai’r system bwyntiau ddod i ben. Cytunwn fod angen newid diwylliant, mwy o hyder a datblygu sgiliau mewn dysgu hunangyfeiriedig. Erbyn 2031, bydd y system CPD bresennol wedi bod mewn grym am bron i ddegawd ac rydym yn ffyddiog, gydag ymdrech bwrpasol a chydweithrediad traws-sector, y gellir newid y diwylliant erbyn hynny.

51. Rydym yn cydnabod bod cefnogaeth i symud i ffwrdd o system bwyntiau'n amodol ar fod canllawiau a dulliau sicrwydd yn cael eu cyd-greu gyda chyrff sector. Ni chredwn fod cael gwared ar system bwyntiau'n golygu dewis naill ai rhwng system ddigyfyngiad a system wedi'i rhagnodi'n llym. Ond ni chredwn ychwaith y dylid disodli'r system bresennol gyda model wahanol o ragnodi gofynion a allai ailadrodd diffygion presennol a bod yn llai tryloyw.

52. Yr her yw taro'r cydbwysedd iawn sy'n achub ar bob cyfle i gofrestreion gael dylunio eu dull CPD ond gan gadw'r gofynion lleiaf sy'n angenrheidiol i warchod y cyhoedd. Mae'r rhannau nesaf yn ystyried adborth yr ymgynghoriad ar elfennau unigol o'r system CPD y byddwn yn eu trafod mewn cwestiynau nes ymlaen, a'n safiad ar bob un.

Cyflwyno canllawiau ar faint, meysydd a mathau o ddysgu yn lle gosod gofynion penodol (Cwestiwn 3)

C3 Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno canllawiau ar faint, meysydd a mathau o ddysgu yn lle gosod gofynion penodol?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Ydym	59.2%	55.3%	80.0%
Nac ydym	26.7%	29.5%	12.0%
Ddim yn siŵr	14.0%	15.1%	8.0%

53. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i symud i ffwrdd o ofynion penodol a thuag at gyflwyno canllawiau ar faint, meysydd a mathau o ddysgu. Pwysleisiodd ymatebwyr fod yn rhaid i ganllawiau fod yn glir a strwythuredig ac y dylid cadw rhai o'r disgwyliadau sylfaenol (fel dysgu rhyngweithiol a gan gymhariaid) i ddiogelu cysondeb, diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd.

54. Roedd y themau allweddol yn cynnwys:

- Mae bod yn eglur a phenodol yn hanfodol – ni ddylai canllawiau fod yn amwys a dylent gynnwys enghreifftiau ymarferol, meini prawf mesuradwy a disgrifiad clir o beth yw "digon o CPD" yn ymarferol.
- Disgwyliadau tystiolaeth ac archwilio – roedd galw am ganllawiau clir ar ba dystiolaeth fydd ei hangen ar gyfer archwilio / adolygu cofnodion, sut yr asesir cyflwyniadau a sut i gofnodi dysgu anffurfiol / yn y gweithle ac ymarfer myfyriol.
- Hyblygrwydd ond fel rhan o fframwaith – ystyrir bod dull ar sail canllawiau'n gallu adlewyrchu gwahanol gwmpasau ymarfer, rolau (clinigol, arweinyddiaeth, addysg) a gwasanaethau esblygol yn well, ond bod dal angen fframwaith dealladwy i osgoi ansawdd rhy amrywiol.
- Parhau i gysylltu i safonau a / neu feysydd dysgu ac ymarfer – roedd rhai ymatebion yn pwysleisio meysydd dysgu a / neu barhau i gysylltu i Safonau Ymarfer y GOC i gadw golwg ar gymhwysedd craidd ac atal gor-arbenigedd.
- Efallai bod angen disgwyliadau gofynnol – efallai na fyddai canllawiau'n unig yn ddigon i gynnal ymgysylltu neu gysondeb; mae rhai o blaid safonau

gofynnol, yn enwedig ar gyfer dysgu rhyngweithiol a dysgu drwy gynllun PDP.

55. Un pryder am ganllawiau'n ateb faint o CPD sydd ei angen oedd y gallai unrhyw faint / nifer dangosol o oriau ddod yn lleiafswm *de-facto* ac ail-greu diwylliant "ticio bocsys" neu gydymffurfio. Yn ei ymateb, dywedodd FODO y gallai disodli'r system bwyntiau gyda chanllawiau ar faint o CPD sydd ei angen greu risg o danseilio bwriad y GOC i weithredu model mwy seiliedig ar ganlyniadau. Dadleuai eraill fod angen disgwyliadau cliriach ar gofrestreion ar leiafswm gweithgareddau dros gylch CPD i gefnogi ymgysylltu'n gyson mewn gwahanol batrymau gweithio.

56. Roedd rhai awgrymiadau ymarferol ac amodau a gynigiwyd yn cynnwys:

- Rhoi enghreifftiau o weithgareddau a thystiolaeth dderbyniol (gan gynnwys dysgu anffurfiol a seiliedig ar weithle), a chyngor ymarferol ar fyfyrio a chofnodi portffolio.
- Peilota canllawiau a chynorthwyo asesu gan gymhariaid / hunan-asesu mewn amgylchedd "diogel i fethu" i leihau poeni am "wneud pethau'n anghywir".
- Cadw adolygu gan gymhariaid yn elfen graidd neu orfodol.
- Cydnabod ystod ehangach o weithgareddau gwerthfawr gan gynnwys addysgu eraill, cymryd rhan mewn prosiectau a phwyllgorau, addysg arweinyddiaeth (gan gynnwys profiad arweinyddiaeth anghlinigol perthnasol) a gwella gwasanaeth.
- Cydnabod, yn benodol, gwahanol amgylchiadau unigol a chanllawiau wedi eu teilwrio i gofrestreion ar seibiant (e.e. mamolaeth, gofal plant, salwch, sabothol), cofrestreion newydd yn ymuno ar ganol cylch CPD, staff rhan-amser a locwm a gyrfaoedd portffolio).

57. Roedd rhai'n awyddus i'r GOC ddatblygu a chywreinio'r canllawiau mewn partneriaeth â chyrff proffesiynol, cyflogwyr a darparwyr CPD.

58. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Credwn y bydd cynnwys rhai gofynion penodol yn creu cynllun CPD mwy trylwyr sy'n addas i bwrpas ac yn cefnogi rôl y GOC mewn gwarchod cleifion. Mae dal angen darparu fframwaith ar gyfer y cynllun i sicrhau bod cofrestreion yn addas i ymarfer yn eu proffesiynol, beth bynnag yw eu hamgylchiadau gweithio. Mae gan y rhan fwyaf o brif reoleiddwyr gofal iechyd eraill y DU strwythur gyda gofynion penodol, i raddau amrywiol.

Mae'r drefn bresennol o gysylltu canlyniadau dysgu CPD i Safonau Ymarfer y GOC ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi ('y Safonau Ymarfer') a'r Meysydd Dysgu, yn darparu fframwaith rhesymegol sy'n helpu cofrestreion i ddeall ydy'r dysgu y maen nhw wrthi neu'n ystyried ei gyflawni'n berthnasol i'w cofrestriad proffesiynol gyda'r GOC. Awgrymwn barhau i gysylltu'r 'meysydd

dysgu' i'r Safonau Ymarfer i gynorthwyo cofrestreion i ganolbwyntio eu dysgu, hyd yn oed os yw'r meysydd dysgu'n cael eu hail-ddylunio." (ABDO)

"Mae'r GOC wedi cyflwyno ei resymeg dros symud i ffwrdd o system bwyntiau sy'n gosod gofynion ar sail faint o ddysgu a'r math o ddysgu sy'n rhaid ei gwblhau. Gallai disodli hyn gyda chanllawiau ar faint o CPD sydd ei angen greu risg o danseilio bwriad y GOC i weithredu model mwy seiliedig ar ganlyniadau. Hyd yn oed drwy ganllawiau ac nid fel gofynion gorfodol, byddai canllawiau o'r fath ar faint o CPD sydd ei angen yn debygol o ddod yn lleiafswm diofyn gan danseilio'r newid diwylliant y mae'r GOC yn awyddus i'w gefnogi." (FODO)

"Rhaid i ganllawiau fod yn benodol a mesuradwy gan restru / disgrifio meini prawf clir a chyflawn y byddai cofrestreion yn cael eu hasesu yn eu herbyn a beth fyddai digon / dim digon. I wneud hyn rhaid peilota'r canllawiau'n agored fel y gall y nifer fwyaf o gofrestreion gymryd rhan mewn asesu gan gymhariaid / hunan-asesu ar sail "diogel i fethu". Mae'r rhwystrau presennol i ddysgu hunangyfeiriedig yn deillio nid o gyfyngiadau'r GOC ond ofni "ei wneud yn anghywir" (Coleg yr Optometryddion)

Ymateb y GOC - Cyflwyno canllawiau ar faint, meysydd a mathau o ddysgu yn lle gosod gofynion penodol

59. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i gyflwyno canllawiau ar faint, meysydd a mathau o ddysgu yn lle gosod gofynion penodol.

60. Un thema a gododd yn y digwyddiadau ymgynghori a hefyd yn yr ymatebion ysgrifenedig, oedd na ddylai hyblygrwydd ddod ar draul eglurder a bod angen disgwyliadau a chanllawiau clir ar gofrestreion, a fframwaith gweladwy. Felly heb unrhyw system bwyntiau, bydd canllawiau'n bwysig iawn. Un pwrpas canllawiau o'r fath fyddai egluro beth fydd y GOC yn chwilio amdano wrth adolygu cofnodion CPD a'r amgylchiadau a allai arwain at dynnu enw o'r gofrestr. Gall canllawiau hefyd gefnogi cofrestreion drwy awgrymu normau, nodi ymarfer da a darparu adnoddau ymarferol fel templedi.

61. Deallwn pam y byddai'n well gan rai rhanddeiliaid i ni gadw rhai gofynion penodol fel adolygu gan gymhariaid. Ystyriwn fod adolygu gan gymhariaid yn bwysig ac rydym eisiau annog defnydd parhaus o hyn a mathau eraill o ddysgu. Fodd bynnag, y realiti o orfodi gofynion penodol yw'r canlyniadau difrifol i'r cofrestrai os nad ydynt yn cael eu cwrdd. O dan y system bresennol, os yw cofrestrai'n ennill y pwyntiau sy'n ofynnol ond ddim yn cwrdd ag un gofyniad gorfodol fel adolygu gan gymhariaid, gallent golli eu cofrestriad. Rydym eisiau symud o ddiwylliant CPD sy'n cosbi i un cefnogol. Byddai cefnu ar system bwyntiau ond eto dileu cofrestriad am fethu â chyflawni mathau penodol o ddysgu efallai'n anghyson, anghymesur a ddim yn seiliedig ar ganlyniadau.

62. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw datrys cwestiynau blaenoriaeth fel cadw'r system bwyntiau neu beidio, a'i disodli gyda chanllawiau. Fel y nodir o dan Gwestiwn 2, bwriadwn gyd-greu canllawiau gyda chyrff sector. Mae gan gyrff sector hefyd rôl bwysig mewn cefnogi cofrestreion yn uniongyrchol drwy ddatblygu eu hadnoddau eu hunain, fel y gwneir ganddynt yn barod.

Canllawiau'n nodi y dylai cofrestreion gwblhau digon o CPD (neu eiriau i'r perwyl) neu ddarparu lleiafswm tybiannol o weithgaredd a fyddai'n berthnasol i'r rhan fwyaf o gofrestreion, e.e. nifer oriau (Cwestiwn 4)

C4 [A ddylai canllawiau nodi y dylai cofrestreion gwblhau digon o CPD (neu eiriau i'r perwyl) neu ddarparu lleiafswm tybiannol o weithgaredd a fyddai'n berthnasol i'r rhan fwyaf o gofrestreion, e.e. nifer oriau?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Digon o CPD	34.6%	34.3%	36.0%
Lleiafswm tybiannol	27.2%	28.5%	20.0%
Y ddau	25.9%	24.1%	36.0%
Yr un o'r ddau	6.2%	6.6%	4.0%
Ddim yn siŵr	6.2%	6.6%	4.0%

63. Unwaith eto, dangosodd yr ymatebion densiwn rhwng bod eisiau hyblygrwydd i osgoi diwylliant ticio bocsys, a darparu eglurder, sicrwydd a chysondeb. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni bod y cysyniad o "digon o CPD" yn rhy amwys ac agored i ddehongliad, gan arwain at anghysondeb ac annhegwch o bosib. Roedd eraill yn beirniadu defnyddio mesurau amser gan ddadlau bod pobl yn dysgu ar wahanol gyflymdra ac nad yw oriau o reidrwydd yn adlewyrchu dysgu na chymhwysedd. Tynnodd ymatebion sylw at bryderon am effaith lleiafswm oriau ar rai gyda chyfrifoldebau gofalu, gweithwyr rhan-amser neu rai ar wyliau / absenoldeb. Cyfeiriodd rai at drafferthion ymarferol rheoleiddio neu gofnodi oriau, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau wedi eu hunan-drefnu.

64. Mae rhai sydd o blaid "digon o CPD" eisiau canllawiau cryf, ymarferol yn disgrifio sut i ddangos digonolrwydd, ynghyd â meini prawf clir, gydag enghreifftiau o bortffolios derbyniol, disgwyliadau o ran ymgysylltu'n rheolaidd ar draws y cylch, a chysylltiadau penodol i gwmpas ymarfer, PDP, myfyrio a chanlyniadau / effaith. Teimlent fod mesurau maint yn brocsi gwael am gymhwysedd.

65. Roedd rhai o blaid "lleiafswm tybiannol" (oriau / meincnod) eisiau CPD sylfaenol i sicrhau bod pawb yn gwneud peth CPD, i gefnogi tegwch a lleihau adolygiadau goddrychol; gan awgrymu oriau dangosol wedi eu cysylltu i'r gwerthoedd pwyntiau presennol ynghyd â disgwyliadau gofynnol ar gyfer dysgu rhyngweithiol a chynllunio / myfyrio parhaus.

66. Roedd y rhai o blaid dull hybrid (e.e. “y ddau”) am weld egwyddor drosfwaol seiliedig ar ganlyniadau ynghyd â meincnodi dangosol neu ystodau ar gyfer canllawiau. Byddai hyn yn helpu cofrestrai i hunan-asesu a chefnogi cyflogwyr ac adolygwyr, gan osgoi diffyg hyblygrwydd. Er enghraifft, roedd Cymdeithas yr Optometryddion o blaid canllawiau sy’n cyflwyno ystod ddangosol glir neu lefel weithgaredd i’r rhan fwyaf o gofrestreion, ynghyd â disgwyliadau ar gyfer myfyrio.

67. Ar draws yr ymatebion, roedd galw am ganllawiau ymarferol ar sail enghreifftiau a pharod ar gyfer archwilio. O ddefnyddio meincnod dangosol, pwysleisiodd ymatebwyr fod angen geirio gofalus (e.e. ystod neu enghreifftiau dangosol yn lle un ffigur) i osgoi diwylliant o gwrdd â thargedau ond eto’n cefnogi cysondeb, tegwch a rhoi sicrwydd i’r cyhoedd.

68. Rhoddir sampl o’r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

“Ni chredwn ei bod yn ddigon i ganllawiau nodi dim ond y dylai cofrestreion gwblhau “digon” o CPD, oherwydd gallai hyn gynyddu pryderon am archwiliadau posib a chael ei ddehongli’n anghyson ar draws y sector. Roedd trafodaeth draws-sector am y cynigion hyn wedi pwysleisio, er bod cefnogaeth i symud i ffwrdd o system bwyntiau, er hynny bod dal angen i bawb ddeall beth fyddai lefel ddisgwyliedig o ymgysylltu â CPD.

Yn lle rhagnodi lleiafswm oriau penodol, byddem o blaid canllawiau sy’n cyflwyno ystod neu lefel weithgaredd glir a dangosol i’r rhan fwyaf o gofrestreion, ynghyd â disgwyliadau o ran myfyrio, perthnasedd i gwmpas ymarfer ac effaith y dysgu; byddai hyn yn rhoi eglurder a chysondeb gwell heb ail-greu dull anhyblyg, seiliedig ar bwyntiau.” (Cymdeithas yr Optometryddion)

“Mae’r cysyniad o ‘digon o CPD’ yn rhy amwys ac agored i ddehongliad. Heb ddisgwyliadau sylfaenol wedi eu diffinio, gallai cofrestreion ddehongli’r gofyniad yn dra gwahanol gan arwain at ddatblygiad proffesiynol sy’n amrywio’n sylweddol. Byddai lleiafswm tybiannol o CPD yn rhoi eglurder a chysondeb ond eto’n dal i ganiatáu hyblygrwydd i gofrestreion o ran dewis gweithgareddau perthnasol i’w hymarfer.” (Optometrydd Rhagnodi Therapiwtig)

“Teimlwn yn gryf y dylai’r GOC fynnu ar leiafswm tybiannol o CPD ar gyfer cofrestreion, i’w gyflawni o fewn amser penodol (e.e. yn flynyddol). Credwn y dylid rhagnodi hyn naill ai ar ffurf lleiafswm oriau neu drwy osod disgwyliadau o weithgareddau rheolaidd, a chynnwys lleiafswm gofynnol o ddysgu gydag eraill / CPD rhyngweithiol. Dylai hyn hefyd barhau i gynnwys adolygiad gorfodol gan gymhariaid a chynnwys gofyniad bod PDP yn cael ei gynnal a hefyd ar gyfer myfyrio.” (ABDO)

“Pryderwn y byddai cyflwyno lleiafswm tybiannol ar gyfer pob gweithgaredd CPD, hyd yn oed o’i ddisgrifio’n ddangosol, yn wrthgynhyrchiol. Fel y noda’r ymgynghoriad yn glir, mae meincnodau o’r fath yn debygol o gael eu dehongli fel lleiafswm de facto, gan ail-greu diwylliant seiliedig ar gydymffurfio a thanseilio symud tuag at y crebwyll proffesiynol ac atebolrwydd y mae’r GOC yn ceisio ei hyrwyddo. Mae hyn yn creu risg bod cofrestreion unwaith eto’n canolbwyntio ar gwrdd â tharged rhifol yn lle cyflawni’r dysgu mwyaf perthnasol i’w rôl, cwmpas ymarfer ac anghenion datblygu.” (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – Canllawiau’n nodi y dylai cofrestreion gwblhau digon o CPD (neu eiriau i’r perwyl) neu ddarparu lleiafswm tybiannol o weithgaredd a fyddai’n berthnasol i’r rhan fwyaf o gofrestreion, e.e. nifer oriau

69. Dangosodd yr atebion i’r cwestiwn hwn yr un tensiwn a fynegwyd mewn cwestiynau blaenorol, o ran cydbwyso hyblygrwydd a rhagnodi gofynion. Gan hynny, mae ein hymateb yn gyson â’n safiad ar gwestiynau blaenorol.

70. Ni welwn unrhyw werth mewn disodli system seiliedig ar leiafswm pwyntiau gofynnol ag un gyda lleiafswm oriau gofynnol. Noda rhanddeiliaid yn glir y byddai hyn yn ail-greu problemau’r system bresennol a gallai system ar sail oriau gyflwyno risgiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant pellach.

71. Fel y dywedwn uchod, gall canllawiau gefnogi cofrestreion drwy awgrymu normau, nodi ymarfer da a darparu adnoddau ymarferol fel templedi. Gwelwn haeddiant posib yn awgrym yr AOP y dylai canllawiau gynnwys ystod neu lefel weithgaredd ddangosol i’r rhan fwyaf o gofrestreion gan roi gwell eglurder a chysondeb a heb ail-greu system bwyntiau ddiwyro. Fodd bynnag, byddai ystodau dangosol, wrth natur, yn ganllaw ac nid yn ofynion gofynnol. Bydd y canllawiau hefyd yn egluro beth fydd y GOC yn chwilio amdano wrth adolygu cofnodion CPD a’r amgylchiadau a allai arwain at dynnu enw o’r gofrestr.

Ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion wneud cynllun datblygu personol (PDP) a myfyrio ar gynnydd fel rhan o arfarnu a dulliau tebyg (Cwestiwn 5)

C5 A ddylid ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion wneud cynllun datblygu personol a myfyrio ar gynnydd fel rhan o arfarnu a dulliau tebyg?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	31.9%	27.7%	53.8%
Na ddylid	52.8%	58.4%	23.1%
Ddim yn siŵr	15.3%	13.9%	23.1%

72. Awgryma’r data wahanol ymatebion gan unigolion a sefydliadau felly mae’r ffaith bod ein polisi ymgynghori’n rhoi mwy o bwysau i gyrff sector yn berthnasol yma.

73. Os oedd rhai wedi ateb “na ddylid” i’r cwestiwn hwn, roeddent o blaid bod angen cynlluniau PDP a myfyrio mewn egwyddor ond yn bryderus am gysylltu hyn i arfarnu oherwydd pryderon ehangach am rôl cyflogwyr. Disgrifir y pryderon ehangach hyn o dan Gwestiynau 14-17 ond, yn fyr, roeddent yn cynnwys diffyg mynediad at arfarniadau i rai cofrestreion a risgiau’n ymwneud â dylanwad masnachol diangen ar ddysgu a datblygiad cofrestreion.

74. Awgrymodd lawer o’r ymatebwyr fod cynlluniau PDP yn anhyblyg ac yn cymryd amser ac yn aml yn troi’n ymarfer “ticio neu lenwi bocsys” heb fawr ddim gwerth ymarferol. Yn hytrach, teimlent y dylid ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol i reoli eu dysgu eu hunain heb PDP gorfodol. Roedd pryder nad yw cynlluniau PDP a datganiadau myfyrio’n gynhwysol o bob math o ddysgu ac efallai’n anfantais i rai sy’n cael trafferth gyda myfyrdod ysgrifenedig neu hunan-arfarnu, gan gynnwys cofrestreion niwro-amrywiol. Teimlai rai fod cynlluniau PDP yn fwy defnyddiol i rai ar ddechrau eu gyrfa ond y dylent fod yn ddewisol i ymarferwyr profiadol.

75. Roedd y rhai a welodd werth mewn cynlluniau PDP ac ymarfer myfyrio’n dadlau eu bod yn annog CPD a meddwl beirniadol pwrpasol a pherthnasol. Awgrymodd rai welliannau fel canllawiau cliriach, templedi neu wneud y broses yn haws ar lwyfan MyCPD y GOC.

76. Ar y cyfan, themâu cyffredin oedd bod angen mwy o hyblygrwydd, symleiddio ac ymddiried mewn gweithwyr i hunan-gyfeirio eu dysgu, gyda llawer yn cwestiynu pa mor effeithiol ac ymarferol oedd cynlluniau PDP gorfodol yn eu ffurf bresennol.

77. Rhoddir sampl o’r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

“Cytunwn â’r egwyddor y dylai cofrestreion unigol, drwy Gynllun Datblygu Personol (PDP) neu ddull tebyg, adnabod eu hanghenion dysgu eu hunain, sut y byddant yn ceisio cwrdd â’r anghenion hynny a’u hadolygu o bryd i’w gilydd.

Fodd bynnag, mae geiriad y cwestiwn hwn yn drysu rhwng cyfrifoldeb gweithiwr proffesiynol rheoledig i gyflawni CPD sy’n cwrdd ag anghenion yr unigolyn, â rôl cyflogwyr mewn goruchwylio perfformiad a chefnogi datblygiad eu staff, drwy ddulliau fel arfarnu.

Mae’n bwysig bod y system CPD yn cefnogi cofrestreion unigol i wneud mwy na’r PDP neu gyfwerth a gytunwyd â’u cyflogwr, gan gydnabod y bydd peth o’u CPD yn rhan o’u datblygiad personol a phroffesiynol – er enghraifft cefnogi eu dyheadau gyrfa y tu allan i’w cyflogwr yn y dyfodol.

Ychwaith ni fydd gan weithwyr locwm ac unig berchennog busnes optegol fynediad at PDP cyflogaeth neu arfarniad. Mae’n bwysig bod dull y GOC yn

cynnwys pob cofrestrai, gan gynnwys rhai mewn rolau locwm a rhai gyda gyrfaoedd portffolio." (FODO)

"Cytunwn y dylai cynllun datblygu personol a myfyrio ar gynnydd fod yn rhan bwysig o system CPD seiliedig ar ganlyniadau. Roedd trafodaeth traws-sector yn gryf o blaid ymarfer myfyrio fel rhan hanfodol o ddysgu ystyrlon ac i gysylltu CPD i welliannau mewn ymarfer.

Ystyriwn hefyd y gallai ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion gynnal cynllun datblygu personol a myfyrio ar gynnydd fod yn werthfawr." (Cymdeithas yr Optometryddion)

"Mae disgwyl i bob cofrestrai gynhyrchu PDP o ansawdd uchel yn annibynnol yn creu risg y gallai ansawdd, trylwyredd a defnyddioldeb y dogfennau hyn amrywio'n sylweddol.

Argymhellwn felly os yw cynlluniau PDP i aros yn orfodol, y dylai'r GOC:
• Darparu templed PDP safonedig, canllawiau ac enghreifftiau a fyddai ar gael i bob cofrestrai.
• Cynnig cyfeiriad clir i gofrestreion heb gyflogwr, gan sicrhau nad oes anfantais iddynt o'i gymharu â rhai a gefnogir gan dimau llywodraethu corfforaethol.
• Ystyried dull "ymarfer gorau" yn hytrach na "gorfodol" i gyflogwyr gan gydnabod bod gan sefydliadau lluosog, annibynnol a darparwyr wahanol gapasiti." (Darparwr CPD)

"Gallai gofyniad wedi'i gysylltu'n rhy agos i systemau arfarnu dan arweiniad cyflogwr greu risg o anghysondeb ac efallai bod o anfantais i rai gweithwyr.

Cefnogwn felly ddull:
• lle y byddai angen i gofrestreion gyflawni cynllun datblygu a myfyrio
• y gellid ei gyflawni drwy ystod o wahanol ddulliau, nid arfarnu ffurfiol yn unig

• lle y byddai'r pwyslais ar ymgysylltu ystyrlon yn hytrach na fformat wedi'i ragnodi

Mae hefyd yn bwysig i ddisgwyliadau aros yn gymesur a heb gyflwyno baich gweinyddol diangen. Dylai cynllunio datblygiad a myfyrio gefnogi ymarfer proffesiynol yn lle troi'n ymarfer cydymffurfio." (Optometry Scotland)

Ymateb y GOC – Ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion wneud cynllun datblygu personol (PDP) a myfyrio ar gynnydd fel rhan o arfarnu a dulliau tebyg

78. Mae cynllunio a myfyrio'n elfennau hanfodol o'r system bresennol, a ystyriwn i fod yn gamau hanfodol i gynnal safonau. Pe bai'r system bwyntiau'n dod i ben,

byddai cadw dulliau ar gyfer cynllunio a myfyrio'n rhoi sicrwydd pwysig bod cofrestreion yn ymgysylltu'n ystyrlon â CPD. Byddwn felly'n cadw'r gofyniad bod cofrestreion yn gwneud PDP.

79. Cyflwynwyd templed PDP safonedig ar ddechrau cylch 2025-27. Bwriadwn adeiladu ar y dull hwn, wedi'i gefnogi gan ganllawiau ymarferol.

80. Gwerthfawrogwn na fydd gan bob cofrestrai fynediad at arfarnu felly bydd y canllawiau'n cynnwys amrywiol ffyrdd o ddangos myfyrio, er enghraifft ar ran o'r templed PDP. Cytunwn fod sgôp i ddatblygu dull ymarfer gorau'n hytrach na gorfodol ar gyfer cyflogwyr, gan gydnabod bod gan sefydliadau lluosog, annibynnol a darparwyr wahanol gapasiti.

Gofyniad bod cofrestreion yn gwneud datganiad blynyddol, wrth adnewyddu eu cofrestriad, eu bod wedi cyflawni digon o ddysgu i gynnal eu cymhwysedd ac wedi cadw cofnodion digonol i bwrpas adolygu (Cwestiwn 6)

C6 A ddylid cynnwys gofyniad bod cofrestreion yn gwneud datganiad blynyddol, wrth adnewyddu eu cofrestriad, eu bod wedi cyflawni digon o ddysgu i gynnal eu cymhwysedd a chadw cofnodion digonol i bwrpas adolygu?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	68.5%	64.7%	88.5%
Na ddylid	21.0%	22.8%	11.5%
Ddim yn siŵr	10.5%	12.5%	0.0%

81. Roedd rhai'n gweld y datganiad fel ffordd gymesur a fyddai'n atgyfnerthu atebolrwydd proffesiynol ar yr amod ei fod wedi'i ategu gan ganllawiau clir a systemau archwilio credadwy. Roedd y manteision a ddisgrifiwyd yn cynnwys hyrwyddo dysgu parhaus drwy ysgogi'n rheolaidd i fyfyrio ar ddysgu, atgyfnerthu cyfrifoldeb personol a phroffesiynoldeb, cadw cymwyseddau'n gyfredol a dangos tystiolaeth ohonynt, cefnogi dull 'anffurfiol' drwy osgoi gor-ragnodi gofynion, a chysoni â dulliau a ddefnyddir gan rai rheoleiddwyr eraill.

82. Un pryder a gododd droeon oedd diffyg eglurder ynghylch beth yw "digon o ddysgu" neu gymhwysedd, gan alw am ddiffiniadau cliriach a chanllawiau i osgoi dehongli anghyson. Awgrymodd rai y dylid darparu templedi neu ddulliau penodol o gadw cofnodion.

83. Dywedodd leiafrif o'r ymatebion nad oedd i blaid y cynnig y gallai droi'n ymarfer "ticio bocsys" diystyr neu or-ffurfiol, yn enwedig heb oruchwyliaeth neu feini prawf gwrthrychol. Roedd rhai o blaid parhau neu fwy o archwilio a goruchwyliaeth i sicrhau gonestrwydd a chydymffurfio.

84. Dywedodd rai ymatebwyr y gallai cofrestreion wneud datganiad ffug yn anfwriadol os nad oedd y gofynion yn glir. Awgrymwyd y gallai mesurau lliniaru gyfeirio'n benodol at safonau proffesiynol perthnasol a pha mor ddifrifol fyddai gwneud datganiadau anonest, i gryfhau atal a dealltwriaeth.

85. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Mae'r cynnig yn atgyfnerthu cyfrifoldeb cofrestreion unigol i gyflawni CPD i gynnal a datblygu eu cymhwysedd a gallu dangos tystiolaeth o hyn pe byddent yn cael eu gwahodd i gyfranogi mewn adolygiad o gofnodion CPD.

Mae'r cynnig yn gyson â'r dull a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill sy'n gwneud datganiad yn ofynnol ac yna'n archwilio hap-sampl o gofrestreion ar gyfnodau penodedig i ddangos eu bod yn cydymffurfio." (FODO)

"Mae'r dull hwn yn hyrwyddo cyfrifoldeb proffesiynol a lleihau baich gweinyddol. Fodd bynnag, rhaid ei gefnogi gan ddiffiniadau clir a chanllawiau cadarn i osgoi anghysondeb. Hefyd, fel y trafodwyd yn flaenorol, heb feincnodi mae risg y gallai ymgysylltu ac ansawdd y dysgu amrywio'n sylweddol." (Darparwr Addysg)

"Mae'r gofyniad arfaethedig bod cofrestreion yn cadw eu cofnodion dysgu eu hunain, a ddylai fod ar gael i'w hadolygu ar gais, yn gam cadarnhaol mewn lleihau'r baich gweinyddol. Mae datganiad blynyddol wrth adnewyddu cofrestriad yn dangos cydymffurfio ac ymddiriedaeth.

Er bod y cynigion yn awgrymu model datganiad blynyddol wedi'i gefnogi gan archwiliadau sampl, nid yw'n glir a fyddai busnesau hefyd yn rhannu ymrwymiad i gydymffurfio neu'r canlyniadau yn yr achosion hyn. Mae'r diffyg eglurder yma'n creu risg o ansicrwydd i gyflogwyr am eu cyfrifoldebau a rhwymedigaethau posib o dan y diwygiadau arfaethedig." (Optometreg Cymru)

"Nid yw'n ddigon gwneud datganiad pan fydd optometryddion eisoes yn dweud eu bod yn cydymffurfio â'r safonau wrth wneud eu cais. Dylai'r ffocws fod ar gadw'r system yn onest a chadarn – byddai archwilio hap-samplau'n annigonol i'r perwyl hwn.

Teimlwn y dylid cyflawni archwiliadau ffocws ar sail canlyniadau gan adolygiadau cymhariaid (dienw).

Rhaid i'r GOC fod yn glir iawn ynghylch beth yw "digon o ddysgu" i gofrestreion sy'n dweud eu bod yn cwrdd â'r disgwyliadau, a diffinio beth yw'r disgwyliadau hynny. Bydd hefyd angen cael dull yn ei le ar gyfer rhai sy'n adrodd eu bod yn cydymffurfio ond ddim yn cwrdd â'r gofynion oherwydd gellid ystyried eu bod yn dweud celwydd sy'n sefyllfa FtP ddifrifol iawn." (Coleg yr Optometryddion)

Ymateb y GOC – Cynnwys gofyniad bod cofrestreion yn gwneud datganiad blynyddol, wrth adnewyddu eu cofrestriad, eu bod wedi cyflawni digon o ddysgu i gynnal eu cymhwysedd a chadw cofnodion digonol i bwrpas adolygu?

86. Roeddem yn falch o weld cefnogaeth gref i'r cynnig hwn a byddwn yn symud ymlaen ar sail hyn. Bydd y datganiad yn ychwanegol at ddulliau sicrwydd eraill gan gynnwys adolygu cofnodion CPD. Bydd geiriad y datganiad yn adlewyrchu penderfyniadau eraill am y cynllun CPD ac yn cael ei ddatblygu nes ymlaen.

87. I ateb y cwestiwn gan Optometreg Cymru, mae'r datganiad yn gyfrifoldeb y cofrestrai unigol ac ni fyddai unrhyw oblygiadau i fusnesau.

Ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion gadw cofnodion o'u CPD ar systemau TG y GOC neu gadw eu cofnodion eu hunain (Cwestiwn 7)

C7 A ddylid ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion gadw cofnodion o'u CPD ar systemau TG y GOC neu gael y dewis o gadw eu cofnodion eu hunain?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Systemau'r GOC	52.2%	55.5%	33.3%
Dewis systemau'r GOC neu gofnodion eu hunain	38.5%	34.3%	62.5%
Cofnodion eu hunain yn unig	9.3%	10.2%	4.2%

88. Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid system ganolog i gofnodi CPD, yn defnyddio llwyfan y GOC ei hun, gan gyfeirio at gysondeb, tryloywder, hwylustod archwilio a goruchwyliaeth reoleiddio fel manteision pwysig. Soniodd rai fod dull canolog yn haws ac yn lleihau'r risg o golli cofnodion gan sicrhau bod pawb yn dilyn yr un broses. Fodd bynnag, dywedodd rai nad yw system bresennol y GOC yn un hwylus ac y gellid ei gwella ac roedd rhai'n galw am dempledi neu welliannau i wneud y broses yn haws.

89. Roedd cefnogaeth hefyd i roi dewis i gofrestreion gofnodi eu CPD ar system y GOC, llwyfan cyflogwr / corff proffesiynol, neu gadw eu cofnodion eu hunain, ar yr amod bod y cofnodion yn ddigon trylwyr i'w harchwilio. Roedd osgoi dyblygu diangen yn thema arall a gododd os oedd cofrestreion eisoes yn defnyddio systemau sefydledig (e.e. llwyfannau dysgu'r gweithle) a lleihau'r baich gweinyddol a allai danseilio ymgysylltu.

90. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

Un o'r gofynion allweddol ddylai fod cofnodion yn ddigon trylwyr i gael eu harchwilio ac yn dangos myfyrio a chanlyniadau dysgu, yn lle rhagnodi ym mha system y dylid eu cadw." (Cymdeithas yr Optometryddion)

"Gallai gadael i gofrestreion ddewis pa system i gofnodi eu CPD hwyluso hyblygrwydd ac, i rai cofrestreion, gallai leihau'r baich gweinyddol. Fodd bynnag, os nad oes gan gofrestreion fynediad at feddalwedd neu lwyfan cymeradwy arall, er enghraifft gweithwyr locwm neu rai sy'n gweithio mewn busnesau bach, dylid cadw system TG y GOC i sicrhau mynediad teg. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw mwy o hyblygrwydd yn creu anfantais, yn anfwriadol, i rai grwpiau o gofrestreion." (Optometreg Cymru)

"Byddai cadw cofnodion mewn system GOC ganolog yn sicrhau cysondeb, trylowyder ac yn hwyluso adolygiadau. Gallai gadael i gofrestreion gadw eu cofnodion eu hunain arwain at gofnodion o ansawdd amrywiol a gwneud y broses adolygu'n fwy cymhleth a llai dibynadwy. Mae system ganolog hefyd yn cefnogi goruchwyliaeth reoleiddio a helpu i sicrhau y cedwir cofnodion mewn fformat cyson." (Optometrydd Rhagnodi Therapiwtig)

"Teimlwn y dylai cofrestreion gadw eu cofnodion CPD eu hunain yn lle gorfod cofnodi eu CPD ar systemau'r GOC. Mae hyn yn cyd-fynd yn well â symud tuag at annog cofrestreion i gynllunio, myfyrio a dangos tystiolaeth o'u CPD fel gweithiwr gofal iechyd rheoledig.

Mae rhai cofrestreion eisoes yn defnyddio systemau dysgu eu cyflogwr, ac yn enwedig bydd rhai sydd â chymwysterau ychwanegol wedi arfer â chadw eu cofnodion eu hunain. Byddai ei gwneud yn ofynnol iddynt hefyd gadw neu ddyblygu cofnodion ar gyfer y GOC yn ychwanegu cymhlethdod diangen a rhoi mwy o faich ar gofrestreion." (Darparwr CPD)

"Credwn y dylai cofrestreion fod yn gallu dewis defnyddio systemau GOC, systemau trydydd parti (e.e. llwyfannau cyrff proffesiynol) neu gadw eu cofnodion CPD eu hunain; byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd priodol fel rhan o fodel CPD seiliedig ar ganlyniadau ac yn adlewyrchu amrywiaeth y trefniadau gweithio ar draws y sector, gan gynnwys rhai sydd eisoes yn defnyddio system eu cyflogwr neu gorff proffesiynol.

Gallai system GOC chwarae rôl bwysig fel llwyfan diofyn neu ddewisol, yn enwedig i gofrestreion heb fynediad at ddulliau eraill. Fodd bynnag, gallai ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion ddefnyddio un system yn unig greu baich gweinyddol a dyblygu diangen a allai leihau ymgysylltu. (Cymdeithas yr Optometryddion)

Ymateb y GOC – Ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion gadw cofnodion CPD ar systemau TG y GOC neu gael y dewis o gadw eu cofnodion eu hunain

91. Mae llawer o gymhlethdod a baich y system bresennol yn cael ei greu gan yr angen i gofnodi CPD er mwyn cael y cyfanswm pwyntiau sy'n ofynnol. Byddai cael gwared ar y system bwyntiau'n golygu cyfres symlach o ofynion TG, a'r unig brif bwrpas ar ôl i'r GOC fyddai hwyluso adolygu cofnodion CPD.

92. Nid oedd consensws clir ar hyn, gyda'r ymatebion yn cyflwyno manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau'n dda. Mae defnyddio system GOC yn lleihau'r baich ar gofrestreion a ddewisir am adolygiad cofnodion drwy fod yn seiliedig ar log o'u cofnodion a heb fod angen iddynt wneud dim. Mae manteision hefyd o ran cysondeb ac atgyfnerthu ymgysylltu â CPD. Fel arall, rydym yn cydnabod manteision dull mwy hyblyg lle y byddai ond angen i gofrestreion rannu eu cofnodion CPD pe byddent yn cael eu dewis am adolygiad.

93. Yn y tymor canolig, rhagwelwn symud tuag at un llwyfan TG integredig fydd yn cwrdd â'r holl ofynion cofrestru a CPD. Bydd y dull TG gorau'n dibynnu ar ofynion y cynllun CPD terfynol, felly dychwelwn at y mater hwn unwaith y byddwn yn gwybod hyn a chynlluniau gweithredu wedi eu datblygu'n fwy manwl.

Y GOC i adolygu sampl o gofnodion CPD ar ôl adnewyddu cofrestriad blynyddol (Cwestiwn 8)

C8 A ddylai'r GOC adolygu sampl o gofnodion CPD ar ôl adnewyddu cofrestriad blynyddol?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylai	60.1%	56.9%	76.9%
Na ddylai	23.3%	26.3%	7.7%
Ddim yn siŵr	16.6%	16.8%	15.3%

94. Pwysleisiodd lawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd rhyw fath o adolygiad neu archwiliad o gofnodion CPD i sicrhau cydymffurfio a chynnal safonau proffesiynol. Awgrymodd nifer y dylai adolygiadau fod yn rheolaidd ond nid o reidrwydd yn flynyddol neu i bawb; yn hytrach roeddent o blaid dull samplo neu "ar sail risg" i osgoi baich gweinyddol rhy drwm.

95. Thema gyson oedd bod angen canllawiau clir rhag blaen ar ddisgwyliadau CPD i osgoi beirniadaeth wedyn a sicrhau tegwch. Pwysleisiodd lawer y dylid dylunio'r broses i hyrwyddo dysgu a gwella, yn hytrach na theimlo ei bod yn cosbi. Roedd peth cefnogaeth hefyd i gyfuno hap-samplo gydag adolygiadau targed os oes risgiau hysbys neu bryderon blaenorol am ddiffyg cydymffurfio.

96. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

“Credwn y dylai hyn fod yn orfodol i archwilio unrhyw system o ansawdd. Rhaid i’r GOC ddangos tystiolaeth o ansawdd eu systemau fel y gellir targedu gwelliannau ar sail data cadarn.

Er yn cydnabod y bydd archwilio ond yn bosib drwy samplo, gall atebolrwydd fod yn amrywiol iawn o ganlyniad gyda rhai’n gor-wneud pethau gan ofni peidio â chydymffurfio ac eraill yn gobeithio y byddant yn “llithro drwy’r rhwyd”. (Coleg yr Optometryddion)

“Teimlwn y dylai’r GOC fel gweinyddwr y cynllun, er mwyn sicrhau bod cofrestreion yn cydymffurfio â’r gofyniad bod gweithwyr gofal iechyd cofrestredig yn cwblhau dysgu gydol oes priodol ac effeithiol, adolygu hap-sampl o gofnodion CPD yn dilyn adnewyddu cofrestriad blynyddol. Gallai hefyd fod yn briodol cael rhai adolygiadau targed yn seiliedig ar ddiffyg cydymffurfio’n flaenorol neu bryderon am gwblhau’r cynllun yn briodol. Dylid rhoi canllawiau clir i gofrestreion ar y cynllun CPD i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â disgwyliadau adolygiadau cofnodion y GOC.

Dylid cyfathrebu’r hyn a ddysgir o’r adolygiadau hyn yn glir i gofrestreion fel bod pawb yn gallu mabwysiadu ymarfer gwell. Ar hyn o bryd, cyhoeddwyd gwybodaeth am adolygiadau cofnodion cofrestreion yn ddwfn ym mhapurau’r Cyngor, sydd ddim yn ffordd hygyrch iawn o gyfathrebu i gofrestreion er mwyn hwyluso myfyrio a dysgu”. (ABDO)

“Cefnogwn ddull cytbwys sy’n cyfuno hap-samplo gydag adolygiadau targed os oes risgiau hysbys neu bryderon blaenorol am ddiffyg cydymffurfio. Mae hyn yn adlewyrchu dull systemau CPD eraill sy’n seiliedig ar ganlyniadau ac yn helpu i sicrhau bod adolygu’n aros yn gymesur, teg ac addysgedig yn hytrach na chosbol. Dylai prif bwrpas adolygu cofnodion fod fel offeryn sicrhau ansawdd a dysgu sy’n cynorthwyo’r mwyafrif llethol o gofrestreion sy’n ymrwymedig i gynnal a datblygu eu cymhwysedd er lles cleifion.” (Darparwr CPD)

“Cytunwn ond dylai samplo fod ar sail risg, yn dryloyw ac yn gefnogol. Rhaid i’r GOC sicrhau bod adolygiadau’n sensitif i gyd-destun ac yn ystyried natur amrywiol yr ymarfer. Er enghraifft, mae’r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a’r ffocws clinigol i optometrydd mewn ysbyty neu ymchwilydd academaidd yn dra gwahanol i rai gan weithiwr locwm cymunedol. Dylai proses adolygu gefnogol gydnabod y cyfyngiadau proffesiynol gwahanol hyn ac osgoi dull ‘un esgid i ffitio pawb’ o archwilio.” (Ymatebwr dienw)

Ymateb y GOC – Y GOC i adolygu sampl o gofnodion CPD ar ôl adnewyddu cofrestriad blynyddol.

97. Rydym yn croesawu’r gefnogaeth gref i’r cynnig hwn. Fel y nodwn yn yr ymgynghoriad, mae adolygu cofnodion CPD yn nodwedd sefydledig o’r system bresennol a bydd yn bwysicach fyth heb unrhyw system bwyntiau.

98. Fel ar hyn o bryd, bydd y pwyslais ar gefnogi gwella nid cosbi. Bydd tryloywder parhaus ynghylch sut fydd y system adolygu cofnodion CPD yn gweithio drwy'r deunyddiau a gyhoeddir. Disgwyliwn adeiladu ar y dull presennol sy'n cynnwys cymysgedd o hap-adolygiadau ac adolygiadau targed.

99. Derbyniwn y gallwn wneud mwy i rannu'r hyn a ddysgir o adolygiadau CPD gyda chofrestreion er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yn y sector a byddwn yn gweithredu hyn o fewn y cylch CPD presennol.

Y gall y Cofrestrydd dynnu cofrestreion oddi ar y gofrestr os aseswyd bod eu cofnodion CPD yn anfoddhaol ac nid oeddent wedi cywiro'r sefyllfa, ond gyda hawl i apelio (Cwestiwn 9)

C9 A ddylai'r Cofrestrydd fod yn gallu tynnu cofrestreion oddi ar y gofrestr os aseswyd bod eu cofnodion CPD yn anfoddhaol ac nid oeddent wedi cywiro'r sefyllfa, ond gyda hawl i apelio?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylai	53.7%	50.7%	70.8%
Na ddylai	23.8%	27.2%	4.2%
Ddim yn siŵr	22.5%	22.1%	25.0%

100. Pwysleisiodd lawer o'r ymatebwyr y dylai tynnu enw oddi ar gofrestr am beidio â chwrdd â gofynion CPD fod yn niffyg popeth arall a dim ond ar ôl rhoi canllawiau clir, adborth a chyfleoedd ystyrlon i gofrestreion i gywiro'r sefyllfa neu gymorth. Roedd galw cryf am i amgylchiadau unigol (fel salwch neu broblemau personol) gael eu hystyried cyn cymryd unrhyw gamau.

101. Tynnodd rai sylw at yr angen am safonau a disgwyliadau clir, penodol a thryloyw o ran beth yw "digon" (a "dim digon") o CPD, oherwydd y gallai amwysedd arwain at annhegwch neu orfodaeth anghyson. Disgrifiodd rai ddadgofrestru fel ateb "llym" neu "gosbol" gan awgrymu atebion eraill fel atal o swydd dros dro gan roi amser ar gyfer cywiro, mentora, hyfforddiant ychwanegol neu sesiynau CPD dal i fyny gorfodol. Ystyriwyd bod hawl gadarn i apelio'n hanfodol. Roedd rhai'n cwestiynu'r cysylltiad uniongyrchol rhwng cofnodion CPD a chymhwysedd proffesiynol gwirioneddol gan awgrymu nad yw cofnodion CPD gwael o reidrwydd yn golygu bod ymarferydd yn anaddas i ymarfer.

102. Roedd rhai'n cyfiawnhau eu cefnogaeth i'r pŵer i ddadgofrestru ar sail diogelu cleifion a chynnal hyder mewn safonau proffesiynol. Roedd peth o'r adborth yn gofyn am gysoni cliriach rhwng prosesau diffyg cydymffurfio â CPD a phrosesau addasrwydd i ymarfer.

103. Ar wahân i adnewyddu blynyddol, awgrymwyd y gallai cofrestreion dynnu eu hunain yn wirfoddol oddi ar y gofrestr pe byddent yn gofyn am hynny ac nid

oeddent yn wynebu achos addasrwydd i ymarfer, gan gysoni â rheoleiddwyr eraill a lleihau baich diangen.

104. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Cytunwn y dylai'r Cofrestrydd, fel ar hyn o bryd, fod yn gallu tynnu cofrestreion oddi ar y gofrestr os aseswyd bod eu cofnodion CPD yn anfoddhaol ac nid ydynt wedi cywiro'r sefyllfa, ond gyda hawl i apelio.

Yn unol ag ymarfer rheoleiddio cenedlaethol a rhyngwladol, dylai dull y GOC roi'r cymorth, amser a'r wybodaeth a fyddai ei angen ar gofrestreion unigol i'w helpu i gwrdd â gofynion y GOC, gan osgoi tynnu cofrestreion oddi ar y Gofrestr oni bai fod gwir angen.

Byddem hefyd yn hoffi gweld newidiadau ar wahân i reolau cofrestru'r GOC fel y gallai'r Cofrestrydd dynnu enw cofrestrai oddi ar y Gofrestr y tu allan i'r broses adnewyddu cofrestriad os ydynt yn gofyn am ei dynnu'n wirfoddol a ddim yn wynebu achos addasrwydd i ymarfer (paragraff 60). Byddai hyn yn gyson â phwerau tebyg gan reoleiddwyr proffesiynol eraill." (FODO)

"Ystyriwn fod cwblhau CPD priodol a digonol yn un o'r gofynion sylfaenol ar gyfer aros ar y Gofrestr fel gweithiwr gofal llygad cymwys sy'n gallu darparu gofal diogel i gleifion. Gan hynny, byddai tynnu oddi ar y Gofrestr yn un o'r rhagofynion rheoleiddio angenrheidiol yn niffyg popeth arall os yw cofrestrai wedi methu'n barhaus â chwrdd â disgwyliadau CPD, fel y disgrifir yn nhrafodaeth yr ymgynghoriad o ddiffyg cydymffurfio a gwarchod y cyhoedd.

Fodd bynnag, yn gyson ag ymarfer rheoleiddio cenedlaethol a rhyngwladol, rydym yn gryf o blaid dull sy'n gefnogol, cymesur ac yn canolbwyntio ar wella. Fel y noda'r ymgynghoriad yn glir, pwrpas adolygu cofnodion CPD yw addysgu'n hytrach na chosbi a dylid ond dadgofrestru ar ôl i gofrestreion dderbyn y canlynol:
• adborth clir ar ddiffygion wedi eu hadnabod;
• canllawiau hygyrch a diamwys ar ba gamau cywiro sydd angen eu cymryd;
• amserlen resymol i roi sylw i bryderon; a
• ar ôl ystyried amgylchiadau'r unigolyn yn briodol, wedi'i gefnogi gan bolisi amgylchiadau eithriadol cadarn." (Darparwr CPD)

"Os yw cofrestrai'n methu'n barhaus ag ymgysylltu â gofynion CPD neu gywiro'r diffygion, gallai hyn awgrymu pryder ehangach o ran proffesiynoldeb, mewnwelediad neu ymrwymiad i gynnal cymhwysedd. Yn yr achosion hyn gellid dadlau y gallai'r mater gael ei ystyried yn fwy priodol drwy broses sefydledig o addasrwydd i ymarfer (FtP), sydd:
- yn rhoi cyfle i ymchwilio i'r achosion sylfaenol,
- yn darparu rhagofalon gweithdrefnol i'r cofrestrai,
- yn cynnwys canlyniadau cymesur drwy asesu'r risg i'r cyhoedd yn lle dibynnu ond ar feini prawf gweinyddol." (Darparwr CPD)

“Ie, gyda systemau a rhagofalon priodol. Cytunwn â hyn ond rhaid i’r gofynion a’r prosesau fod yn dryloyw a rhaid cael gweithdrefn, gan roi amser i gywiro diffygion a chyfle i apelio. Bydd yn bwysig iawn i gofrestreion bod ganddynt broses glir i gywiro’r sefyllfa, yn enwedig yn y cylch cyntaf, ond mae’n debyg yn barhaol.” (Cymdeithas yr Optometryddion)

Ymateb y GOC – Bod y Cofrestrydd yn gallu tynnu cofrestreion oddi ar y gofrestr os aseswyd bod eu cofnodion CPD yn anfoddhaol ac nid oeddent wedi cywiro’r sefyllfa, ond gyda hawl i apelio.

105. O ystyried y consensws o blaid ein cynigion, byddwn yn symud ymlaen ar y sail yma.

106. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, bwriedir hyn fel mesur yn niffyg popeth arall a byddai ar ôl rhoi cyfle i gywiro’r sefyllfa, a gyda hawl i apelio. Ethos ein cynigion yw symud o system sy’n cosbi i un sy’n cefnogi ond rhaid cael mesurau gorfodi pe bai lleiafrif o gofrestreion yn camddefnyddio’r system. Bydd amgylchiadau eithriadol yn cael eu hystyried, fel ar hyn o bryd. Bydd canllawiau’n egluro beth fydd y GOC yn chwilio amdano wrth adolygu cofnodion CPD a’r amgylchiadau a allai arwain at dynnu enw o’r gofrestr.

107. Cefnogwn yr alwad am newidiadau i’n rheolau cofrestru fel bo’r Cofrestrydd yn gallu tynnu enw cofrestrai oddi ar y Gofrestr y tu allan i’r broses adnewyddu cofrestriad os ydynt wedi gofyn am ei dynnu’n wirfoddol a ddim yn wynebu achos addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag byddai angen diwygio’r ddeddfwriaeth i wneud hyn ac er i ni ysgrifennu at Weinidogion i ofyn am garlamu’r newid hwn, cawsom wybod na fydd diwygio ein deddfwriaeth yn cael blaenoriaeth.

108. Ni chytunwn â’r awgrymu y dylid ystyried achosion drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Pwrpas y prosesau hyn yw ystyried honiadau o gamymddwyn difrifol. Byddai’n ddull anghymesur ac yn cyflwyno risg o greu baich ôl-waith gyda’n hachosion addasrwydd i ymarfer.

Newidiadau posib o fewn Rheolau CPD 2021

109. Roedd cwestiynau 10-13 yn holi barn am gynigion lle na fyddai angen diwygio Rheolau CPD 2021 ac a fyddai felly’n bosib i’w gweithredu cyn dechrau cylch CPD 2028-30.

Newid y cymwyseddau (y pedwar maes) y mae’n rhaid i ddigwyddiadau CPD fod yn berthnasol iddynt (Cwestiwn 10)

C10 A ddylem newid y cymwyseddau (y pedwar maes) y	Pawb	Unigolion	Sefydliadau

mae'n rhaid i ddigwyddiadau CPD fod yn berthnasol iddynt?			
Dylid	38.5%	34.6%	60.0%
Na ddylid	36.0%	40.4%	12.0%
Ddim yn siŵr	25.5%	25.0%	28.0%

110. Teimlai nifer o ymatebwyr fod y meysydd cymhwysedd CPD presennol ar y cyfan yn foddhaol, yn eang a digon hyblyg i gynnwys yr ystod gyfan o ymarfer proffesiynol. Fodd bynnag, teimlai nifer helaeth fod y meysydd yn gor-gyfyngu neu ddim o hyd yn berthnasol i'r holl gofrestreion, yn enwedig rhai mewn swyddi di-draddodiadol neu ddim yn ymarfer yn barhaus.

111. Thema gyson oedd beirniadaeth o'r dull "ticio bocsys", gyda rhai'n dweud bod y meysydd yn annog casglu pwyntiau'n hytrach na dysgu ystyrlon. Roedd rhai o blaid cael gwared ar feysydd yn llwyr neu adael i gofrestreion roi ffocws eu buddiannau ac anghenion eu hunain i'w CPD.

112. Teimlai rai y dylid ehangu'r meysydd neu eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn ymarfer, fel technoleg newydd, gofal digidol neu gontractau GIG esblygol. Roedd galw hefyd am fwy o bwyslais ar bethau fel y gyfraith, proffesiynoldeb ac arweinyddiaeth er bod rhai'n cwestiynu perthnasedd "arweinyddiaeth" fel maes gwaith. Roedd yr adborth o blaid bod model diwygiedig yn aros wedi'i wreiddio yn y Safonau Ymarfer.

113. Roedd y meysydd i'w diwygio yn yr ymatebion yn cynnwys: diweddaru disgrifyddion y meysydd i adlewyrchu ymarfer modern; lleihau gofynion "cynnwys" maes gorfodol sy'n gyrru ymddygiad cydymffurfio; ac ystyried strwythur symlach yn gyson â safonau gyda disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad a dysgu proffesiynol a chlinigol.

114. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Credwn fod angen i'r cynllun CPD sicrhau bod cofrestreion yn parhau i gyflawni addysg sy'n atgyfnerthu disgwyliadau proffesiynol, arweinyddiaeth ac atebolrwydd y GOC fel yr amlinellir yn y Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi. Un diwygiad posib fyddai ail-ddylunio'r meysydd dysgu'n ddau grŵp safonau, e.e. rhai sy'n dod o dan 'ymarfer clinigol' a rhai sy'n ymwneud ag 'ymddygiad proffesiynol', gyda gofyniad i ddangos tystiolaeth o beth CPD wedi'i gyflawni o'r ddau grŵp." (ABDO)

"Dylai'r GOC ehangu'n sylweddol ar y math o weithgareddau sy'n cyfrannu at y meysydd gwaith (yn enwedig anghlinigol). Bydd hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol i gofrestrai gydymffurfio drwy wneud eu datblygiad yn fwy pleserus a haws i'w gyflawni. Nid yw gorfodi pobl i wneud rhestr gul iawn o weithgareddau'n apelio at rai sy'n well ganddynt ddysgu mewn ffyrdd gwahanol.

Rhaid i'r GOC gynnwys astudio am gymwysterau uwch ac addysgu / datblygu eraill fel gweithgareddau CPD derbyniol.

Rhaid blaenoriaethu gweithgareddau arferol a rhai nad ydynt yn costio arian i'r cofrestreion – yn enwedig mewn dysgu hunangyfeiriedig." (Coleg yr Optometryddion)

"Mae'r pedwar maes gwaith yn ddigon ar hyn o bryd ac nid oes angen cael mwy. Fodd bynnag, dylai'r GOC fabwysiadu dull ystwyth sy'n adlewyrchu'r newid mewn gofynion ar draws y gweithlu.

Cymeradwywn gynnwys "datblygu uwch-sgiliau clinigol i gefnogi'r broses o symud gofal llygad o'r ysbyty i'r gymuned" oherwydd mae hyn yn gyson â'r newid yn rôl yr optometrydd. Dylai'r GOC ystyried sut y mae'r meysydd yn gyson â gofynion ehangach y gweithlu a blaenoriaethau ail-ddylunio gwasanaethau'r pedair gwlad." (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – Newid y cymwyseddau (y pedwar maes gwaith) y mae'n rhaid i ddigwyddiadau CPD fod yn berthnasol iddynt

115. Dylai unrhyw newidiadau a wnawn i'r system CPD cyn cylch 2028-30 fod yn gyson â'r cyfeiriad teithio cyffredinol a sefydlwyd yn y cwestiynau blaenorol oherwydd bydd hyn yn cynorthwyo pontio'n raddol at ddiwygiadau mwy hirdymor. Rydym felly'n awyddus i greu mwy o hyblygrwydd sy'n rhoi mwy o reolaeth i gofrestreion dros eu dysgu a sicrhau bod pob cofrestrai'n cynnal eu cymwyseddau craidd.

116. Gwelwn haeddiant yn awgrym ABDO i symud at ddau faes yn canolbwyntio ar ymarfer clinigol ac ymddygiad proffesiynol. Bydd hyn yn sicrhau y cynhelir cymwyseddau clinigol craidd ac yn cofleidio materion ehangach sy'n cefnogi gofal llygad diogel ac effeithiol. Mae ein hachosion addasrwydd i ymarfer diweddaraf yn adlewyrchu mwy o ffocws ar ymddygiad proffesiynol a chymhwysedd clinigol, a'n harolwg cofrestreion yn nodi heriau gyda phethau fel ymarfer masnachol ac ymddygiad gweithle. Dylai dull deublyg fel hyn annog CPD ar draws amrediad eang o faterion, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, arweinyddiaeth, moeseg broffesiynol, datblygiadau mewn technoleg, a llawer mwy.

117. Mae astudio am gymwysterau ôl-gofrestru'n cyfrif fel gweithgaredd derbyniol o dan y system bresennol ac yn parhau felly. Derbyniwn fod gennym rôl ynghyd â chyrff sector a darparwyr CPD i addysgu cofrestreion am yr ystod eang o weithgareddau sy'n cyfri'n ddilys tuag at bwyntiau CPD. Gallai hyn helpu i ateb heriau strategol y sector fel annog mwy o gofrestreion i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy addysgu a gweithredu fel goruchwylwyr.

Addasu'r pwyntiau a roddir i wahanol weithgareddau i'w gwneud yn haws cyrraedd y cyfanswm pwyntiau sydd ei angen o dan Reolau CPD 2021 (Cwestiwn 11)

C11 A ddylem addasu'r pwyntiau a roddir i wahanol weithgareddau i'w gwneud yn haws cyrraedd y cyfanswm pwyntiau sydd ei angen o dan Reolau CPD 2021?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	55.5%	54.3%	62.5%
Na ddylid	28.4%	30.4%	16.7%
Ddim yn siŵr	16.0%	15.2%	20.8%

118. Ar y cyfan roedd ymatebwyr o blaid ail-bwysoli pwyntiau CPD pe bai hynny'n adlewyrchu ansawdd y dysgu'n well, yn gwobrwyo datblygiad rhyngweithiol a chynhwysfawr (gan gynnwys cymwysterau ôl-gofrestru), a lleihau'r baich gweinyddol gan osgoi cymhellion anfwriadol a gyda chanllawiau clir i ategu'r broses.

119. Mae meysydd cefnogaeth yn yr ymatebion yn cynnwys pwysoli cymesur i werth y dysgu fel bod datblygiad hirach, mwy manwl neu uwch (e.e. hyfforddiant clinigol ôl-radd / arbenigol, llwybrau rhagnodi annibynnol, rhaglenni arweinyddiaeth) yn denu mwy o bwyntiau na sesiynau byr. Roedd peth cefnogaeth hefyd i roi mwy o bwyntiau i ddysgu rhyngweithiol (e.e. gweithdai seiliedig ar gymhariaid ac achosion, a dysgu seiliedig ar drafodaeth), ynghyd â dysgu hunangyfeiriedig sy'n golygu ymgysylltu'n ystyrlon ag eraill.

120. Roedd rhybuddion hefyd rhag ychwanegu cymhlethdod neu anghysondeb ar draws fformatau CPD; ystyriwyd bod canllawiau clir, diamwys yn hanfodol i sicrhau tegwch. Un awgrym oedd symleiddio'r dystiolaeth a'r broses o gofnodi dysgu (gan gynnwys drwy lwyfan CPD y GOC) a diffinio beth sy'n cyfrif fel "rhyngweithiol" ar gyfer CPD hunangyfeiriedig.

121. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Derbyniwn y gall y fframwaith pwyntiau presennol greu cymhellion anfwriadol, ac y gallai gweithgareddau byrrach neu lai manwl ddenu nifer debyg neu fwy o bwyntiau na dysgu mwy cynhwysfawr, gan gynnwys cymwysterau ôl-gofrestru. Nid yw hyn o hyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad amser na gwerth y dysgu a wneir.

Byddai ailgydbwyso dyrannu pwyntiau'n helpu i:
• adlewyrchu dyfnder, cymhlethdod a pherthnasedd gwahanol fathau o CPD yn well
• golygu bod llai o angen i gofrestreion gyflawni nifer o weithgareddau llai i gwrdd â'r gofynion
• cefnogi ymgysylltu â dysgu mwy ystyrlon a datblygiadol

Yn benodol, dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i ddysgu strwythuredig a mwy hirdymor, fel cymwysterau ôl-gofrestru
Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i gofrestreion ddatblygu uwch-sgiliau clinigol, gan gynnwys tuag at Ragnodi Annibynnol a darparu gwasanaethau mwy arbenigol. Dylai'r system CPD gefnogi'n hytrach na chymell yn erbyn cyflawni'r math yma o ddatblygiad proffesiynol yn anfwriadol." (Optometry Scotland)

"Ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, dangosir bod dysgu gydag eraill yn cefnogi newid ymddygiad a myfyrio ar ymarfer presennol. Byddem felly'n argymell ffafrio'r ymarfer hwn yn hytrach na cheisio gwobrwyo cymwysterau ôl-gofrestru. Mae'n bosib yn barod i ddylunwyr cyrsiau cymwysterau ôl-gofrestru ystyried sut i gefnogi dysgu rhyngweithiol fel ffordd fuddiol o ddysgu wrth ddylunio eu cyrsiau." (ABDO)

"Nid yw'r pwysoli presennol o hyd yn adlewyrchu gwerth y dysgu. Dylai dysgu rhyngweithiol seiliedig ar gymhariaid ac achosion gario mwy o bwysau na gweithgareddau goddefol ar y sail bod y dystiolaeth yn dangos mai dyma'r CPD mwyaf effeithiol. Bydd angen canllawiau clir i sicrhau cysondeb." (Darparwr Addysg)

"Cyflwynwyd y fframwaith CPD presennol i symud y ffocws o bwyntiau tuag at ddysgu myfyriol. Mae addasu'r dyraniad pwyntiau'n benodol i'w gwneud yn "haws" cyrraedd y cyfanswm yn creu risg o gyflwyno diwylliant seiliedig ar gydymffurfio a hel pwyntiau, sy'n ymddangos i fod yn groes i amcanion diwygio CPD.

Cyn ystyried unrhyw addasu, byddai'n ddefnyddiol gweld:
- data clir yn dangos y trafferthion eang gyda chwrdd â gofynion CPD,
- dadansoddiad i weld ydy'r heriau'n ymwneud â mynediad, eglurder, ymgysylltu neu berthnasedd, yn hytrach na gwerth y pwyntiau eu hunain,
- a thystiolaeth y byddai newid pwysoliad y pwyntiau'n gwella ansawdd y dysgu neu warchod y cyhoedd." (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – Addasu'r pwyntiau a roddir i wahanol weithgareddau i'w gwneud yn haws cyrraedd y cyfanswm pwyntiau sydd ei angen o dan Reolau CPD 2021

122. Roedd cefnogaeth yn gyffredinol i addasu'r pwyntiau a roddir i wahanol weithgareddau.

123. Mae'r cyfanswm pwyntiau sy'n ofynnol wedi'i nodi gan ddeddfwriaeth felly ni allwn newid hyn. Gallem ei gwneud yn haws i gofrestreion gyrraedd eu cyfanswm pwyntiau drwy gynyddu pwyntiau am bob math o weithgaredd, gan felly leihau faint o CPD sydd ei angen. Fodd bynnag, yn ein harolwg o gofrestreion yn 2025, teimlai 72% fod y pwyntiau sy'n ofynnol "tua iawn" ac nid oedd lleihau faint o CPD a gyflawnir yn thema gref yn yr ymatebion i'r

ymgynghoriad. Yn hytrach roedd ffocws yr adborth ar ailbwysoli pwyntiau ar sail gwerth a chymhlethdod y dysgu a chefnogi datblygiad proffesiynol.

124. Rydym yn agored i addasu'r system ar y sail yma ond yn ystyriol o'r risg o greu dryswch a chofrestreion yn datgysylltu o weithgareddau CPD a fyddai'n denu llai o bwyntiau. Byddwn felly'n trafod yr opsiynau gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen cyn cadarnhau cynlluniau'r cylch nesaf.

Cael gwared ar yr isafswm o bwyntiau CPD sy'n rhaid eu casglu o weithgareddau drwy ddarparwr (Cwestiwn 12)

C12 A ddylem gael gwared ar yr isafswm o bwyntiau CPD sy'n rhaid eu casglu o weithgareddau drwy ddarparwr?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	52.5%	51.1%	60.0%
Na ddylid	37.7%	38.7%	32.0%
Ddim yn siŵr	9.9%	10.2%	8.0%

125. Roedd y rhai o blaid cael gwared ar yr isafswm yn pwysleisio hyblygrwydd a dull seiliedig ar ganlyniadau. Eu dadl oedd y dylai cofrestreion fod yn gallu dewis y dysgu sy'n cyd-fynd orau â chwmpas eu hymarfer a PDP, gan gynnwys dysgu seiliedig ar y gweithle a datblygiad strwythuredig arall na fyddai efallai'n addas i'r fformat darparwr traddodiadol. Roedd nifer yn gweld dileu'r isafswm fel cam pontio cymesur cyn diwygio deddfwriaethol pellach, er mwyn cryfhau hunanreolaeth broffesiynol a pherchnogaeth o ddysgu gydol oes, a chefnu ar system sy'n dibynnu ar "dicio bocsys". Dywedodd rai oedd o blaid fod llawer o ddysgu hefyd yn digwydd yn anffurfiol drwy ymarfer o ddydd i ddydd a gyda chydweithwyr gan ofyn am ddisgwyliadau cliriach a chanllawiau ymarferol ar gofnodi, dangos tystiolaeth a defnyddio dysgu drwy ddarparwr yn effeithiol.

126. Roedd y rhai yn erbyn, neu o blaid ond gyda rhagofalon, yn cyfeirio at sicrhau ansawdd, cysondeb a'r diwydiant dysgu proffesiynol ehangach. Teimlent fod CPD drwy ddarparwr yn bwysig ar gyfer dysgu rhyngweithiol a seiliedig ar gymhariaid (dadlau, herio, trafod achosion, adolygu gan gymhariaid), cwrdd â safonau cyffredin ac ymarfer newydd, a chynnal cysondeb clinigol, gan gysylltu hyn i ddiogelwch cleifion ac ansawdd gwasanaethau. Un pryder cyson oedd y gallai rhai cofrestreion, heb ddisgwyliadau o gwbl, ddiofynnu at CPD hunangyfeiriedig yn bennaf, gan felly ymgysylltu llai â dysgu strwythuredig a gwanhau manteision safbwyntiau aml-broffesiynol. Tynnodd rai darparwyr CPD sylw clir at y buddsoddiad sydd ei angen i gwrdd â safonau'r GOC (llywodraethu, archwiliadau, sicrhau ansawdd) gan rybuddio y gallai dileu'r

lleiafswm ddibrisio darpariaeth sicr ac arwain at dystiolaeth CPD amrywiol o ran trylwyredd.

127. Roedd rhai awgrymiadau i liniaru risg ond cynyddu hyblygrwydd yn cynnwys:

- Cadw'r gofyniad sylfaenol ar gyfer CPD drwy ddarparwr a / neu ryngweithiol, efallai gydag isafswm is.
- Cyhoeddi canllawiau clir yn annog cymysgedd cytbwys o ddysgu ac yn egluro gwerth penodol dysgu drwy ddarparwr a dysgu hunangyfeiriedig.
- Cryfhau'r cymorth i gofrestreion gyda chynllunio, myfyrio ar a dangos tystiolaeth o ganlyniadau (gyda chyrff proffesiynol, cyflogwyr a darparwyr yn cynnig enghreifftiau a dulliau)
- Cadw trosolwg priodol drwy adolygu cofnodion ac ymgysylltu â chomisiynwyr / llywodraethau i osgoi canlyniadau anfwriadol.

128. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Credwn y byddai dileu'r isafswm yn cynorthwyo cofrestreion i gymryd mwy o reolaeth dros gynllunio eu datblygiad proffesiynol, gwneud dewisiadau mwy gwybodus am y gweithgareddau dysgu mwyaf priodol, a rhoi cynnig ar ystod ehangach o gyfleoedd datblygu – gan gynnwys ehangu cwmpas eu hymarfer – heb gael eu cyfyngu gan sut y darperir y dysgu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gofrestreion sy'n astudio cymwysterau ôl-gofrestru uwch, dysgu seiliedig ar y gweithle, neu ddatblygiad strwythuredig arall nad yw bob amser efallai'n cael ei ddarparu drwy'r fformatau darparwr traddodiadol." (Darparwr CPD)

"Mae gan CPD drwy ddarparwr rôl bwysig mewn sicrhau bod gweithgareddau dysgu'n strwythuredig, seiliedig ar dystiolaeth ac wedi eu darparu gan unigolion ag arbenigedd priodol. Gallai dileu'r lleiafswm CPD drwy ddarparwr sy'n ofynnol arwain at ddibynnu mwy ar ddysgu anffurfiol neu hunangyfeiriedig na fydd efallai'n destun yr un lefel o sicrhau ansawdd. Mae cadw'r lleiafswm gofynnol yn helpu i sicrhau bod cofrestreion yn ymgysylltu â dysgu strwythuredig a mewnbwn proffesiynol allanol." (Optometrydd Rhagnodi Therapiwtig)

"Bydd dileu'r lleiafswm nawr yn helpu cofrestreion i gymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb dros eu cynlluniau dysgu gydol oes a'u canlyniadau dros y blynyddoedd nesaf cyn y gellir diwygio'r ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynorthwyo mwy o gofrestreion i fod yn gwbl hyderus i gynllunio a gweithredu eu datblygiad proffesiynol yn hunanreolaethol cyn y codir y cyfyngiadau presennol ar y cynllun o bosib.

Fodd bynnag, fel y nodwn yn flaenorol, credwn y bydd angen cymorth a chanllawiau sylweddol ar y cofrestreion presennol er mwyn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i fod yn weithwyr gofal iechyd dysgu gydol oes annibynnol ac effeithiol. Teimlwn y byddai cyrff proffesiynol cynrychiadol y sector yn adnodd addas i ddarparu'r canllawiau hyn i'w haelodau gan eu cefnogi i adnabod,

cyflawni, myfyrio ar a chofnodi eu gweithgareddau dysgu'n briodol er mwyn gallu gwneud datganiadau boddhaol i'r GOC ar eu CPD." (ABDO)

"Yng Nghymru, lle y mae gan gyfran helaeth o gofrestreion gymwysterau uwch ac yn darparu gwasanaethau WGOS mwy arbenigol, mae'r system CPD bresennol yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd bod gweithwyr yn cynnal eu cymhwysedd. Gallai dull CPD rhy hyblyg greu risg o danseilio'r sicrwydd hwn ac arwain at y Byrddau Iechyd yn cyflwyno eu gofynion CPD eu hunain, a allai amrywio, gan felly greu anghysondeb yng Nghymru ac ar draws gwledydd eraill y DU." (Optometreg Cymru)

Ymateb y GOC – Cael gwared ar yr isafswm o bwyntiau CPD sy'n rhaid eu casglu o weithgareddau drwy ddarparwr

129. Roedd cefnogaeth ar y cyfan i gael gwared ar yr isafswm o bwyntiau CPD sy'n rhaid eu casglu o weithgareddau drwy ddarparwr, gan unigolion a sefydliadau fel ei gilydd. Fel gyda chwestiynau eraill yn y rhan yma, rydym yn awyddus i weld pa gyfleoedd sydd i wneud newidiadau cyn cylch 2028-30 sy'n gyson â'r cyfeiriad teithio cyffredinol a sefydlwyd yn y cwestiynau blaenorol.

130. Ni chredwn fod CPD hunangyfeiriedig yn annatod llai gwerthfawr na CPD drwy ddarparwr, felly byddai isafswm trothwy efallai'n gyfyngiad artiffisial yn y cyd-destun hwn. Dros gylch 2022-24, roedd llai na 4% o bwyntiau o CPD hunangyfeiriedig. O ystyried y ffigurau hyn, er y gallai CPD hunangyfeiriedig gynyddu, disgwyliwn i'r rhan fwyaf barhau i ddibynnu ar weithgareddau drwy ddarparwr, felly mae effaith darparwyr CPD yn cael gwared ar y cyfyngiad yn ystod cylch 2028-30 yn debygol o fod yn fach.

131. Dros gylch 2028-30, bydd elfennau gorfodol fel dysgu rhyngweithiol ac adolygu gan gymhariaid yn aros, wedi eu cefnogi gan ddulliau sicrwydd fel adolygu cofnodion CPD, a ddylai sicrhau bod cofrestreion yn ymgysylltu â CPD.

132. Byddwn felly'n cael gwared ar yr isafswm o bwyntiau CPD sy'n rhaid eu casglu o weithgareddau drwy ddarparwr ar gyfer cylch CPD 2028-30.

Cael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig (Cwestiwn 13)

C13 A ddylem gael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	71.9%	75.4%	50.0%
Na ddylid	18.1%	15.9%	31.8%
Ddim yn siŵr	10.0%	8.7%	18.2%

133. Ar draws yr atebion, un thema allweddol oedd nid ydy myfyrio'n bwysig ond a fyddai gofyn am ddatganiad myfyrio ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig yn gymesur ac a fyddai'n atal ymgysylltu â dysgu hunangyfeiriedig yn anfwriadol.

134. Teimlai rai fod gofyn am ddatganiad myfyrio ysgrifenedig ar gyfer pob gweithgaredd hunangyfeiriedig yn rhy feichus, yn cymryd gormod o amser ac yn gallu bod yn ddiystyr neu annidwyll dim ond i gwrdd â gofyniad. Teimlai eraill y dylid ymgorffori myfyrio mewn adolygiadau dysgu ehangach neu gynllun datblygu personol yn lle'n rhywbeth gofynnol ar ôl pob digwyddiad CPD.

135. Lleisiwyd pryderon am y diffyg cysondeb rhwng CPD hunangyfeiriedig a CPD drwy ddarparwr, gan holi pam fod ond angen myfyrio ar gyfer y cyntaf. Dywedodd eraill fod angen canllawiau clir ar dystiolaeth a chanlyniadau dysgu i sicrhau ansawdd a pherthnasedd. Yn ôl rhai, roedd diffyg dysgu hunangyfeiriedig yn deillio o ansicrwydd am beth sy'n cyfrif, faint o fyfyrio sy'n dderbyniol a sut fydd adolygu cofnodion yn barnu cyflwyniadau, nid o'r myfyrio ei hun.

136. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Cefnogwn yr egwyddor o ddarparu gymaint o hyblygrwydd â phosib, nes bydd y newidiadau i Reolau CPD yn cael eu gweithredu. Disgrifia'r ymgynghoriad fod gorfod gwneud datganiad myfyrio, sy'n berthnasol ond i weithgareddau 'hunangyfeiriedig', yn achosi llai o ddysgu hunangyfeiriedig o'i gymharu â dysgu drwy ddarparwr.

Yn y cyd-destun hwnnw, byddai cael gwared ar fod angen gwneud datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd hunangyfeiriedig yn gyson â symud tuag at ddull seiliedig ar ganlyniadau.

Fodd bynnag, nodwn y rôl bwysig y mae myfyrio'n ei chwarae mewn helpu'r cofrestrai i adnabod beth a ddysgwyd o weithgaredd CPD a'i effaith ar eu hymarfer. Dylai'r GOC ystyried sut y mae myfyrio'n rhan o'i ddull CPD newydd – er enghraifft drwy ei gynnwys mewn canllawiau neu ofynion tystiolaeth ar gyfer archwiliad CPD." (FODO)

"Byddai cael gwared ar ddatganiadau myfyrio'n gostwng safon CPD ar yr union adeg y dylai'r proffesiwn fod yn ei godi, ac yn symud i ffwrdd o ddull addysgeg cadarn." (Coleg yr Optometryddion)

"Rydym yn gryf yn erbyn cael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd hunangyfeiriedig. Nid yw'r GOC wedi darparu unrhyw dystiolaeth fod y datganiad myfyrio'n rhwystr i gofrestreion yn cyflawni dysgu hunangyfeiriedig. Credwn fod diffyg dysgu hunangyfeiriedig efallai wedi codi oherwydd nad oes gan gofrestreion hyder mewn beth sydd ei angen i gyflwyno

hyn, ac yn enwedig beth fyddai'n dderbyniol gan y GOC ar gyfer adolygiad posib o gofnodion. Ni theimlwn ychwaith fod y canllawiau neu'r adnoddau presennol gan y GOC yn ddigonol i gynorthwyo cofrestreion sy'n ddibrofiad mewn lanlwytho dysgu hunangyfeiriedig i ystyried gwneud hynny." (ABDO)

"Yn lle dileu myfyrio'n llwyr, credwn y dylai'r GOC ganolbwyntio ar ail-ddylunio sut y cofnodir ac y dangosir tystiolaeth o fyfyrio ar ddysgu hunangyfeiriedig, yn unol â bwriad seiliedig ar ganlyniadau'r system ddiwygiedig. Gallai dull mwy cymesur a hyblyg gynnwys:
• caniatáu myfyrio cyfunol neu thematig ar draws nifer o weithgareddau dysgu cysylltiedig;
• cofnodi myfyrio fel rhan o adolygiad dysgu cyfnodol neu PDP, yn lle bod angen datganiad ar wahân i bob gweithgaredd; a
• defnyddio prociau atgoffa myfyrio'n gyson â meini prawf adolygu cofnodion, yn lle gorfodi datganiad myfyrio unffurf am bob gweithgaredd dysgu." (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – Cael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig

137. Roedd cefnogaeth yn gyffredinol i gael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig, gan unigolion a sefydliadau. Fodd bynnag, roedd barn cyrff sector y DU yn rhanedig ar hyn (FODO o blaid; ABDO, Coleg yr Optometryddion yn erbyn; AOP heb ateb).

138. Mae'r diffyg CPD hunangyfeiriedig hyd yma'n debygol o fod oherwydd cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pa mor hawdd yw derbyn CPD drwy ddarparwr, diffyg ymwybyddiaeth a hyder mewn beth fydd yn dderbyniol gan y GOC, a'r baich o ddarparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd. Rydym yn awyddus i weithio gyda chyrff sector ac eraill i helpu i addysgu cofrestreion am CPD hunangyfeiriedig.

139. Fel y nodwn yn ein hymateb i'r cwestiwn blaenorol, ni chredwn fod CPD hunangyfeiriedig yn gynhenid llai gwerthfawr na CPD drwy ddarparwr. Byddai felly'n anghyson gofyn am ddatganiad myfyrio am un math o weithgaredd ond nid am y llall. Mae hyn yn wahanol i ofyn i gofrestreion ddangos bod CPD honedig wedi'i gyflawni os oes gwahaniaeth rhwng amrywiol CPD drwy ddarparwyr. Fodd bynnag, atebwn yr her hon drwy ganllawiau ac adolygu cofnodion CPD.

140. Bydd myfyrio'n parhau i fod yn rhan ddylunio allweddol o'r system CPD yng nghylch 2028-30 a'n cynlluniau diwygio hirdymor. Fodd bynnag, gan adlewyrchu thema bwysig yn yr adborth, pryderwn fod gofyn am ddatganiad myfyrio ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig yn anghymesur ac efallai'n atal ymgysylltu â dysgu hunangyfeiriedig yn anfwriadol. Cytunwn hefyd fod lle i wella ansawdd y myfyrio mewn adolygiadau dysgu ehangach a chynlluniau PDP.

141. Byddwn felly’n cael gwared ar fod angen darparu datganiad myfyrio ar gyfer pob gweithgaredd CPD hunangyfeiriedig yng nghylch 2028-30. Bwriadwn ystyried sut i gryfhau myfyrio’n fwy cyffredinol wrth i ni baratoi ar gyfer dechrau cylch 2028-30, er enghraifft drwy ei wneud yn ffocws adolygiadau o gofnodion CPD. Byddwn hefyd yn gweithio gydag eraill i ateb y rhwystrau cyfathrebu a hyder a allai hefyd fod yn atal cyflawni CPD hunangyfeiriedig.

4. Canfyddiadau'n ymwneud â chofrestreion busnes

Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid.

144. Roedd adborth rhanddeiliaid yn y digwyddiadau ymgynghori ar gynigion ar gyfer cofrestreion busnes yn gefnogol ar y cyfan i roi mwy o rôl weithredol i fusnesau gyda chefnogi CPD, yn enwedig os yw cyflogwyr eisoes yn darparu cynadleddau, rhaglenni hyfforddi a dysgu ar-lein. Credai cyfranogwyr fod cael busnesau i helpu i adnabod anghenion dysgu drwy drafodaethau tîm, cyfarfodydd un-i-un ac adborth yn werthfawr, gan nodi y gall CPD rhyngweithiol fod yn arbennig o fuddiol i leihau ynysu mewn lleoliadau un ymarferydd. Fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio bod angen diffinio'r rôl yma'n glir, yn enwedig yn achos busnesau optegol bach, ysbytai, addysg a diwydiant, lle nad yw'r trefniadau arfarnu presennol o hyd yn cyd-fynd yn drefnus â chyfrifoldebau datblygiad proffesiynol.

145. Ar yr un pryd, roedd ymatebwyr wedi lleisio pryderon sylweddol ynghylch a ddylai fod gan fusnesau rôl gryfach mewn goruchwylio neu lywio CPD cofrestreion. Roedd llawer yn anesmwyth am roi mwy o ddylanwad i gyflogwyr dros ofynion proffesiynol, yn enwedig o gofio'r pwysau masnachol mewn rhai rhannau o'r sector ar hyn o bryd. Roedd pryder y gellid defnyddio CPD yn amhriodol i atgyfnerthu targedau gwerthu neu greu disgwyliadau afrealistig. Pwysleisiodd gyfranogwyr hefyd nad oes gan weithwyr locwm neu rai sy'n gweithio y tu allan i fusnesau optegol traddodiadol efallai'r un mynediad at gymorth cyflogwr ffurfiol, fel bo'n anoddach gweithredu model busnes yn gyson a theg.

146. Lleisiwyd pryderon hefyd am ansawdd, tegwch a rhagfarn fasnachol os yw busnesau neu weithgynhyrchwyr yn chwarae mwy o ran mewn darparu CPD. Er bod rhai cyfranogwyr yn cydnabod bod darparwyr mwy'n darparu dysgu o safon yn barod, rhybuddiodd eraill y gallai llacio'r gofynion gymylu'r llinell rhwng addysg a dyrchafiad. Teimlai rhanddeiliaid y byddai angen canllawiau GOC cliriach ar beth y disgwylir i fusnesau ei wneud, pa dystiolaeth fyddai ei angen a sut i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol fathau o ymarfer. Ar y cyfan, awgrymai'r adborth gefnogaeth bwyllog i fusnesau'n chwarae rôl gefnogi, ond gwrthwynebiad cryf i unrhyw ddull lle y gallai buddiannau masnachol neu flaenoriaethau cyflogwr danseilio hunanreolaeth broffesiynol cofrestreion neu ddidwylledd y CPD.

Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad

147. Mae crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar bob cwestiwn a ofynnwyd yng nghyswllt defnyddio rôl cofrestreion busnes rŵan yn dilyn. Nid yw'r un o'r newidiadau arfaethedig yn gofyn diwygio Rheolau CPD 2021 na Deddf Optegwyr 1989.

Defnyddio rôl busnesau yn y system CPD i gefnogi system sy'n rhagnodi llai o ofynion ar gyfer cofrestreion unigol (Cwestiwn 14)

148. Ni ofynnwyd i ymatebwyr ddewis opsiynau ateb ar gyfer Cwestiwn 14 felly nid oes unrhyw ddadansoddiad meintiol yn y rhan yma o'r ddogfen ymateb.

149. Lleisiodd lawer amheuon am roi mwy o rôl i fusnesau gyda'r system CPD, gan boeni am ragfarn fasnachol, darpariaeth CPD anghyson, a cholli hunanreolaeth broffesiynol, yn enwedig i weithwyr locwm a rhai mewn rolau di-draddodiadol. Rhybuddiodd rai yn erbyn creu cyfundrefn gydymffurfio newydd i gyflogwyr a fyddai'n rhagnodi gofynion.

150. Cyfeiriwyd at wahaniaethau sylweddol rhwng sefydliadau mawr (lluosog) oedd yn aml gyda threfniadau llywodraethu, arfarnu a seilwaith hyfforddiant ffurfiol, ac optegwyr bach annibynnol oedd gyda llai o gapasiti, amser, cymorth gweinyddol a threfniadau llanw.

151. Roedd rhai ymatebwyr o blaid rôl i fusnesau gyda darparu canllawiau ac enghreifftiau (e.e. diwylliant dysgu cefnogol, arfarnu anffurfiol, trafod rhwng cymhariaid, dysgu ar sail achosion) yn lle systemau gorfodol, yn enwedig ar gyfer busnesau optegol bach lle y gallai ffurfioldeb gynyddu cost a biwrocratiaeth. Gofynnodd rai am ganllawiau clir o ran beth y disgwylir i gyflogwyr ei wneud a beth fyddai unrhyw ganlyniadau neu rwymedigaethau pe bai CPD cofrestrai'n cael ei ystyried yn anfoddhaol. Ystyriwyd bod diffyg eglurder yn creu ansicrwydd a risg bosib i gyflogwyr.

152. Roedd sefydliadau'n argymell bod y GOC yn blaenoriaethu cyfathrebu clir a gweithio mewn partneriaeth (gyda chyflogwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr CPD), yn osgoi trosglwyddo goruchwyliaeth reoleiddio i fusnesau ac yn sicrhau bod y disgwyliadau'n hyblyg, cymesur ac ymarferol i'w gweithredu ar draws gwahanol optegwyr.

153. Yn y cyfamser, roedd nifer helaeth o ymatebwyr yn dadlau mai'r unigolyn a'r rheoleiddiwr, nid y cyflogwr, ddylai barhau i fod yn bennaf gyfrifol am CPD. Dywedodd rai y byddai'n well ganddynt gadw system ragnodi, gyda rhai'n nodi bod rhagnodi gofynion yn sicrhau ymgysylltu a dysgu. Roedd rhai'n awyddus i osgoi dylanwad masnachol, cadw hunanreolaeth broffesiynol a sicrhau tegwch i gofrestreion beth bynnag oedd eu statws cyflogaeth.

154. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Mae Safonau'r GOC ar gyfer Busnesau Optegol eisoes yn cynnwys safonau priodol ar gyfer rôl busnesau mewn cefnogi eu staff i ddysgu a datblygu yn eu rolau, ac i ymarfer yn unol â safonau'r GOC. Mae ein haelodau eisoes yn cwrdd â'r gofynion hyn drwy gefnogi eu staff i adnabod eu hanghenion dysgu a rhoi cyfle i ddysgu a datblygu sy'n briodol i anghenion yr aelod o staff a'u busnes.
Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n amlinellu rhesymeg ddiymwad ynghylch pam fod angen unrhyw newidiadau mawr i'r safonau hyn. Cafodd y safonau hyn hefyd eu

diweddaru'n ddiweddar ac mae'r Llywodraeth wedi gofyn i bob rheoleiddiwr adolygu 'tâp coch' er mwyn osgoi costau pellach diangen i fusnesau. Ymddengys bod hyn yn gweithio fel arall heb dystiolaeth i'w gefnogi." (FODO)

"Ni chefnogwn fodel sy'n dibynnu ar fusnesau'n cyflawni rôl reoleiddio graidd neu sy'n cymryd yn ganiataol bod gan bawb yr un math o seilwaith.

Mae'r sector optegol yn cynnwys:
• busnesau optegol annibynnol gyda llai o gapasiti
• sefydliadau mwy gyda strwythurau hyfforddiant sefydledig
• gweithlu locwm sylweddol
• cofrestreion yn gweithio ar draws nifer o gyflogwyr

O ystyried yr amrywiadau hyn, ni fyddai defnyddio system sy'n dibynnu ar fusnesau i oruchwylio'n gyson na theg i'r proffesiwn cyfan.

Cefnogwn ddull cytbwys felly lle yr anogir busnesau i gefnogi CPD ond mae'r cyfrifoldeb yn aros yn glir gyda'r cofrestrai unigol." (Optometry Scotland)

"Gall busnesau chwarae rôl werthfawr mewn cefnogi CPD ond rhaid fframio eu cyfraniad fel ymarfer gorau, nid fel rhywbeth gorfodol, oherwydd yr amrywiadau sylweddol ar draws y sector.
Gallwn gyfrannu'n ystyrlon drwy:
• cynnig adolygiad PDP ffurfiol o ferwn y fframweithiau llywodraethu presennol,
• hwyluso trafodaethau cymorth ar sail achosion,
• archwilio achosion a dysgu o bell o lwybrau uwchgyfeirio,
• rhoi cyfle i adolygu gan gymhariaid
• darparu CPD o ganlyniad i adborth ar sail profiad y claf, digwyddiadau a data ansawdd." (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC - Defnyddio rôl busnesau yn y system CPD i gefnogi system sy'n rhagnodi llai o ofynion ar gyfer cofrestreion unigol

155. Tynnodd yr ymatebion sylw at y gwahanol ffyrdd y mae busnesau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at CPD ar hyn o bryd, ac rydym yn ddiolchgar am hyn.

156. Roedd sentiment yr ymatebion yn gyson â'r ffaith bod gan fusnesau rôl bwysig o ran cefnogi cofrestreion gyda'u dysgu a'u datblygiad ond na ddylent lywio'r CPD a gyflawnir gan gofrestreion. Fframiwyd ein cynigion mewn ffordd debyg, h.y. *'cefnogi cofrestreion i adnabod ac ateb eu hanghenion dysgu a datblygiad.* Er yn cydnabod y pryderon am ddylanwad masnachol ar gynlluniau dysgu, credwn y byddai cyflogwr cefnogol yn cymryd diddordeb brwd yn natblygiad a dysgu pob cofrestrai – byddwn felly'n fframio ein canllawiau ar sail hyn gan atgyfnerthu pwysigrwydd hunanreolaeth broffesiynol wrth ddatblygu cynlluniau PDP.

157. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod amrywiaeth y busnesau optegol yn y sector felly derbyniwn fod gan rai busnesau fwy o sgôp i gefnogi CPD nag eraill. Eto, byddwn yn adlewyrchu hyn yn ein canllawiau gan sicrhau bod ein disgwyliadau'n hyblyg, cymesur ac ymarferol i'w gweithredu ar draws gwahanol fusnesau.

158. Yn y pen draw, cyfrifoldeb yr unigolyn yw CPD ac ni ragwelwn unrhyw ganlyniadau i fusnesau os penderfynir bod CPD cofrestrai'n anfoddhaol. Fodd bynnag, fel yr adlewyrchir yn y Safonau presennol ar gyfer Busnesau Optegol, mae'n briodol i reoleiddwyr osod y disgwyliadau lleiaf sy'n ofynnol i gofrestreion busnes ar gyfer cefnogi CPD. Roedd Cwestiwn 16 yn holi am newidiadau posib i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol, felly dywedwn fwy yn y fan honno. Fel mater o gywirdeb ffeithiol, roedd yr Adolygiad Safonau yn 2024 yn canolbwyntio ar gofrestreion unigol gyda dim ond diwygiadau canlyniadol i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol. Mae'r Safonau hyn yn dyddio'n ôl i 2019 ac arhoswn yn ymrwymedig i'w hadolygu'n drylwyr.

Bod gan gofrestreion busnes gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod gan gofrestreion unigol gynllun datblygu personol diweddar (Cwestiwn 15)

C15 A ddylai fod gan gofrestreion busnes gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod gan gofrestreion unigol gynllun datblygu personol diweddar?	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylai	23.7%	24.3%	20.8%
Na ddylai	56.3%	58.8%	41.7%
Ddim yn siŵr	20.0%	16.9%	37.5%

159. Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai'r cyfrifoldeb am gynnal PDP fod gyda chofrestreion unigol, nid busnesau. Roedd llawer yn dadlau fod datblygiad personol yn gyfrifoldeb personol ac y dylid ond disgwyl i fusnesau sicrhau bod eu gweithwyr yn gofrestredig.

160. Un pryder sylweddol oedd y byddai rhoi'r cyfrifoldeb i fusnesau'n creu baich afresymol, yn enwedig i optegwyr bach a gweithwyr locwm, na fyddai efallai â'r adnoddau neu'r seilwaith i gefnogi neu fonitro cynlluniau PDP. Roedd pryder hefyd y gallai fod yn anymarferol i fusnesau fonitro cynlluniau PDP i gofrestreion sy'n gweithio ar draws gwahanol gyflogwyr neu fel gweithwyr locwm.

161. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai rhoi rôl fwy i fusnesau arwain at ragfarn fasnachol neu roi buddiannau'r busnes o flaen datblygiad proffesiynol y cofrestrai. Soniodd eraill fod gan fusnesau alwadau gweinyddol trwm arnynt yn barod ac y byddai dyblygu arfarnu neu fonitro CPD yn aneffeithlon.

162. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

“Credwn fod Safonau presennol y GOC ar gyfer Busnesau Optegol eisoes yn ddigonol drwy ei wneud yn ofynnol i fusnesau gefnogi dysgu a datblygiad eu staff, bod â system i fonitro amcanion ac anghenion hyfforddiant eu staff yn ei lle, ac i gefnogi staff i gwrdd â safonau a gofynion y GOC.

Byddai rhagnodi mwy o ofynion ar hyn yn ddiangen ac yn groes i amcanion polisi’r GOC. Pe bai’n cael ei weithredu, yn y tymor byr gallai gymell yn erbyn cael mwy o fusnesau i gofrestru gyda’r GOC.” (FODO)

“Mae’r PDP yn gynllun datblygu personol ac felly dylai fod yn bersonol. Pe bai busnesau’n cael gormod o gyfrifoldeb am gynlluniau PDP cofrestreion, byddent yn dylanwadu arnynt i gyd-fynd â gofynion y busnes, nid yr optometrydd unigol (a allai fod yn datblygu eu sgiliau i adael y cyflogwr). Bydd hyn yn clymu cofrestreion i fusnes penodol a lleihau symudedd y gweithlu, sy’n gweithio yn erbyn ansawdd gofal cleifion.” (Coleg yr Optometryddion)

“Mae optometryddion ac optegwyr cyflenwi’n weithwyr gofal iechyd proffesiynol, atebol a hunanreolaethol a dylai’r cyfrifoldeb am adnabod anghenion dysgu, cynnal PDP a chwrdd â gofynion CPD orwedd yn bendant gyda’r cofrestrai unigol. Rhaid i’r fframwaith CPD barhau i adael i gofrestreion fynd y tu allan i unrhyw PDP a gytunir â’r cyflogwr, gan gydnabod y bydd peth dysgu’n cefnogi dyheadau gyrfa neu rolau eraill yn y dyfodol ar wahân i’w cyflogaeth bresennol. Mae trosglwyddo’r cyfrifoldeb ffurfiol am fod yn berchen ar PDP i fusnesau’n creu risg o danseilio’r atebolrwydd proffesiynol hwn.” (Darparwr CPD)

“Dylai’r cyfrifoldeb am CPD, gan gynnwys cynllunio datblygu, aros gyda’r cofrestrai unigol fel rhan o’u rhwymedigaethau proffesiynol. Mae cyflwyno gofyniad ffurfiol i fusnesau’n creu risg o gymylu atebolrwydd a chreu anghysondeb mewn sut y cymhwysir ac y gorfodir cyfrifoldebau.

Mae strwythur y gweithlu optegol yn golygu bod llawer o gofrestreion:
• yn gweithio ar draws nifer o gyflogwyr
• yn weithwyr locwm
•yn gweithio mewn lleoliadau heb system arfarnu ffurfiol

Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai’n ymarferol na’n deg rhoi’r cyfrifoldeb ar fusnes i sicrhau bod PDP yn ei le ac yn cael ei gynnal.” (Optometry Scotland)

Ymateb y GOC – Bod gan gofrestreion busnes cyfrifoldeb penodol i sicrhau bod gan gofrestreion unigol gynllun datblygu personol diweddar / Sut y gellir cryfhau’r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol i helpu i gyflawni’r canlyniad hwn

163. Roedd yr adborth ar y cwestiwn hwn yn gyson â'r ymatebion i Gwestiwn 15 yn nodi pryderon am hunanreolaeth broffesiynol, rhagfarn fasnachol, rôl busnesau yn y system CPD a rhoi mwy o faich ar fusnesau.

164. Roedd ein cynigion wedi eu cyfyngu i fusnesau'n gwirio a oedd PDP wedi'i gwblhau ac ni fyddent wedi caniatáu i fusnesau benderfynu pa CPD i'w wneud gan gofrestreion. Er hynny, derbyniwn y pryderon na ddylid disgwyl i fusnesau blismona ein system CPD felly ni fyddwn yn symud ymlaen gyda'r cynnig hwn. Fel y nodwn yn ein hymateb i'r cwestiwn blaenorol, bydd ein canllawiau'n atgyfnerthu pwysigrwydd hunanreolaeth broffesiynol wrth ddatblygu PDP.

165. Yn ein hymateb i Gwestiwn 5, cadarnhawyd y bydd cynlluniau PDP yn aros yn rhan annatod o'r system CPD. Os na fydd busnesau'n gwirio a gafodd PDP ei gwblhau neu beidio, mae angen ffordd arall arnom i'n sicrhau bod cofrestreion unigol yn creu a chynnal eu PDP. Fel y nodwn yn flaenorol, cyflwynwyd templed PDP safonedig ar ddechrau cylch 2025-27 a bwriadwn adeiladu ar y dull hwn, gyda chanllawiau ymarferol ategol.

Cryfhau'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol (Cwestiwn 16)

166. Ni ofynnwyd i ymatebwyr ddewis opsiynau ateb ar gyfer Cwestiwn 16 felly nid oes unrhyw ddadansoddiad meintiol yn y rhan yma o'r ddogfen ymateb.

167. Thema bwysig oedd pryderon am gynyddu'r baich rheoleiddio ar fusnesau, yn enwedig ar fusnesau llai. Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau bod busnesau'n gwneud digon yn barod i gefnogi CPD ac y gallai gofyn mwy fod yn anymarferol neu annheg. Roedd pryder hefyd y gallai trosglwyddo'r cyfrifoldeb i fusnesau danseilio hunanreolaeth broffesiynol a chreu annhegwch i rai mewn rolau di-draddodiadol.

168. Fodd bynnag, roedd llawer o blaid cryfhau'r safonau drwy wneud busnesau'n fwy atebol am gefnogi CPD cofrestreion. Roedd awgrymiadau'n cynnwys gofyn bod busnesau'n rhoi amser, adnoddau a chymorth i weithgareddau CPD. Galwodd rai am ganllawiau cliriach, monitro a dulliau atebolrwydd, fel archwiliadau, sancsiynau neu lwybrau adrodd ar gyfer cofrestreion.

169. Yn fyr, roedd yr ymatebion wedi eu rhannu rhwng rhai sydd eisiau gweld busnesau'n dod yn fwy atebol am gefnogi CPD, a rhai sy'n ofni cynyddu'r baich neu golli hunanreolaeth broffesiynol. Galwodd lawer am ganllawiau cliriach, bod yn gymesur, a chymorth ymarferol, ond roedd lleiafrif sylweddol yn cwestiynu'r angen am newid pellach neu rôl i fusnesau o gwbl.

170. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Barn Optometry Scotland yw y dylai unrhyw newid i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol ganolbwyntio ar atgyfnerthu ymarfer da mewn cefnogi datblygiad proffesiynol, yn lle rhagnodi gofynion neu orfodi gofynion yn gysylltiedig â chofrestreion yn cydymffurfio â CPD neu beidio.

Mae'r safonau presennol eisoes yn cydnabod pwysigrwydd creu amgylchedd sy'n cefnogi staff i ddysgu a datblygu. Byddem o blaid adeiladu ar hyn drwy ddarparu mwy o eglurder a phwyslais ar sail canllawiau, yn hytrach na thrwy fwy o rwymedigaethau rheoleiddio." (Optometry Scotland)

"Mae gwahaniaeth ystyrlon a phwysig rhwng cyflogwr yn cefnogi datblygiad cofrestrai a chyflogwr yn ei gyfarwyddo neu'n ei reoli. Byddai ymestyn safonau busnes i lywodraethu CPD unigolion yn creu risg o gymylu'r ffin rhwng y ddau beth. Nid cyfrifoldeb annibynnol y cyflogwr yw barnu cymhwysedd proffesiynol; mae ganddynt fuddiannau masnachol sydd weithiau'n anghyson ag anghenion datblygu ehangach y cofrestrai, neu fudd y cyhoedd. Rhaid i oruchwyliaeth o CPD aros gyda'r GOC a'r proffesiwn, nid cael ei ddirprwyo i'r amgylchedd busnes." (Coleg yr Optometryddion)

"Mae'r cynnig i ddiwygio'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol i roi mwy o rôl i gyflogwyr gyda chefnogi CPD yn cydnabod bod busnesau'n aml yn gweithio'n agos gyda chofrestreion ac yn gallu adnabod anghenion datblygu.

Fodd bynnag, fel y soniwn uchod, gallai'r newid hwn greu heriau sylweddol i optegwyr bach ac annibynnol a allai fod â llai o gapasiti gweinyddol a llai o adnoddau o'i gymharu â darparwyr corfforaethol mawr.

Mae ehangu cyfrifoldebau busnesau ar hyn yn creu risg o roi pwysau anghymesur ar y sefydliadau llai hyn, gan efallai greu bwlch rhwng darparwyr annibynnol bach a rhai mawr corfforaethol. Heb gymorth ariannol neu ganllawiau i fusnesau, gallai'r newidiadau sydd mewn golwg greu anfantais anfwriadol i ddarparwyr bach." (Optometreg Cymru)

Ymateb y GOC – Sut y gellir cryfhau'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

171. Rydym yn ddiolchgar am yr awgrymiadau a dderbyniwyd, fydd yn ein helpu i adnabod a oes angen unrhyw newid i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach pan ddechreuwn adolygu'r safonau a byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar unrhyw newid arfaethedig.

172. Gwerthfawrogwn y gwahaniaeth rhwng cyflogwr yn cefnogi datblygiad cofrestrai a chyflogwr yn ei gyfarwyddo neu'n ei reoli. Mae ffocws y safonau presennol ar y naill a bydd hyn yn parhau i ddigwydd. Hefyd, os bydd cyfle i wella ein dull yn cael ei adnabod, byddwn yn ystyried yn ofalus ai drwy'r safonau neu ganllawiau CPD fyddai'r ffordd orau o wneud hyn.

Ymgorffori adborth cleifion yn y system CPD (Cwestiwn 17)

173. Ni ofynnwyd i ymatebwyr ddewis opsiynau ateb ar gyfer Cwestiwn 17 felly nid oes dadansoddiad meintiol yn y rhan yma o'r ddogfen ymateb.

174. Roedd cefnogaeth i ddefnyddio adborth cleifion fel mewnbwn gwerthfawr posib i CPD ond fel gofyniad gorfodol neu orfodol, gydag ymatebwyr yn lleisio pryderon am ba mor berthnasol, dibynadwy ac ymarferol fyddai. Roedd llawer yn dadlau nad yw cleifion yn deall rolau proffesiynol a chymhwysedd clinigol a allai arwain at adborth goddrychol, rhagfarnllyd neu ddi-fudd. Tynnodd rai sylw at y drafferth o gasglu adborth ystyrlon gan gleifion, gyda chyfraddau ymateb isel a'r duedd mai dim ond cleifion anfodlon sy'n rhoi adborth.

175. Pryder a leisiwyd droeon oedd na all pob cofrestrai gasglu adborth cleifion (gweithwyr locwm, optegwyr bach / annibynnol gyda llai o seilwaith, clinigwyr hunangyflogedig a rhai heb gyswllt â'r cyhoedd) ac y byddai ei wneud yn orfodol yn creu annhegwch a disgwyliadau anghyson.

176. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Byddem yn croesawu annog cofrestreion i gasglu a myfyrio ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'w helpu i gynllunio eu datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag dylid cydnabod nad yw pob cofrestrai GOC yn gallu cyflawni ymarfer clinigol gyda chleifion ac na fydd pawb sy'n ei gyflawni efallai'n gallu casglu adborth. Er enghraifft, gallai fod yn anoddach i locwm gasglu adborth gan gleifion ac na fyddai'n berthnasol i gofrestrai GOC sydd ond yn gweithio mewn academia neu weithgynhyrchu. Felly er bod yr adborth yma i'w ddymuno ac i'w annog, ni chredwn y dylai fod yn rhan orfodol o'r cynllun." (ABDO)

"Dylai adborth cleifion oleuo CPD os yw ar gael ond ni ddylai fod yn orfodol oherwydd mynediad anghyfartal ato. Dylid ei ymgorffori fel ffynhonnell ddysgu werthfawr, ei ddefnyddio'n hyblyg a chymesur yn hytrach na'i wneud yn orfodol ofynnol i bob cofrestrai." (Darparwr CPD)

"Ni ddylid ei gynnwys. Mae cleifion fel arfer yn rhoi adborth ar sail gwasanaeth cwsmer yn hytrach nag ymarfer proffesiynol." (Pwyllgor Optegol Lleol Bexley, Bromley a Greenwich)

"Dylai adborth cleifion oleuo'r CPD os yw ar gael. Er enghraifft, gellid defnyddio cwynion cleifion i gyflawni math neilltuol o CPD. Gellid ei ymgorffori fel ffynhonnell ddysgu werthfawr, ei ddefnyddio'n hyblyg a chymesur yn hytrach na'i wneud yn orfodol ofynnol i bob cofrestrai. Nid oes gan lawer o weithwyr locwm ac optegwyr bach system ffurfiol o gasglu adborth. Byddai ei wneud yn orfodol yn creu annhegwch." (Ymatebwr dienw)

Ymateb y GOC - Ymgorffori adborth cleifion yn y system CPD

177. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i ymgorffori adborth gan gleifion mewn CPD, sy'n elfen ar goll o'r system bresennol yn ein barn ni.

178. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi: *"ni chynigiwn ragnodi gofynion am ddulliau ymgysylltu ond byddem yn defnyddio canllawiau i annog busnesau i ddefnyddio adborth cleifion fel un ffordd o gefnogi cofrestreion i barhau i wella'r gofal a roddir i gleifion."*

179. Felly mae ein cynnig yn gyson ag adborth yr ymgynghoriad o weld adborth cleifion fel dull ymarfer da'n hytrach na rhywbeth sy'n orfodol ofynnol. Byddwn yn cynnwys hyn yn ein canllawiau cyn dechrau cylch CPD 2028-30.

5. Canfyddiadau ar roi'r gorau i gymeradwyo ac archwilio darparwyr CPD

Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid

180. Ar draws y digwyddiadau rhanddeiliaid, teimlai llawer fod rhyw fath o reoleiddio neu oruchwyliaeth o ddarparwyr CPD yn parhau i fod yn bwysig i gynnal ansawdd, cysondeb a hyder yn y system. Roedd cyfranogwyr yn poeni y gallai rhoi'r gorau i reoleiddio darparwyr yn llwyr greu sefyllfa fwy ddidrefn, gan ei gwneud yn anoddach cymharu ansawdd, atal ymarfer gwael a gwarchod rhag dylanwad masnachol amhriodol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig yn y sector optegol, lle y gallai'r amgylchedd masnachol greu risg bod CPD yn dod yn fwy hyrwyddol nac addysgol pe bai'r rhagofalon yn cael eu gwanhau.

181. Roedd eraill o blaid system fwy anffurfiol neu gymesur yn lle dadreoleiddio llawn, gan ddadlau bod gwerth i gymeradwyo ond y gallai fod yn symlach, llai ailadroddus a llai beichus. Roedd awgrymiadau'n cynnwys dibynnu mwy ar adborth cyfranogwyr, mabwysiadu ceisiadau blynyddol yn hytrach na gwneud cais bob tro, gan greu gwahanol lefelau o statws darparwr a rhoi mwy o hyblygrwydd o ran sut a phryd y maent yn cael eu hasesu. Nododd gyfranogwyr hefyd y gall adborth gan gymeradwywyr helpu i wella darpariaeth, er y dywedodd rai fod y broses yn straen ac yn gor-ganolbwyntio ar y geiriad, ac yn anoddach i sefydliadau llai neu grwpiau lleol nag i ddarparwyr mwy.

182. Er bod rhai cyfranogwyr yn wyliadwrus o roi gormod o ddylanwad dros gynnwys CPD i gyflogwyr neu weithgynhyrchwyr, roedd eraill yn cydnabod bod darparwyr masnachol mwy'n aml yn darparu dysgu o ansawdd uchel a bod gweithgynhyrchwyr eisoes yn rhan bwysig o'r system. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y gallai diwygio ehangu'r farchnad a rhoi mwy o hyblygrwydd, fel y gallai mwy o ymarferwyr neu grwpiau bach gynnig CPD, er dim ond pe bai rhagofalon addas yn aros. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn awgrymu parodrwydd pwyllog i dderbyn diwygio ond gan ddiogelu sicrwydd ansawdd, tryloywder a hyder y cyhoedd drwy gynnal rhyw fath o oruchwyliaeth.

Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad

183. Mae crynodeb o adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar bob cwestiwn a ofynnwyd ynghylch rhoi'r gorau i gymeradwyo ac archwilio darparwyr CPD rŵan yn dilyn.

184. O ran y cynnig yng Nghwestiwn 18 (rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD), byddai angen newid Rheolau CPD 2021. Mae Cwestiynau 19 a 21 yn ymwneud â newidiadau a allai gael eu gwneud o dan Reolau CPD 2021 a gellid felly eu cyflwyno ar unrhyw adeg. Yn wahanol i'r cwestiynau yn rhan 1, nid oes raid i unrhyw newidiadau gyd-ddigwydd â dechrau cylch CPD 2028-30, er y gallai fod manteision i gydlynu newidiadau er mwyn lleihau'r risg o achosi dryswch i randdeiliaid.

Ystyried rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD (Cwestiwn 18)

C18 [A ddylem ystyried rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	32.5%	30.6%	42.3%
Na ddylid	42.5%	44.0%	34.6%
Ddim yn siŵr	25.0%	25.4%	23.1%

185. Pwysleisiodd lawer o'r ymatebwyr ba mor bwysig oedd parhau i gymeradwyo darparwyr CPD fel ffordd o sicrhau ansawdd, cysondeb a pherthnasedd gweithgareddau CPD. Teimlai lawer y gallai rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr arwain at ormod o CPD o ansawdd isel, anghyson neu gyda rhagfarn fasnachol, a bod angen rhyw fath o oruchwyliaeth neu safonau gofynnol i gynnal ymddiriedaeth a gwarchod cofrestreion rhag dysgu is-safonol.

186. Er hynny roedd nifer helaeth o ymatebwyr wedi beirniadu'r broses gymeradwyo bresennol a'i bod yn rhy gymhleth, biwrocrataidd ac yn atal mynediad i ddarparwyr llai neu newydd. Awgrymodd nifer y dylid symleiddio'r broses neu ei gwneud yn llai beichus, gyda rhai'n cynnig system fwy anffurfiol neu ffocws ar ganlyniadau'n hytrach na statws y darparwr.

187. Dadleuodd rai y gallai grymoedd marchnad a rhoi dewis i gofrestreion sicrhau ansawdd heb broses gymeradwyo ffurfiol, yn enwedig o gofio'r cyfraddau boddhad uchel presennol. Roedd eraill yn dadlau nad yw boddhad cofrestreion o reidrwydd yn golygu ansawdd addysgol oherwydd y gall dewisiadau fod oherwydd hwylustod yn hytrach na safonau.

188. Ar y cyfan, y neges gan ymatebwyr oedd peidio â rhoi'r gorau i, na chadw, cymeradwyo ond bod angen cynnal hyder yn ansawdd CPD. Pe bai cymeradwyo darparwyr yn dod i ben, roedd ymatebwyr am weld y rheoleiddiwr yn darparu safonau clir, canllawiau cryf, tryloywder ar ddylanwad masnachol, a dulliau monitro / adborth cymesur yn ei le, a'u cyflwyno gyda digon o amser i bontio. Os penderfynnir cadw cymeradwyo, roedd llawer dal o blaid symleiddio a lleihau dyblygu ond gan gryfhau sicrhau ansawdd.

189. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Ni chawsom ein darbwyllo y dylid rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD heb ffordd arall glir a diffiniedig o sicrhau ansawdd.

Mae'r system bresennol yn rhoi sicrwydd i gofrestreion bod gweithgareddau CPD yn cwrdd â safon ddisgwyliedig. Byddai cael gwared ar hyn yn llwyr yn creu risg o berthnasedd ac ansawdd CPD amrywiol, yn enwedig mewn system fwy hyblyg sy'n rhoi mwy o hunanreolaeth i gofrestreion i ddewis eu gweithgareddau dysgu." (Optometry Scotland)

“Noda’r ymgynghoriad mai’r GOC ar hyn o bryd yw’r unig reoleiddiwr iechyd yn y DU sy’n archwilio darparwyr CPD. Nid yw’n awgrymu unrhyw ddiffyg ond yn hytrach yn adlewyrchu lefel uwch o oruchwyliaeth reoleiddio gyda’r GOC efallai’n gosod meincnod ar gyfer ymarfer gorau ymhlith rheoleiddwyr. Atgyfnerthir hyn ymhellach gan ganfyddiadau’r GOC ei hun bod cofrestreion yn fodlon iawn gyda’r ddarpariaeth CPD bresennol.” (Optometreg Cymru)

“Cefnogwn y bwriad i symud i ffwrdd o gymeradwyo darparwyr CPD fel rhan o fodel CPD fwy hyblyg, seiliedig ar ganlyniadau. Gallai’r dull hwn adlewyrchu dysgu proffesiynol mwy modern, hwyluso ystod ehangach o weithgareddau addysgol, a chyd-fynd â dulliau a ddefnyddir mewn proffesiynau gofal iechyd eraill.

Fodd bynnag, ni chredwn fod digon o ddulliau sicrhau ansawdd eraill wedi cael eu diffinio eto i gefnogi cael gwared yn ddiogel ar gymeradwyo darparwyr. Mae adborth ar draws y sector yn nodi pryderon clir am sut y bydd ansawdd CPD yn cael ei sicrhau, yn enwedig heb safonau clir, canllawiau cyson a disgwyliadau archwilio wedi eu diffinio. Fel rhan o’i gyfrifoldebau i warchod y cyhoedd, rhaid i unrhyw reoleiddiwr sicrhau ei hun bod CPD o ansawdd uchel yn digwydd. Rhaid i’r GOC sicrhau ei hun nad yw’r newidiadau hyn yn creu amgylchiadau a allai gynyddu CPD o ansawdd gwael.” (Cymdeithas yr Optometryddion)

“Mae’r fframwaith presennol ar gyfer cymeradwyo darparwyr CPD yn cynnig lefel sylfaenol bwysig o sicrhau ansawdd i gofrestreion, cyflogwyr a’r cyhoedd. Mae statws darparwr cymeradwy’n rhoi hyder bod y ddarpariaeth CPD yn cwrdd â safonau diffinedig o ran ansawdd addysgol, perthnasedd i ymarfer proffesiynol, dyluniad dysgu priodol, cydbwysedd a rheoli unrhyw ddylanwad masnachol. Fel cyflogwyr, gwelwn werth clir mewn system sy’n rhoi sicrwydd ar y dechrau ac sy’n lleihau’r baich ar gofrestreion unigol i farnu ansawdd ac annibyniaeth y ddarpariaeth CPD heb gymorth.

Pryderwn yn arbennig y gallai gwneud i ffwrdd â chymeradwyo darparwyr ei gwneud yn anoddach i gofrestreion wahaniaethu rhwng cynnwys addysgol o ansawdd uchel a deunydd sy’n hyrwyddol, gyda ffocws cul, neu’n anghyson â Safonau Ymarfer y GOC. Mae’r risg yma’n uwch mewn sector optegol lle y mae cyfran helaeth o CPD yn cael ei ddarparu gan sefydliadau masnachol, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr, a lle y mae cofrestreion eisoes efallai dan bwysau masnachol mewn amgylchedd manwerthu. Heb fframwaith gymeradwyo gallai cofrestreion – yn enwedig yn gynharach yn eu gyrfa neu gyda llai o hyder i gynllunio CPD hunangyfeiriedig – gael trafferth adnabod yn gyson pa ddysgu a fyddai’n cwrdd â disgwyliadau rheoleiddio.” (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – Ystyried rhoi'r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD

190. Ar y cyfan, roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eithaf cyfartal, gyda mwy o sefydliadau'n tueddu i fod o blaid rhoi'r gorau i gymeradwyo ond mwy o unigolion yn awyddus i'w gadw. Roedd llawer yn niwtral o ran safiad.

191. Roedd rhai'n awyddus i gwrdd yn y canol lle y gallai dulliau sicrwydd eraill fel safonau ac archwilio ddisodli'r broses o gymeradwyo darparwyr CPD. Fodd bynnag, heb y GOC yn cymeradwyo (a gallu digymeradwyo) darparwyr CPD, ni fyddai safonau'n orfodol ac ni fyddai sail i ni wneud archwiliadau. Felly ar y mater hwn mae angen i ni wneud dewis clir.

192. Mae'r angen i gymeradwyo darparwyr CPD wedi'i gysylltu'n rhannol i'r system bwyntiau oherwydd rhoddir mwy o bwyntiau am CPD drwy ddarparwr a gymeradwywyd gan y GOC. Ond mae'r ddadl hon yn disgyn heb system bwyntiau ac os yw CPD drwy ddarparwr yn cymryd ei le ochr yn ochr ag ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi dysgu.

193. Cawsom ein darbwyllo gan y ddadl y dylai grymoedd marchnad a dewis i gofrestreion sicrhau ansawdd heb gymeradwyaeth y GOC. Mae rhwydweithio'n elfen gref o'r gymuned gofrestreion a bydd cyflogwyr yn parhau i gael dylanwad fel prynwyr mawr arbenigol o CPD. Ni ddylai darparwyr CPD sy'n cael enw drwg am ddarparu CPD gwael ddisgwyl goroesi yn yr amgylchedd hwn. Dylai dadreoleiddio hefyd leihau'r rhwystrau mynediad i ddarparwyr CPD llai gan felly wella amrywiaeth y ddarpariaeth CPD sydd ar gael i gofrestreion.

194. Mae GOC yn eithriad ymhlith rheoleiddwyr gwasanaethau gofal iechyd a phroffesiynol eraill o ran cymeradwyo darparwyr CPD. Deallwn nad yw sectorau eraill yn gweld CPD o ansawdd gwael fel problem heb gymeradwyo drwy reoleiddio ac ni wyddom am unrhyw reoleiddwyr eraill sy'n ystyried cyflwyno neu adfer system o'r fath. O gofio ein hadolygiad thematig o optegwyr masnachol a diogelwch cleifion, rydym yn ymwybodol o bryderon am ddylanwad masnachol amhriodol ar CPD. Fodd bynnag, mae actorion masnachol yn darparu CPD mewn nifer o leoliadau gofal iechyd, felly nid yw hyn yn unigryw i ofal llygad. Mae'r GOC yn lliniaru'r risg o ddylanwad masnachol amhriodol drwy gymeradwyo cynnwys deg digwyddiad cyntaf y darparwr CPD ond, ar ôl cymeradwyo, gall y darparwr ddarparu unrhyw weithgaredd CPD o'u dewis. Felly ni ddylid gorbwysleisio i ba raddau y mae cymeradwyo darparwyr CPD yn lliniaru'r risg o ddylanwad masnachol ac mae datrys problemau'n ymwneud ag optegwyr gofal llygad masnachol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ddarpariaeth CPD.

195. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth ar y broses gymeradwyo bresennol. Byddai lleihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwr symud o gymeradwyaeth dros dro i statws cymeradwy llawn yn helpu i leihau rhwystrau i fynediad ar gyfer darparwyr llai (Cwestiwn 19 isod). Yn y cyfamser, byddwn yn cyflawni adolygiad mewnol i weld a oes cyfle i symleiddio'r prosesau.

Lleihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwr symud o gymeradwyaeth dros dro i statws cymeradwy llawn (Cwestiwn 19)

C19 [A ddylem leihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwr symud o gymeradwyaeth dros dro i statws cymeradwy llawn?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	46.2%	44.0%	58.3%
Na ddylid	22.1%	20.1%	33.3%
Ddim yn siŵr	31.6%	35.8%	8.3%

196. Roedd gwahaniaeth barn clir rhwng rhai sy'n credu bod angen y gofynion presennol i gynnal safonau ac ansawdd, a rhai a deimlai fod y broses yn rhy feichus, yn enwedig i ddarparwyr bach neu newydd. Awgrymodd nifer ostwng y trothwy ar gyfer cymeradwyo i gefnogi arloesi a darparwyr llai.

197. Ymhlith y rhai oedd o blaid gostwng y trothwy, roedd eu pwyntiau'n cynnwys: helpu darparwyr llai neu arbenigol i ymuno â'r farchnad; lleihau baich gweinyddol; symud i ffwrdd o nifer benodol o ddigwyddiadau a barnu cynnydd yn ôl ansawdd a chysondeb y cyflwyniadau; a symleiddio'r broses o gymeradwyo darparwyr oherwydd bod digwyddiadau'n cael eu cymeradwyo beth bynnag.

198. Roedd pwyntiau'r rhai oedd yn erbyn gostwng yn cynnwys: mae cymeradwyo nifer o ddigwyddiadau'n helpu i ddangos y gall darparwr ddarparu CPD o ansawdd uchel yn gyson; gallai lleihau nifer y digwyddiadau olygu bod darparwyr yn ennill statws cymeradwy llawn cyn profi eu bod yn ddibynadwy; a bod angen safonau a chanllawiau cliriach ac adborth i gwrdd ag unrhyw anghysondeb â disgwyliadau.

199. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn amodol agored i leihau'r nifer lle'r oedd hynny'n dileu rhwystrau diangen, ond dim ond law yn llaw â mwy o eglurder, cymorth a / neu ragofalon eraill i warchod ansawdd addysgol. Lle'r oedd ymatebwyr yn erbyn newid, y brif neges oedd y dylid cryfhau sicrwydd yn gyntaf gan ddefnyddio safonau cliriach ac adborth gwell cyn gostwng unrhyw drothwy cymeradwyo.

200. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Os bydd cymeradwyo darparwyr yn parhau, byddem yn agored i leihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo i ddarparwr symud o statws cymeradwyo dros dro i statws llawn, os cefnogir hyn gan brofiad gweithredol y GOC ac nid yw'n newid y safon gymeradwyo sylfaenol. Byddai penderfynu cael

llai na 10 o gyflwyniadau llwyddiannus yn gam doeth cyn belled ag y gallai cymeradwywyr benderfynu'n rhesymol bod darparwr dros dro'n cwrdd yn gyson â'r safon sy'n ofynnol." (Cymdeithas yr Optometryddion)

"Er yn cydnabod a chytuno mwy neu lai â chyfeiriad hirdymor dywededig y GOC tuag at fodel CPD seiliedig ar ganlyniadau, gyda mwy o bwyslais ar roi hunanreolaeth i gofrestreion a dysgu hunangyfeiriedig, noda'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad fod sicrhau ansawdd yn y cam cymeradwyo dros dro'n parhau i fod yn angenrheidiol a pherthnasol ar y pwynt hwn yn esblygiad y system. Byddai lleihau nifer y digwyddiadau sydd angen eu cymeradwyo i ddangos cynnydd yn creu risg o wanhau porth rheoli ansawdd pwysig cyn i ragofalon eraill sefydlu'n iawn." (Darparwr CPD)

"Gallai'r trothwy presennol fod yn rhwystr i fynediad, yn enwedig i ddarparwyr llai a mwy arbenigol. Gallai lleihau'r gofyniad hwn ehangu'r ystod o ddarpariaeth CPD sydd ar gael a gwella hygyrchedd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig o hyd bod lefel briodol o sicrhau ansawdd yn cael ei chynnal.
Dylai unrhyw leihad sicrhau bod darparwyr:
• yn dangos dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r GOC
• yn gallu darparu CPD perthnasol a phriodol
• yn cwrdd â safon gyson cyn ennill statws cymeradwyo llawn

Felly cefnogwn ddull cymesur sy'n lleihau'r rhwystrau ond sydd er hynny'n cadw digon o oruchwyliaeth i gynnal hyder yn ansawdd y ddarpariaeth." (Optometry Scotland)

Ymateb y GOC – Lleihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwr symud o gymeradwyaeth dros dro i statws cymeradwy llawn

201. Roedd cefnogaeth gan unigolion a sefydliadau ar y pwynt hwn. Pe bai cymeradwyo darparwyr CPD yn dod i ben, byddai lleihau nifer y digwyddiadau CPD sydd angen eu cymeradwyo cyn y gall darparwr symud o gymeradwyaeth dros dro i statws cymeradwy llawn yn cynorthwyo'r pontio hwn. Dylai newidiadau ar y pwynt hwn gefnogi darparwyr CPD llai ac annog arloesi.

202. Roedd yr adborth yn glir na ddylid gostwng y safon gymeradwyo yr aseswn ansawdd CPD yn ei herbyn, a gallwn gadarnhau hynny. Yn gyffredinol felly, yn unol ag adborth gan Optometry Scotland, byddwn yn lleihau rhwystrau ond yn cadw digon o oruchwyliaeth i gynnal hyder yn ansawdd y ddarpariaeth.

203. O dan y system bresennol, rhaid i ni gymeradwyo deg digwyddiad CPD gwahanol cyn y gall darparwr CPD symud o statws cymeradwy dros dro i statws llawn. Mae hyn yn rhwystro mynediad i ddarparwyr CPD llai neu elusennau gyda ffocws ar ganlyniadau dysgu penodol, felly bwriadwn roi'r gorau i wneud hyn.

Rhoi'r gorau'n raddol i archwilio darparwyr CPD dros gylch 2028-30 (Cwestiwn 20)

C20 [A ddylem roi'r gorau'n raddol i archwilio darparwyr CPD dros gylch 2028-30?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	36.7%	36.4%	38.5%
Na ddylid	36.1%	36.4%	34.6%
Ddim yn siŵr	27.2%	27.3%	26.9%

204. At ei gilydd, roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg gyda thuedd i gefnogi'n amodol yn hytrach na chytuno'n llwyr. Er bod rhai rhanddeiliaid yn cytuno â'r cyfeiriad o leihau'r baich rheoleiddio, pwysleisiodd y rhan fwyaf fod angen rhagofalon cadarn eraill yn eu lle cyn rhoi'r gorau i archwilio.

205. Mae pryderon y gallai gwneud i ffwrdd ag archwilio cyn pryd leihau goruchwyliaeth o ansawdd CPD, gwneud y ddarpariaeth yn fwy amrywiol a chreu risg o ragfarn fasnachol neu CPD gwael. Awgrymwyd y dylid ond rhoi'r gorau'n raddol i archwilio drwy gyflwyno rhagofalon clir ac effeithiol yn eu lle gan gynnwys dulliau (systemau adborth) ar gyfer adrodd pryderon (gan gofrestreion, cyflogwyr neu optegwyr) a monitro darparwyr sy'n tanberfformio.

206. Y farn gyffredinol oedd cefnogaeth gref i gadw rhyw fath o archwilio neu oruchwyliaeth i sicrhau ansawdd CPD a gwarchod y cyhoedd, gyda rhai'n agored i leihau baich gweinyddol, neu ba mor aml y cynhelir, archwiliadau.

207. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Mae archwilio darparwyr CPD yn ffordd bwysig i gynnal a sicrhau ansawdd o fewn y system CPD. Byddai gwneud i ffwrdd yn raddol ag archwilio'n lleihau'r oruchwyliaeth o CPD yn sylweddol a gallai safonau ddirywio'n ddisylw dros amser. Mae archwiliadau hefyd yn gyfle i'r rheoleiddiwr adnabod sut i wella darpariaeth CPD a sicrhau bod darparwyr yn glynu wrth y safonau sy'n ofynnol. O gofio rôl ganolog CPD mewn cynnal cymhwysedd proffesiynol a diogelu cleifion, gallai gwneud i ffwrdd â'r math yma o oruchwyliaeth fod yn gynamserol a chyflwyno risg." (Optometrydd Rhagnodi Therapiwtig)

"Cefnogwn wneud i ffwrdd yn raddol ag archwilio darparwyr CPD dros 2028–30 mewn egwyddor, ond rhaid cael rhagofalon eraill yn eu lle'n gyntaf. Byddai gwneud i ffwrdd ag archwilio heb fframwaith clir yn ei le'n creu risg o ansawdd CPD anghyson, mwy o ragfarn fasnachol a llai o hyder yn y system." (Cymdeithas yr Optometryddion)

“Ni allwn gefnogi gwneud i ffwrdd yn raddol ag archwilio darparwyr dros gylch 2028–30. Gallai dod ag archwilio i ben greu risg bod rhai darparwyr yn darparu CPD o ansawdd gwael, hyrwyddol neu ragfarn fasnachol.

Fodd bynnag, byddem o blaid newid yn y cyfeiriad hwn pe bai prosesau’n cael eu rhoi yn eu lle i ddelio gyda CPD sydd:
• yn addysgol wael,
• wedi’i yrru’n fasnachol yn hytrach na bod yn glinigol berthnasol, neu
• yn anghyson â disgwyliadau dysgu’r GOC.

Gallai’r broses yma gael ei hwyluso drwy gasglu adborth gan gofrestreion a chyflogwyr ac adrodd i’r GOC drwy ddull adborth dynodedig lle y byddai cofrestreion yn cyflwyno eu pryderon yn syth i’r GOC. Gallai hyn fod yn rhwyd ddiogelwch gan sicrhau bod y GOC yn cadw llygad ar broblemau newydd yn y farchnad CPD heb ail-gyflwyno archwilio llawn.” (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC - Rhoi’r gorau’n raddol i archwilio darparwyr CPD dros gylch 2028-30

208. Byddai llai o archwiliadau o ddarparwyr CPD yn cefnogi pontio’n raddol at ein cynlluniau i roi’r gorau i gymeradwyo darparwyr CPD yn y pen draw. Gofynnodd ymatebwyr am gyflwyno systemau i ddelio gyda darpariaeth wael cyn lleihau nifer yr archwiliadau, gan gynnwys adolygiadau targed yn dilyn adborth ar ddigwyddiad a dulliau i gofrestreion godi pryderon am ddarparwyr CPD. Mae’r ddau’n rhan o’n dull presennol o reoleiddio darparwyr CPD a bwriadwn eu cadw.

209. Mae adborth ar ddarparwr yn dilyn pob digwyddiad yn wahanol i leisio pryder am ddarparwr i’r GOC ac mae gennym systemau sefydledig i wneud hyn. Byddai pryderon yn rhai am faterion ar wahân i gynnwys cyffredinol, cyflwyniad a defnyddioldeb y sesiwn CPD, ac yn fwy nad yw ein safonau efallai’n cael eu cwrdd. Rhoddir mwy o fanylion am sut i leisio pryderon am ddarparwyr CPD a gymeradwywyd gan y GOC ar ein gwefan yma.

Tynnu’n ôl o Safonau’r GOC ar gyfer Darparwyr CPD (Cwestiwn 21)

C21 [A ddylem dynnu’n ôl o Safonau’r GOC ar gyfer Darparwyr CPD?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Dylid	17.2%	15.3%	26.9%
Na ddylid	66.2%	67.2%	61.5%
Ddim yn siŵr	16.6%	17.6%	11.5%

210. Pwysleisiodd nifer o’r ymatebwyr fod cael safonau ar gyfer darparwyr CPD yn bwysig ac yn hanfodol i gynnal ansawdd, cysondeb a pherthnasedd proffesiynol gweithgareddau CPD. Dywedodd lawer fod safonau’n rhoi disgwyliadau clir i ddarparwyr a thawelwch meddwl i gofrestreion bod CPD yn cwrdd â safonau

proffesiynol priodol. Roedd nifer wedi nodi'n glir y gallai system heb safonau greu risg o ansawdd is neu "ras i'r gwaelod".

211. Galwodd rai am fwy o hyblygrwydd yn y safonau, gyda rhai'n awgrymu eu bod yn rhy haearnaidd neu gyfyngus ar hyn o bryd a allai atal creadigrwydd a sgôp CPD. Cynigiodd rai y gallai'r safonau fod yn fwy o argymhelliad, gyda hap-archwiliadau, ac nid yn ofyniad llym. Awgrymodd rai hefyd fod angen diweddaru'r safonau, yn enwedig i adlewyrchu meysydd anghlinigol fel arweinyddiaeth a chyfathrebu'n well.

212. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Byddem yn agored i dynnu'n ôl o Safonau'r GOC ar gyfer Darparwyr CPD, ond dim ond pe bai egwyddorion ansawdd clir a chyhoeddedig a rhagofalon ymarferol yn eu lle fel bod gan ddarparwyr, cofrestreion ac archwilwyr ddealltwriaeth gytûn o beth yw CPD da. Heb y trefniadau amgen hyn, gallai tynnu'n ôl o'r safonau greu risg o gynyddu anghysondeb a lleihau hyder yn ansawdd y ddarpariaeth CPD ar draws y sector." (Cymdeithas yr Optometryddion)

"Byddai gwneud i ffwrdd â'r safonau heb drefniadau amgen clir yn creu risg o ansawdd CPD amrywiol ac yn ei gwneud yn anoddach adnabod a chywiro darpariaeth wael." (Optometry Scotland)

"Fel darparwr CPD, ni chefnogwn dynnu'n ôl o Safonau'r GOC ar gyfer Darparwyr CPD. Mae'r Safonau'n rhoi eglurder ar ddisgwyliadau, yn cefnogi cysondeb ar draws darparwyr ac yn ategu a sicrhau ansawdd CPD drwy ddarparwr. Maen nhw wedi tywys buddsoddiad helaeth gan ddarparwyr mewn llywodraethu, dylunio'r dysgu, gwerthuso a pharodrwydd am archwiliad, ac yn rhan bwysig o'r sicrwydd sydd gan gofrestreion a'r cyhoedd mewn CPD drwy ddarparwr.

Byddai cael gwared ar y Safonau heb drefniadau amgen clir yn creu risg o ansawdd mwy amrywiol a thanseilio'r hyder yn y system bresennol. Os oes angen diwygio, byddai'n well gwneud hynny drwy adolygu a gwella'r Safonau i sicrhau eu bod yn aros yn gymesur, clir ac addas i bwrpas, yn hytrach na chael gwared arnynt yn llwyr." (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – Tynnu'n ôl o Safonau'r GOC ar gyfer Darparwyr CPD

213. Roedd cefnogaeth gref o blaid cadw Safonau'r GOC ar gyfer Darparwyr CPD felly bwriadwn eu cadw. Bydd y Safonau'n parhau i fod yn sail ar gyfer ein harchwilio a'n hymchwiliadau i bryderon a godir gyda ni.

214. Yn y pen draw, os daw cymeradwyo darparwyr CPD i ben ar ôl diwygio Rheolau CPD 2021, ni fyddai gan y GOC unrhyw ffordd o orfodi'r safonau. Bryd hynny, byddai angen i ni ystyried a fyddai safonau'n ddefnyddiol fel offeryn hunan-reoleiddio i ddarparwyr CPD neu i gefnogi cofrestreion i chwilio am ddarpariaeth CPD addas.

6. Meysydd eraill

Pryd ddylem ni gyflwyno newidiadau'n gofyn diwygio Rheolau CPD 2021 (Cwestiwn 22)

C22 [Pryd ddylem ni gyflwyno newidiadau'n gofyn diwygio Rheolau CPD 2021?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Ionawr 2028	53.3%	58.3%	26.1%
Ionawr 2031	23.3%	15.7%	65.2%
Ionawr 2034	12.7%	14.2%	4.3%
Dyddiad arall	10.7%	11.2%	4.3%

215. Er bod mwy o ymatebwyr unigol wedi dewis Ionawr 2028, teimlai'r rhan fwyaf fod Ionawr 2031 yn ddyddiad mwy realistig a chymesur er mwyn rhoi mwy o amser i ddatblygu, profi a chyfathrebu. Dywedodd rai fod diwygio'n annhebygol cyn diwedd cylch 2028–2030 oherwydd yr ansicrwydd gydag amser deddfu.

216. Roedd themâu eraill yn cynnwys gweithredu graddol a / neu gyfochrog (rhedeg yr hen drefniadau a'r rhai newydd ochr yn ochr am gyfnod) i leihau risg cydymffurfio a rhoi amser i newid ymddygiad a diwylliant wreiddio'n ddiogel. Roedd rhai'n argymell gwerthuso'r newidiadau cychwynnol yn gynnar yng nghylch 2028–2030 (e.e. ar ôl dwy flynedd) i oleuo penderfynu a ddylid a sut i symud ymlaen gyda diwygio mwy sylweddol a fyddai angen diwygiadau deddfwriaethol.

217. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau sydd angen diwygio Rheolau CPD 2021 tan fis Ionawr 2031 o leiaf. Fodd bynnag, dylid gwerthuso unrhyw newidiadau cychwynnol i'r cynllun ar ôl dwy flynedd gyntaf cylch 2028-2030, er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am weithredu newidiadau mwy sylweddol sydd angen newid deddfwriaeth, neu beidio." (ABDO)

"Credwn fod Ionawr 2028 yn rhy fuan am newidiadau sydd angen diwygio Rheolau CPD 2021. Mae adborth traws-sector yn cefnogi bod angen diwygio'n gyffredinol ond bod angen llawer mwy o waith ar fanylion y fframwaith, gan

gynnwys canllawiau, sicrhau ansawdd, disgwyliadau archwilio a chefnogaeth ymarferol i gofrestreion a darparwyr. Byddai dyddiad gweithredu o Ionawr 2031 yn rhoi digon o amser i'r elfennau hyn gael eu datblygu, eu profi a'u cyfathrebu, gan gynorthwyo proses bontio fwy diogel a chyson ar draws y sector." (Cymdeithas yr Optometryddion)

"Mae angen i'r sector gael amser i baratoi am newidiadau sy'n gofyn newid diwylliant oherwydd mae hyn o hyd yn broses araf sydd angen cymorth hirdymor. Gellir gweithredu newidiadau gweithdrefnol yn sydyn gyda digon o hyfforddiant. Rhaid cael eglurder a thryloywder gan y GOC o ran statws a cherrig milltir y prosiect newid." (Coleg yr Optometryddion)

Ymateb y GOC – Pryd ddylem ni gyflwyno newidiadau'n gofyn diwygio Rheolau CPD 2021

218. Cytunwn â'r adborth bod 2028 yn rhy fuan i gyflwyno newidiadau ar y raddfa yma o ystyried faint o waith paratoi sydd angen ei wneud. Nid i'r GOC yn unig ond hefyd i gyrff proffesiynol, darparwyr CPD, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Gan gadw'r sylwadau am y system bwyntiau (Cwestiwn 2) mewn cof, rhaid i newid diwylliant wreiddio cyn gallu cyflwyno newid mor sylweddol yn ddiogel. Bydd y mesurau a amlinellwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol yn cefnogi'r newid diwylliant hwn fel rhan o broses bontio reoledig. Deallwn hefyd o ddarllen yr amgylchedd gwleidyddol na fyddai diwygio Rheolau CPD 2021 yn cael blaenoriaeth mewn pryd i'w gweithredu yn Ionawr 2028.

219. Deallwn yr alwad am eglurder ar statws a cherrig milltir ar gyfer newid ac rydym wedi cynnwys amserlen amlinellol yn y crynodeb gweithredol. Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried diwygiadau sydd angen newid Rheolau CPD 2021 i'w gweithredu ar ôl i gylch 2028-30 ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys y newidiadau mwyaf sydd mewn golwg fel dod â'r system bwyntiau a chymeradwyo darparwyr CPD i ben. Bydd newidiadau posib o fewn Rheolau CPD 2021, fel addasu pwyntiau a symleiddio cymeradwyo darparwyr CPD, yn cael eu cyflwyno o ddechrau cylch 2028-30 ymlaen. Bydd angen cynllunio manwl ar gyfer y ddau newid a bwriadwn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynorthwyo'r gwaith hwn, gan roi'r ffocws i ddechrau ar newidiadau sydd angen eu cyflwyno ar gyfer Ionawr 2028.

220. Os oes angen newidiadau i Reolau CPD 2021, yn y pen draw nid yw'r amserlen o fewn rheolaeth y GOC, ond rhagwelwn ddwy senario. Y senario gyntaf yw bod y llywodraeth yn diwygio Rheolau CPD 2021 cyn gwneud diwygiadau arfaethedig ehangach i'r Ddeddf Optegwyr. Yr ail senario yw bod newidiadau i'r Ddeddf Optegwyr yn digwydd gyntaf. Os adlewyrchir y cynigion presennol i ddiwygio deddfwriaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GOC) mewn Deddf Optegwyr ddiwygiedig (fel y bwriedir), byddai gan y GOC bwerau i newid ei reolau, ar ôl ymgynghori, heb fod angen cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor. Yn y sefyllfa yma, byddai gan y GOC yna reolaeth dros yr amserlen i ddiwygio CPD.

Gyda'r naill senario neu'r llall, byddai angen ymgynghori â'r cyhoedd ar ddiwygio rheolau CPD.

221. Byddai'n anffodus os na ellid gwneud newidiadau tan 2034 neu ar ôl hynny. Nid ydym yn diystyru maint y rhaglen newid sydd angen ei chyflwyno, ond credwn y gallwn wneud y newidiadau technegol, ymarferol a diwylliannol angenrheidiol yn barod i'w cyflwyno ar ôl i gylch 2028-30 ddod i ben.

Asesiad effaith

C26 [A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid gyda nodweddion penodol?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Oes	13.6%	12.1%	21.7%
Nag oes	46.9%	46.0%	52.2%
Ddim yn siŵr	39.4%	41.9%	26.1%

222. Roedd yr adborth yn cynnwys pryderon y gallai'r diwygiadau arfaethedig greu anfantais anfwriadol i rai grwpiau, yn enwedig os daw'r gofynion ar gyflogwyr yn orfodol neu os yw'r system yn mynd yn llai strwythuredig a mwy dibynnol ar ddysgu hunangyfeiriedig. Yn ôl yr adborth roedd grwpiau mewn perygl yn cynnwys: gweithwyr locwm, unig ymarferwyr, gweithwyr portffolio, rhai ar absenoldeb mamolaeth neu seibiant gyrfa, cofrestreion rhan amser a rhai gydag anabledd neu niwroamrywiaeth (fel awtistiaeth, ADHD, dyslecsia).

223. Un thema a gododd oedd bod rhoi mwy o rôl i fusnesau mewn CPD (e.e. drwy arfarnu neu fonitro) yn creu risg o annhegwch i rai sydd heb gymorth cyflogwr cyson, fel gweithwyr locwm neu rai sy'n gweithio y tu allan i fusnesau a gofrestrodd gyda'r GOC. Tynnodd rai ymatebion sylw y gallai gwneud i ffwrdd â dulliau cyfarwydd, strwythuredig (fel pwyntiau a chymeradwyo darparwyr) greu anfantais i gofrestreion newydd gymhwyso, a hyfforddwyd yn rhyngwladol neu a dangynrychiolir, sy'n dibynnu ar fframweithiau clir.

224. Pwysleisiwyd bod angen canllawiau clir, dylunio cynhwysol a dulliau sicrwydd cymesur i osgoi'r risgiau hyn. Pwysleisiodd rai bod angen hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer gwahanol batrymau gweithio ac amgylchiadau personol (e.e. absenoldeb mamolaeth, gyda chyfrifoldebau gofalu neu anabledd), a bod angen monitro'r effaith ar gydraddoldeb yn rheolaidd.

225. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Gallai rhai agweddau ar y diwygiadau arfaethedig gael effeithiau negyddol anfwriadol ar rai grwpiau o gofrestreion. Yn benodol, gallai gwneud i ffwrdd â

gofynion CPD strwythuredig a dibynnu mwy ar ddysgu hunangyfeiriedig a chymorth cyflogwr greu anfantais i gofrestreion sydd â llai o fynediad at hyfforddiant yn y gweithle. Er enghraifft, efallai nad oes gan weithwyr locwm neu ran amser, a rhai sy'n gweithio mewn nifer o wahanol fusnesau optegol, yr un lefel o gymorth cyflogwr ar gyfer CPD â rhai sy'n gweithio i fusnesau mwy. Gallai hyn greu annhegwch mynediad at gyfleoedd dysgu strwythuredig a datblygiad proffesiynol.

Gallai cofrestreion gyda chyfrifoldebau gofalu, sy'n dychwelyd o absenoldeb rhieni neu gydag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor, hefyd wynebu heriau os yw disgwyliadau CPD yn dod yn llai strwythuredig a mwy dibynnol ar gymorth y cyflogwr neu drefniadau dysgu anffurfiol.

Hefyd, efallai na fyddai gan gofrestreion sy'n gweithio i fusnesau optegol llai neu wledig yr un mynediad at CPD o ansawdd uchel pe bai llai o oruchwyliaeth reoleiddio o ddarparwyr CPD. Gallai'r ffactorau hyn, yn anfwriadol, ehangu'r angysondeb mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar draws y proffesiwn." (Optometrydd Rhagnodi Therapiwtig)

"Nid yw'r ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith atodol yn rhoi dadansoddiad manwl i ddangos i ba raddau y byddai'r cynigion ymgynghori'n cynyddu neu leihau costau i fusnesau, nac ychwaith yn dangos tystiolaeth bod cost a budd y gwahanol opsiynau wedi cael eu hystyried." (FODO – Cymdeithas y Darparwyr Gofal Llygad)

"Mae cynigion sy'n ceisio cryfhau rôl busnesau – er enghraifft drwy arfarnu, monitro neu oruchwyliaeth o gynlluniau PDP – yn creu risg o annhegwch i gofrestreion sy'n weithwyr locwm, unig ymarferwyr, perchnogion busnes neu'n weithwyr portffolio, neu rai sy'n gweithio i gyflogwyr heb gofrestru â'r GOC. Efallai nad oes gan y grwpiau hyn fynediad at systemau neu gymorth cyson yn y gweithle, gan efallai arwain at gymhwyso gofynion yn anghyfartal a chreu argraff o annhegwch." (Darparwr CPD)

"Gallai system CPD fwy hyblyg sy'n rhagnodi llai o ofynion greu anfantais i gofrestreion sydd â llai o fynediad at gymorth, cyfleoedd datblygu strwythuredig neu seilwaith gweithle cyson. Mae'r risg yma wedi'i chysylltu'n agos i strwythur y gweithlu a threfniadau gweithio sy'n amrywio." (Optometry Scotland)

C27 [A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid gyda nodweddion penodol?]	Pawb	Unigolion	Sefydliadau
Oes	17.8%	11.4%	52.2%
Nag oes	31.5%	35.0%	13.0%
Ddim yn siŵr	50.7%	53.7%	34.8%

226. Roedd y manteision yn ôl yr adborth yn cynnwys gofynion CPD mwy hyblyg, yn enwedig i rai sy'n wynebu rhwystrau gyda mynychu sesiynau traddodiadol, strwythuredig neu drwy ddarparwr. Mae hyn yn cynnwys unigolion gyda chyfrifoldebau gofalu, anableddau, ar absenoldeb mamolaeth neu rieni, a rhai gyda phatrwm gwaith amrywiol neu sy'n cael trafferth mynychu y tu allan i oriau gwaith arferol.

227. Roedd rhai ymatebion wedi nodi y gallai dull mwy hunangyfeiriedig ac yn rhagnodi llai o ofynion ehangu cyfranogiad a gwella effaith CPD. Soniwyd hefyd am botensial effeithiau cadarnhaol yn ymwneud ag oed, ac i rai'n dychwelyd o seibiant gyrfa.

228. Rhoddir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y blwch isod:

"Gallai fod yn gyfle gwych i ddatblygu'r gweithlu optegol ac annog datblygiad hunangyfeiriedig gyda chofrestreion yn cymryd llawer mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain,

Mae angen i'r GOC ehangu'n sylweddol ar ei ganllawiau a'i adnoddau CPD i gofrestreion – i ysbrydoli ac annog mwy o weithgareddau dysgu a rhagnodi llai o ofynion o ran pa weithgareddau sy'n addas, ond gan gadw'r ffocws ar ddatblygiad proffesiynol sy'n sicrhau bod gweithgareddau craidd a gyflawnir gan yr ymarferydd neu eraill yn fwy diogel ac effeithiol." (Coleg yr Optometryddion)

"Byddai'r cynigion ymgynghori, pe byddent yn cael eu gweithredu, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gofrestreion gael dewis y CPD sy'n cwrdd orau ag anghenion ac amgylchiadau'r ymarferydd, heb duedd tuag at gyrsiau ffurfiol. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y cyfan, gan gynnwys i rai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, sy'n gweithio'n rhan amser neu gyda chyfrifoldebau gofalu." (FODO – Cymdeithas y Darparwyr Gofal Llygad)

"Gallai mwy o bwyslais ar farn broffesiynol, ymarfer myfyriol a chynllunio datblygiad personol fod o fantais i gofrestreion gyda dull o ddysgu neu o gefndiroedd diwylliannol sy'n cyd-fynd llai ag addysg ffurfiol yn yr ystafell ddosbarth. Mae cefnogi nifer o lwybrau at gymhwysedd yn annog dulliau dysgu amrywiol a chydnabod gwahanol gryfderau a phrofiadau.

Fodd bynnag, bydd i ba raddau y gwireddir yr effeithiau cadarnhaol hyn yn dibynnu ar ganllawiau clir, dulliau sicrwydd cymesur a chymorth priodol, yn enwedig i gofrestreion a allai fod angen mwy o hyder neu strwythur wrth ddefnyddio system fwy anffurfiol." (Darparwr CPD)

Ymateb y GOC – asesiad effaith

229. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth ac wedi dewis cyfuno ein hymatebion i Gwestiynau 26 a 27 o ystyried pa mor debyg yw'r materion a godwyd.

230. Cytunwn â'r sylw olaf yn y blwch uchod y dylai'r newidiadau gael effaith gadarnhaol ar y cyfan, ond bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar ansawdd y canllawiau a'r cymorth, a hefyd ar ein dulliau o sicrhau ansawdd. Yn y bôn, mae ein cynigion yn ceisio cyflwyno mwy o hyblygrwydd a llai o ofynion mewn sector sydd wedi'i nodweddu gan amrywiaeth eang o rolau a lleoliadau optegol. Gellid disgwyl yn rhesymol i fwy o hyblygrwydd fod o fudd i gofrestreion sy'n gweithio y tu allan i wasanaethau gofal llygad 'stryd fawr' traddodiadol. Er enghraifft, ymarferwyr sy'n hŷn, yn gweithio rhan amser neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Dylai mwy o bwyslais ar CPD hunangyfeiriedig hefyd gynorthwyo cofrestreion llai cefnog, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gymwys am grantiau gan y GIG neu ddim yn gweithio i gyflogwyr mawr sy'n rhoi mynediad parod a di-gost at CPD i gofrestreion.

231. Derbyniwn y pryderon na fyddai dull mwy hyblyg o fudd i bawb ac y gallai greu anfantais i rai grwpiau penodol pe bai'r system yn dod yn llai strwythuredig a ffurfiol ac yn dibynnu mwy ar ddysgu hunangyfeiriedig. Disgwyliwn i'r rhan fwyaf o gofrestreion barhau i ddefnyddio CPD drwy gyflogwr a gweithgareddau ac y daw CPD hunangyfeiriedig yn fwy dylanwadol dros amser. Byddai'r system newydd yn rhoi mwy o ddewis i gofrestreion ddewis parhau gyda dull tra-strwythuredig os byddai hynny'n gweithio orau iddynt. Gallai canllawiau gan y GOC ac eraill gefnogi cofrestreion drwy awgrymu normau, nodi ymarfer gorau, a darparu adnoddau ymarferol fel templedi. Un o'r gofynion sylfaenol ar gyfer canllawiau gan y GOC fydd egluro beth fydd y GOC yn chwilio amdano wrth adolygu cofnodion CPD a pha amgylchiadau a allai arwain at dynnu enw o'r gofrestr.

232. Un o fanteision y cylch tair blynedd presennol a gefnogir gan ein hystyriaeth o amgylchiadau eithriadol, yw ei fod yn cefnogi 'seibiant o CPD' oherwydd beichiogrwydd, cyfrifoldebau gofalu a digwyddiadau bywyd eraill. Mae hyn oherwydd y gellir gwasgaru'r cyfanswm pwyntiau sydd angen eu casglu dros gwrs pob cylch. Os gweithredir ein cynigion, byddai cysyniad y cylch CPD tair blynedd yn dod i ben. Bydd ein canllawiau ar adolygu cofnodion CPD yn egluro sut y deliwn â sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol.

233. Roedd rhai pryderon a godwyd yng Nghwestiwn 26 yn ymwneud â'n cynigion penodol i roi mwy o rôl i gofrestreion busnes mewn cefnogi CPD. Fodd bynnag, rydym wedi camu'n ôl o'r cynigion hyn ar sail yr adborth gan randdeiliaid.

234. Cyhoeddwyd asesiad effaith wedi'i ddiweddaru ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Yr iaith Gymraeg

235. Gofynnwyd i randdeiliaid a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar: (i) cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg,

a (ii) trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Dywedodd naw ymatebydd y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg, a dywedodd 10 ymatebydd y byddent yn cael effaith ar drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Yn yr adborth, nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi adnabod effaith uniongyrchol y diwygiadau arfaethedig i CPD ar y Gymraeg nac ar ei thrin o'i gymharu â'r Saesneg.

236. Gofynnwyd i randdeiliaid a ellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel y byddent yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar: (i) cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg, a (ii) trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Dywedodd 15 ymatebydd y gellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel y byddent yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg, a dywedodd 12 ymatebydd y gellid eu diwygio i drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Yn yr adborth, roedd cefnogaeth i ddogfennau ac adnoddau fod ar gael yn Gymraeg, yn unol â'r disgwyliadau rheoliadol.

237. Gofynnwyd i randdeiliaid a ellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel na fyddent yn cael unrhyw effaith negyddol, neu fel y byddent yn cael llai o effaith negyddol, ar: (a) cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg, a (b) trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Dywedodd 10 ymatebydd y gellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel na fyddent yn cael effaith negyddol, neu'n cael llai o effaith negyddol, ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg. Dywedodd wyth ymatebydd y gellid eu diwygio fel na fyddent yn cael effaith negyddol, neu'n cael llai o effaith negyddol, ar drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Fel gyda chwestiynau blaenorol, roedd hygyrchedd iaith wedi'i nodi fel ystyriaeth bwysig. Ar y cyfan, nid oedd yr adborth mor helaeth ar gwestiynau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg o'i gymharu â chwestiynau eraill a ofynnwyd.

Ymateb y GOC – Yr iaith Gymraeg

238. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ychydig iawn o ymatebion a ddisgrifiodd newidiadau penodol y gellid eu gwneud, gyda ffocws yr adborth ar gyfieithu dogfennau.

239. Ar y cyfan, arhoswn o'r farn y byddai ein cynigion yn cael effaith niwtral ar yr iaith Gymraeg. Rydym yn cyfieithu ein deunyddiau CPD i'r Gymraeg yn barod, a byddwn yn parhau i wneud hyn.